2023

Prifysgol Abertawe
Swansea University

# ADOLYGIAD BLYNYDDOL

# CYNNWYS


02 – CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

04 – CYFLWYNIAD YR IS-GANGHELLOR

06 – FFEITHIAU A FFIGURAU

08 – EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL A'N PWRPAS

10 – CYMUNED EIN STAFF

12 – EIN PROFIAD DYSGU AC ADDYSGU A PHROFIAD EIN MYFYRWYR

16 – EIN HYMCHWIL A'N MENTERGARWCH

20 – EIN PRIFYSGOL RYNGWLADOL

22 – EIN HISADEILEDD DIGIDOL

24 – EIN HYSTAD

26 – EIN CYNALIADWYEDD

28 – ADOLYGIAD ARIANNOL

36 – PRIF RISGIAU A FFACTORAU ANSICRWYDD

40 – DATGANIAD BUDDION CYHOEDDUS

42 – DATGANIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL A DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

52 – ADRODDIAD BLYNYDDOL AM BOLISÏAU TÂL

54 – ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWE AM YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

57 – DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR O RAN YR ADOLYGIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

58 – DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

64 – DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

65 – DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

66 – DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL A'R SEFYDLIAD

67 – DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN CYFUNOL

68 – NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
















Dyluniwyd gan IconCreativeDesign.com




# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Ar ran Cyngor y Brifysgol, hoffwn ddechrau'r cyflwyniad hwn i'n Hadolygiad Blynyddol drwy ddiolch i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a holl staff ein Prifysgol am eu hymrwymiad a'u gwaith caled parhaus sy'n sicrhau bod ein Prifysgol yn parhau i gyflawni ei huchelgeisiau strategol, atgyfnerthu ei henw da'n genedlaethol ac yn rhyngwladol, a bod yn fwy cynaliadwy yn y sector addysg uwch, sy'n fwyfwy cystadleuol a heriol.

Mae profiad y myfyrwyr yn parhau i fod yn ganolog i'n nodau strategol, ac mae ymgysylltu â myfyrwyr a chynnal perthynas agos rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn hollbwysig er mwyn sicrhau y clywir lleisiau myfyrwyr ac y gwrandewir arnynt o ddifrif yn Abertawe. Yn yr amgylchiadau presennol, rydym yn sylweddoli, yn fwy nag erioed, faint sydd yn y fantol i fyfyrwyr wrth ddewis prifysgol. Rydym yn parhau i roi ein myfyrwyr wrth wraidd popeth rydym yn ei wneud, ac i ymdrechu i gynnig profiad cadarnhaol a chofiadwy i'n holl fyfyrwyr. Yn dilyn heriau pandemig Covid-19 yn ystod blynyddoedd blaenorol, bu'n hyfryd gweld cynifer o ddigwyddiadau'n dychwelyd sy'n rhan annatod o brofiad y myfyrwyr, gan gynnwys Varsity Cymru, seremonïau graddio wyneb yn wyneb ar y safle, a Dawns yr Haf. Gan weithio gydag Undeb y Myfyrwyr, rydym hefyd wedi ceisio cefnogi myfyrwyr drwy lansio ap newydd i fyfyrwyr presennol sy'n eu galluogi i gael gafael ar holl hanfodion bywyd myfyrwyr yn yr un lle, ac, ar ôl cyflwyno pwynt mynediad newydd ym mis Ionawr, rydym bellach yn cynnal Ffair Croeso a Chroeso'n Ôl ym mis Ionawr i gyd-fynd â'r digwyddiad traddodiadol i lasfyfyrwyr ym mis Medi, er mewn cefnogi myfyrwyr newydd a'r rhai hynny sy'n dychwelyd, a rhoi cyfle iddynt ymgysylltu eto ag Undeb y Myfyrwyr. Rydym hefyd yn parhau i wella ein campws, gan gynnwys cyfleusterau newydd ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe i staff a myfyrwyr, ac ailddatblygu Tŷ Fulton fel canolbwynt bywyd myfyrwyr. Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau Cyngor y Brifysgol a'i bwyllgorau am eu hymrwymiad i'r Brifysgol a'u cyfraniad ati. Fe'm penodwyd yn Gadeirydd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019 a byddaf yn rhoi'r gorau i'r rôl hon ar 31 Rhagfyr eleni. Yn ddiau, yn ogystal ag effeithiau ysgubol y pandemig a newidiadau ar draws y sector yn gyffredinol, gwnaed newidiadau yn ystod fy nghyfnod, yn enwedig yma yn Abertawe, i geisio gwella, atgyfnerthu a gwreiddio trefniadau llywodraethu da yn y Cyngor ac ar draws holl elfennau ein Prifysgol. Mae'r newidiadau hyn wedi ceisio amlygu pwysigrwydd diwylliant agored a thryloyw a'r angen hollbwysig i gyfranogi mewn trafodaethau llawn a didwyll am lawer o faterion sy'n destun pryder i bawb yn y Brifysgol. Mae hyn wedi helpu i sicrhau ein bod wedi llwyddo i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector yn gyffredinol a'n Prifysgol yn benodol dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad i hynny, rwy'n hyderus bod y Brifysgol, ei staff, ei myfyrwyr a'i holl randdeiliaid yn y sefyllfa gryfaf bosib i barhau i ymateb i gyfleoedd yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Bu'n fraint fawr gwasanaethu Prifysgol Abertawe (lle bu fy rhieni'n astudio o 1948-51) dros y saith mlynedd diwethaf. Y peth mwyaf trawiadol i mi drwy gydol fy nghyfnod fu gweld y ffordd, ar adeg eithriadol, y mae'r Brifysgol wedi dod yn fwy o gymuned nag erioed – bu'n anhygoel gweld sut rydym wedi ffynnu yn ogystal ag ymaddasu, ac mae hyn wedi deillio o'r ffaith bod pob aelod staff wedi gweithio gyda'i gilydd a chyda myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr ac, yn wir, yr holl randdeiliaid, gan ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod ein Prifysgol yn y sefyllfa orau i adeiladu ar ei gorffennol a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Rwy'n hyderus y bydd y Brifysgol yn parhau i ffynnu fel sefydliad addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf sy'n rhoi pwyslais ar les myfyrwyr. Byddaf yn cael fy olynu fel Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor gan Goi Ashmore, sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu fel Trysorydd y Brifysgol a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rwy'n dymuno pob lwc i Goi yn ei rôl newydd ac rwy'n siŵr y byddwch chi i gyd yn ei gefnogi yntau yn yr un modd cyflawn a chryf â'ch bod wedi fy nghefnogi innau yn ystod fy nghyfnod.



**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**
27 Tachwedd 2023



# CYFLWYNIAD YR IS-GANGHELLOR

I lawer ohonom, yn y sector addysg uwch a'r tu allan iddo, mae cefndir allanol heriol wedi bod yn nodweddiadol o eleni. Mae cynnydd serth mewn prisiau o ganlyniad i chwyddiant a'r pwysau cysylltiedig ar gostau byw wedi effeithio ar ein myfyrwyr a'n staff, ynghyd â'n gweithrediadau sefydliadol. Yn ein sector, rydym hefyd wedi rheoli diwedd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a'r ansicrwydd ynghylch cysylltiad y DU â Horizon Ewrop, un o'r cynlluniau ariannu ymchwil ac arloesi mwyaf yn y byd.

Ym Mhrifysgol Abertawe, mae'r cyfnod hwn hefyd wedi bod yn nodweddiadol am wydnwch cymuned ein staff, y mae cynifer ohonynt wedi gweithio i sicrhau parhad diben craidd ein Prifysgol: ein gweithgarwch dysgu ac addysgu, profiad ein myfyrwyr, ein hymchwil, ein mentergarwch a'n cenhadaeth ddinesig. Rwy'n dal i fod yn hynod falch, yng nghyd-destun sector sy'n newid drwy'r amser, fod ein hymrwymiad cyffredin i'n cenhadaeth a rhagoriaeth wedi para.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnig profiad neilltuol i'n myfyrwyr, o ran ansawdd ein haddysgu a'r cymorth a'r cyfleoedd a roddir iddynt yn ystod eu hamser gyda ni. Gan fod yn ymwybodol o anghenion cymhleth carfan o fyfyrwyr a wnaeth wynebu effeithiau cymdeithasol ac addysgol mwyaf niweidiol y pandemig, eleni rydym wedi blaenoriaethu cefnogi lles, iechyd a diogelwch ein cymuned o fyfyrwyr. O ganlyniad i'n penderfyniad i ddarparu buddsoddiad ychwanegol yn Undeb y Myfyrwyr, llwyddwyd i estyn ein cynllun brecwast am ddim i fyfyrwyr a oedd yn wynebu caledi ariannol. Mae pwyntiau mynediad newydd a symlach i'n gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ac anabledd, sefydlu Tîm Diogelu newydd, dynodedig a rhoi Strategaeth Atal Hunanladdiad ar waith ar draws y sefydliad wedi cryfhau ein gallu i ymateb i anghenion ein carfan bresennol a rhai'r dyfodol.

Rydym hefyd wedi parhau i gynnig cyfleoedd i'n myfyrwyr rydym yn gwybod y byddant yn cyfrannu at brofiad addysg uwch trawsnewidiol. Mae ein rhaglen Go Wales a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Hwb Gyrfaoedd, wedi helpu i fwyafu potensial ein myfyrwyr, a all fel arall wynebu rhwystrau i gyflogaeth ar ôl gorffen astudio, a bu'n galonogol gweld niferoedd cynyddol yn achub ar gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cyfnewid myfyrwyr a theithio dramor, wedi'u hariannu gan gynlluniau Taith a Turing, ar ôl i'r rhain ddod i ben yn ystod y pandemig. Roedd yn bleser i ni weld ein hymdrechion i ychwanegu gwerth go iawn at fywydau ein myfyrwyr yn cael eu cydnabod yn The Guardian University Guide eleni. Fe'n rhestrwyd yn y 26ain safle yn gyffredinol ac yn y 15fed safle yn y DU am foddhad â'r cwrs.

Er gwaethaf yr heriau sy'n ymwneud â mynediad y DU at ffrydiau ariannu ymchwil Ewropeaidd yn dilyn Brexit, mae ein cymuned ymchwil wedi dangos gwydnwch sylweddol wrth sicrhau cyllid allanol sy'n hollbwysig i'n gallu i fynd i'r afael â heriau nawr ac yn y dyfodol, drwy arloesi a darganfod. Tyfodd ein portffolio ymchwil gweithredol yn sylweddol, o £366m ar draws 1,197 o brosiectau yn 2022, i 1,441 o brosiectau gwerth £482m yn 2023, yn seiliedig ar gynnydd sylweddol o ran dyfarniadau ymchwil a sicrhawyd drwy Lywodraeth y DU a chyrff elusennol. Yn hollbwysig, mae nifer yr aelodau staff benywaidd sydd wedi sicrhau dyfarniadau ymchwil wedi cynyddu 5% hefyd. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb rhywiol, wrth i gyfran yr athrawon benywaidd ar draws ein Prifysgol ddyblu o 13% yn 2014 i 26% heddiw. Rydym yn gwybod bod llawer mwy o waith i'w wneud ar yr agwedd hon, ond mae'n destun pleser ein bod yn datblygu'n bwrpasol.

A ninnau'n brifysgol a sefydlwyd gan fyd diwydiant i'r byd diwydiant, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar fentergarwch a chydweithredu ar draws sectorau. Yn ogystal â llunio Strategaeth Mentergarwch gyntaf ein sefydliad, sy'n cwmpasu mentergarwch myfyrwyr, masnacheiddio a phartneriaethau, gwnaethom hefyd gynyddu incwm o brosiectau ymchwil ar y cyd £3m fel a fesurir drwy arolwg HE-BCI (Rhyngweithio rhwng Addysg Uwch, Byd Busnes a'r Gymuned). Rydym yn falch o'n hanes o greu busnesau newydd, wrth i 51 o fusnesau ddechrau hyd yn hyn, ac roeddem wrth ein boddau i gael ein dewis i gynnal Cynhadledd Ryngwladol Addysgwyr Mentergarwch 2022, gan adlewyrchu ein statws byd-eang fel sefydliad sy'n rhoi pwyslais ar fyd busnes.

Rydym wedi cadw ein hymagwedd ryngwladol a'n hymrwymiad parhaus i addysgu'r genhedlaeth nesaf o ddinasyddion byd-eang. Eleni, rydym wedi mynd ati i archwilio partneriaethau newydd yn Tsieina, Mauritius ac ardaloedd eraill i atgyfnerthu ein harlwy rhyngwladol. Rydym hefyd wedi cael ein rhestru yn y 307fed safle yn y byd yn nhablau prifysgolion y byd 2024 QS, sef 118 o safleoedd yn uwch na'r llynedd; dyma'r cynnydd mwyaf gan unrhyw sefydliad yn y 500 uchaf ac yn adlewyrchiad gwych o'n gwaith i sicrhau cydnabyddiaeth i Abertawe a Chymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Yn agosach at gartref, nid ydym wedi colli golwg ar ein rôl unigryw yn ein rhanbarth, na'r ymdeimlad cryf o genhadaeth ddinesig sy'n llywio ein Prifysgol. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau i'n campws i gyfoethogi profiad y myfyrwyr (megis y gwaith parhaus i adnewyddu adeilad hanesyddol Tŷ Fulton) a chryfhau ein darpariaeth i'r gymuned leol. Mae ein buddsoddiad ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe – gan gynnwys caeau a chyfleusterau newydd a gwaith parhaus i ddatblygu adeilad a ariennir gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe ar Lôn Sgeti i helpu i ddatblygu technolegau iechyd, lles a chwaraeon – yn ategu ein gweledigaeth i sicrhau bod pawb yn cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon a lles. Mae gosod cyfarpar i ddefnyddio ynni'r haul a'r gwynt ledled ein dau gampws hefyd wedi ein galluogi i barhau â'n taith tuag at weithrediadau sero net.

Yn olaf, yn ystod blwyddyn yr amharwyd arni gan ansicrwydd geowleidyddol a gwrthdaro arfog, rydym wedi bod yn falch o wneud cyfraniad wrth gefnogi myfyrwyr a chydweithwyr sy'n wynebu amgylchiadau y tu hwnt i'r dychymyg ledled y byd. Ym mis Tachwedd, gwnaethom lofnodi cytundeb partneriaeth â Phrifysgol Genedlaethol Petro Mohyla'r Môr Du yn Wcráin ac rydym wedi bod yn falch o gynnig ein cymorth drwy anfon cyfarpar a chroesawu nifer o staff a myfyrwyr y brifysgol honno i Abertawe yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Rydym hefyd wedi parhau i gynnig dosbarthiadau Saesneg dyddiol am ddim i ffoaduriaid a'r rhai hynny sy'n ceisio lloches yn y DU, yn ogystal â datblygu rhaglen o Ysgoloriaethau Noddfa, yn unol â'n bwriad i fod yn Brifysgol Noddfa yn 2024.

Mae cymaint o'n gweithgarwch eleni wedi bod yn seiliedig ar ein cred ddiwyro y gallwn newid ein byd er gwell, boed drwy gynnal yr ymchwil arloesol a fydd yn effeithio ar ein bywydau mewn ffyrdd niferus neu drwy gefnogi aelodau'r genhedlaeth nesaf – yma yn Abertawe a'r tu hwnt – wrth iddynt ymdrin â heriau ein hoes. Rwy'n falch o fyfyrio ar y ffaith bod ein cymuned o staff a myfyrwyr wedi dangos ei gwydnwch mewn ffyrdd niferus, yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol, a hynny'n hollbwysig, at gefnogi pobl eraill ledled y byd.

**Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor**

27 Tachwedd 2023

# FFEITHIAU A FFIGURAU

## NIFEROEDD MYFYRWYR

| | |
|---|---|
| 17,573 | 7,027 |
| ISRADDEDIGION | ÔL-RADDEDIGION |
| 19,032 | 5,570 |
| O'R DU | RHYNGWLADOL |

## HYNT MYFYRWYR

76% NSS

O'R MYFYRWYR YN FODLON
(Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2023)

83%

WEDI ENNILL GRADD DOSBARTH CYNTAF NEU AIL DDOSBARTH UWCH (21–22)

78.1%

WEDI CAEL PROFIAD CADARNHAOL AR ÔL GRADDIO
(Times Good University Guide 2023)

## TABLAU CYNGHRAIR Y DU

42ain

(The Times Good University Guide 2023)

26ain The Guardian

(Guardian University Guide 2023)

40fed Complete University Guide

(Complete University Guide 2024)

## TABLAU CYNGHRAIR BYD-EANG

QS World University Rankings

RHIF 307 AR Y RHESTR O BRIFYSGOLION GORAU'R BYD

(Tablau Prifysgolion y Byd QS 2024)

THE World University Rankings 2023

251-300

(Tablau Prifysgolion y Byd THE 2023)



## TABLAU CYNGHRAIR CYNALIADWYEDD

THE World University Rankings 2023

101-200

(Tablau Effaith THE 2023)

16 PEACE, JUSTICE AND STRONG INSTITUTIONS

4YDD YN Y DU
11EG YN Y BYD

(Tablau Prifysgolion y Byd THE 2023)

15 LIFE ON LAND

13EG YN Y DU
36ED YN Y BYD

(Tablau Prifysgolion y Byd THE 2023)

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

3YDD YN Y DU
38FED YN Y BYD

(Tablau Prifysgolion y Byd THE 2023)

THE World University Rankings 2023

321-340

(Tablau Prifysgolion y Byd THE 2023)

13eg YN Y DU — People & Planet University League

(Cynghrair Prifysgolion People & Planet 2022/23)

## RHAGORIAETH YMCHWIL


86% REF2021 Research Excellence Framework

YMCHWIL SY'N ARWAIN Y FFORDD YN FYD-EANG AC YN RHAGORI'N RHYNGWLADOL

£67m INCWM YMCHWIL

## CYLLID

| | |
|---|---|
| £41m | 10% |
| EBITDA | EBITDA FEL % O INCWM |
| £50m | 12% |
| LLIF ARIAN PAROD GWEITHREDU NET | LLIF ARIAN PAROD GWEITHREDU NET FEL % O INCWM |




# EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL A'N PWRPAS

**Mae *Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas* yn nodi blaenoriaethau lefel uchel ein Prifysgol. Fe'i datblygwyd yn 2020, yn dilyn ymgysylltiad helaeth â'n cymuned o staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr a rhanddeiliaid yn y rhanbarth. Ers hynny, rydym wedi gweithio i wreiddio'r egwyddorion a'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn *Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas* ym mhob agwedd ar ein gweithrediadau a'n gweithgarwch, drwy greu pwyllgorau newydd i'r Brifysgol gyfan a datblygu amrywiaeth o strategaethau a chynllun gweithredu ategol. Mae'r ddogfen hefyd bellach yn nodi ein hymagwedd flynyddol at bennu ein targedau a'n blaenoriaethau sefydliadol.**

### Ein Gweledigaeth

*Byddwn yn parhau i fod yn brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori. Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru.*

### Ein Strategaeth

Mae ein cymuned o gydweithwyr, myfyrwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn nodweddiadol am y gwerthoedd, y diwylliant a'r ymddygiadau arbennig sy'n greiddiol i ni.

Mae ymrwymiad ein cymuned yn tanategu pum piler allweddol ein Prifysgol – ein cenhadaeth ddinesig, profiad y myfyrwyr, dysgu ac addysgu, ymchwil a mentergarwch. Nodir pob un o'r rhain gan ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, gweithredu â chyfrifoldeb cymdeithasol, ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a chynnal meddylfryd byd-eang sydd yn ein galluogi i fod yn Brifysgol gymunedol â chyrhaeddiad ac enw rhyngwladol.

Mae ein gwaith wedi'i alluogi gan arweinyddiaeth gref a llywodraethu cadarn, cyfathrebu effeithiol ac ymrwymiad i gynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol. Mae'n seiliedig ar ein hisadeiledd digidol a diriaethol, ein strategaeth rhyngwladoli a'n hymagwedd at recriwtio cydweithwyr dawnus a brwdfrydig.





### Ein hymrwymiadau

Mae'r ddogfen yn amlygu ein hymrwymiadau allweddol:

- Argyfwng yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas o hyd. Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a byddwn yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2040. (Sylwer ein bod wedi cryfhau'r ymrwymiad hwn ers hynny drwy bennu dyddiad gorffen newydd, sef 2035.)
- Byddwn yn ehangu ac yn dyfnhau mynediad at addysg ymhellach, gan hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes, cynhwysol a theg.
- Byddwn yn sicrhau ymagweddau arloesol at addysgu, wedi'u hategu gan dechnoleg ddigidol. Caiff y rhain eu datblygu mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a byddant yn helpu i wreiddio syniadaeth ryngddisgyblaethol ar draws ein rhaglenni.
- Byddwn yn ehangu ein cyrhaeddiad a'n henw byd-eang nes ein bod yn bartner o ddewis ar gyfer cydweithrediadau rhyngwladol ym meysydd ymchwil, addysgu a mentergarwch, ac yn gwella ein statws yn y tablau rhyngwladol o'r prifysgolion gorau, flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wneud Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn brifddinas chwaraeon a lles Cymru.
- Byddwn yn cryfhau ein statws ymysg sefydliadau mwyaf blaenllaw'r DU am bwyslais ar effaith ac ymchwil, un sy'n rhagori mewn ymchwil ryngddisgyblaethol a chydweithredol, a byddwn yn sefydlu'r Sefydliad Astudiaethau Uwch cyntaf yng Nghymru.
- Byddwn yn cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn mynd i'r afael â'r rhesymau strwythurol a gweithredol sy'n sail iddo a'r gyfran isel o athrawon benywaidd.
- Byddwn yn datblygu ymagwedd a roddir ar waith yn y sefydliad cyfan at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.

### Pileri a galluogwyr allweddol

Mae pum piler yn tanategu *Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas* ac mae gan bob un ohonynt strategaethau pwrpasol sydd wedi'u cymeradwyo neu sy'n cael eu datblygu. Mae'r pum piler yn cwmpasu

- Ein Cenhadaeth Ddinesig
- Profiad ein Myfyrwyr
- Ein Dysgu ac Addysgu
- Ein Hymchwil
- Ein Mentergarwch

Caiff ein strategaeth ei hategu gan nifer o alluogwyr, gan gynnwys:

- Arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol
- Cynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol
- Buddsoddi yn ein hystad ddigidol a diriaethol
- Cyfathrebu agored, gonest a thryloyw
- Cryfder wrth recriwtio, gan groesawu safbwyntiau a phrofiadau newydd ac amrywiol i'n cymuned

Yn 2023, gwnaethom ddatblygu Strategaeth Mentergarwch gyntaf ein sefydliad, sy'n adlewyrchu ein treftadaeth unigryw a ninnau'n brifysgol a sefydlwyd gan fyd diwydiant i fyd diwydiant. Yn ystod yr un flwyddyn, gwnaethom hefyd gyhoeddi ein Strategaeth Ddigidol, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Diwylliant, Creadigrwydd a'r Celfyddydau, a'n Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg a Threftadaeth a Diwylliant Cymru: *Camu Ymlaen*. Mae ein Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig yn cael ei datblygu a chaiff ei chyhoeddi yn nes ymlaen yn 2023.

### Ein pobl a'n gwerthoedd

Ein pobl yw ein hased pwysicaf ac maent yn diffinio ein Prifysgol. Rydym yn sefydliad egwyddorol ac rydym yn deall bod ein hymddygiadau beunyddiol yn bwysig. Mae gennym ffydd yn ein gilydd, rydym yn cefnogi ein gilydd, rydym yn dathlu cyflawniadau ein gilydd ac yn dwyn ein gilydd i gyfrif.

Rydym yn parchu ein cydweithwyr ac yn trin eraill fel byddem yn disgwyl iddynt ein trin ni, ac rydym yn gweithio fel un brifysgol, gan gydnabod bod pob cydweithiwr a phob myfyriwr yn cyfrannu at ein llwyddiant.

Credwn yng ngwerth hyblygrwydd, cydweithredu a chreu amser i feddwl, gan ddilyn trywydd ysgogiad deallusol, gwreiddioldeb ac effaith. Rydym yn cydweithio mewn amgylchedd proffesiynol a gofalgar sydd yn ein galluogi i ragori ar ddisgwyliadau er lles pawb. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd lle gall ein cydweithwyr gyflawni eu potensial ac rydym yn ymdrechu i roi platfform i alluogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i drafod eu profiadau â'r gymuned.

Rydym yn cydnabod ein bod yn sefydliad angori diwylliannol ac economaidd yn ein cymuned. Mae gennym rôl arbennig i'w chwarae wrth ysgogi datblygiad rhanbarthol a hybu iechyd a lles, ac rydym yn falch o fod yn gadarnle treftadaeth, iaith a diwylliant Cymru.




# CYMUNED EIN STAFF

**Mae'r ddogfen E*in Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas* yn nodi amrywiaeth o flaenoriaethau sy'n ymwneud â'n Pobl, ein Gwerthoedd, ein Diwylliant a'n Hymddygiad, gan gynnwys:**

- **Hyrwyddo ymagwedd sy'n flaenllaw yn y sector at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chynyddu'r gyfran o athrawon benywaidd**
- **Gweithio gyda'n cymuned i ddarganfod ffyrdd newydd o wobrwyo a chydnabod cydweithwyr, a meithrin eu datblygiad personol a gyrfaol**
- **Gweithredu strategaeth iechyd a lles i sicrhau ein bod yn galluogi ein cydweithwyr i ffynnu ac i lwyddo**
- **Siarad yn erbyn gwahaniaethu, a mynd i'r afael ag achosion gwahaniaethu, gan sicrhau bod lleisiau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu clywed**

**Yn 2023, gwnaethom sefydlu Pwyllgor Strategaeth Diwylliant Pobl a'r Brifysgol i helpu i roi'r blaenoriaethau hyn ar waith. Wedi'i gadeirio ar y cyd gan yr Is-ganghellor a'r Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, mae'r Pwyllgor yn gweithio i ddatblygu Strategaeth Diwylliant Pobl a'r Brifysgol drosfwaol, er mwyn sicrhau bod ein blaenoriaethau o ran pobl a'u canlyniadau cysylltiedig yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ein Prifysgol a'u bod yn cael eu darparu mewn modd effeithiol a chydgysylltiedig.**

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Prifysgol Abertawe'n un o 28 o brifysgolion yn unig yn y DU, a'r unig brifysgol yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n meddu ar Wobr Sefydliadol Arian Athena Swan, gan gydnabod ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Mae pob un o'n hadrannau academaidd cymwys yn meddu ar un o wobrau Athena Swan, ac mae pedair gwobr arian a phedair gwobr efydd ledled ein cymuned. Mae tri o'n cydweithwyr wedi cael eu hyfforddi i fod yn adolygwyr panel Athena Swan ac maent yn dri o'r chwe adolygydd panel o brifysgolion yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae 42% o'n huwch-gydweithwyr yn fenywod ac rydym yn falch ein bod wedi mwy na threblu nifer y menywod sydd ar lefel cyfarwyddwr ers 2016.

Er bod modd gwneud rhagor o gynnydd, mae nifer yr athrawon benywaidd yn y Brifysgol wedi mwy na dyblu ers 2014, ac mae menywod yn y gymuned athrawol wedi cynyddu 13% yn ystod y cyfnod hwn, o 13% i 26%. Ar hyn o bryd, mae 56% o aelodau Uwch-dîm Arweinyddiaeth ein Prifysgol yn fenywod.

Eleni, roeddem hefyd yn falch o ddringo i'n safle uchaf erioed am gyfranogiad yn ôl Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithlu Stonewall (12fed), ac roeddem ar y brig yn y DU ymysg holl ymgeiswyr y sector addysg.



### Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth

Gwnaethom barhau i ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2022/23 er mwyn sicrhau bod cyflog pob cydweithiwr, yn enwedig y rhai hynny sy'n ennill y cyflogau isaf, yn gallu talu costau byw gwirioneddol yn hytrach nag isafswm cyfreithiol y DU.

Yn ystod 2022/23, roedd yn bleser i ni gefnogi dyrchafiad 66 o gydweithwyr academaidd. Gwnaethom barhau i ymyrryd i gefnogi cydweithwyr sy'n cael eu tangynrychioli'n draddodiadol mewn prosesau dyrchafu academaidd (megis menywod a chydweithwyr o leiafrifoedd ethnig), gan gynnwys cynnal gweithdai a darparu gwasanaeth mentora wedi'i deilwra i gymunedau penodol.

I gydnabod bod y sector yn dibynnu'n ormodol ar fetrigau meintiol mewn prosesau dyrchafu academaidd, ac yn unol ag ymrwymiad ein Prifysgol i'r egwyddorion sydd wedi'u corffori yn DORA (*Declaration on Research Assessment*), yn 2022/23 gwnaethom ddechrau adolygiad o'n Llwybrau Gyrfa Academaidd presennol, sy'n llywio ein hymagwedd at asesu perfformiad academaidd. Byddwn yn lansio ein fframwaith newydd, sy'n cael ei ddatblygu a'i dreialu ar hyn o bryd, yn ffurfiol yn 2024/25 a bydd yn gwreiddio'r defnydd cyfrifol o fetrigau fel rhywbeth safonol ac yn sicrhau ymagwedd fwy cyfannol at berfformiad academaidd ar draws ein Prifysgol.

### Mynd i'r Afael â Gwahaniaethu

Yn 2022/23, gwnaethom gyfranogi yn y rhaglen wedi'i hariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer gwella mynediad a llwyddiant ar sail hil i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch. Drwy'r rhaglen hon, gwnaethom feithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o'n hymagwedd sefydliadol at gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth ac rydym wrthi'n datblygu cynlluniau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i barhau â'r gwaith pwysig hwn.

Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i gyflwyno cais sefydliadol i'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol yn 2024. Eleni, gwnaethom gomisiynu dau sefydliad allanol i ymgynghori â staff a myfyrwyr er mwyn deall profiadau o ran hil ac ethnigrwydd. Bydd yr ymchwil yn llunio argymhellion ymarferol i fynd i'r afael â meysydd pryder a bydd yn ein galluogi i gymryd camau cadarnhaol tuag at ddarparu profiadau teg a chynhwysol i bawb.

Yn ogystal, gwnaethom adnewyddu ein Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddefnyddwyr a dyfarnwyd Nod Ymddiriedaeth y Siarter Troseddau Casineb i ni gan Gymorth i Ddefnyddwyr.

Dros y flwyddyn, roedd yn bleser i ni hefyd ddathlu amrywiaeth o ddigwyddiadau i hyrwyddo amrywiaeth yn ein cymuned. Roedd y rhain yn cynnwys nodi Diwrnod Cofio'r Holocost, Mis Hanes LHDT+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes Pobl Dduon a nifer o ddigwyddiadau rhyng-ffydd. Yn ogystal, mae Rhwydwaith Staff sy'n Ofalwyr ar waith ym Mhrifysgol Abertawe ac rydym yn aelod o Gyflogwyr i Ofalwyr, sy'n cynnig mynediad at amrywiaeth o adnoddau i'n helpu i gefnogi'r aelodau staff hynny sy'n cydbwyso gwaith â chyfrifoldebau gofalu.

### Datblygu ein Harweinwyr

Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn ein helpu i gyflawni fel sefydliad. Felly, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn hyderus y bydd y buddsoddiad hwn yn gwella perfformiad yn ogystal â'n galluogi i gynnal a meithrin diwylliant cynhwysol, a fydd yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn ffordd sy'n blaenoriaethu iechyd a lles ein pobl, gan sicrhau bod cyfraniad pob unigolyn yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo'n deg ac yn briodol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, gwnaethom lansio cymal 1 ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth newydd, gan ganolbwyntio ar feithrin y sgiliau y mae eu hangen ar ein harweinwyr a'n rheolwyr i gynnal ein Prifysgol yn effeithiol. Yn ystod yr amser hwnnw, darparwyd cyfanswm o 51 o sesiynau i fwy na 500 o arweinwyr a rheolwyr ar draws holl feysydd ein sefydliad. Bu adborth ar y sesiynau hyn yn hynod gadarnhaol hyd yn hyn ac ar ben hynny rydym wedi darparu mynediad at gatalog dysgu ar-lein drwy LinkedIn Learning i'n holl arweinwyr a rheolwyr. Hyd yn hyn, mae mwy na 950 o gydweithwyr wedi defnyddio'r adnodd hwn.

Gan edrych tua'r dyfodol, yn 2023/24 byddwn yn datblygu ac yn lansio cyfres o sesiynau datblygu ac adnoddau cysylltiedig i helpu ein pobl i arwain a chyflawni newid ar draws y sefydliad.

### Dyfarniad Rhagoriaeth AD mewn Ymchwil

Rydym yn falch bod ein dyfarniad Rhagoriaeth AD mewn Ymchwil wedi cael ei ailachredu'n llwyddiannus yn 2022/23, sy'n tanlinellu ein hymrwymiad parhaus i atgyfnerthu gyrfaoedd ein cymuned werthfawr o ymchwilwyr.








# EIN PROFIAD DYSGU AC ADDYSGU A PHROFIAD EIN MYFYRWYR

Mae ein myfyrwyr a'u profiadau, eu hanghenion a'u huchelgeisiau amrywiol yn llywio'r amgylchedd rydym yn ceisio ei feithrin ym Mhrifysgol Abertawe. Rydym yn ymrwymedig i gynnig dysgu ac addysgu neilltuol a phrofiad eithriadol i fyfyrwyr, drwy weithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr i ystyried anghenion a disgwyliadau myfyrwyr wrth i ni wneud penderfyniadau. Rydym yn ymfalchïo yn ein hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr a chryfder ein gwasanaethau cymorth myfyrwyr. Eleni, rydym wedi comisiynu nifer o adolygiadau o'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i anelu at ragoriaeth a'n bod yn cynnal ein henw cryf am ansawdd profiad ein myfyrwyr.

Mae ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer profiad y myfyrwyr yn cynnwys:

- Sicrhau mai lles ein myfyrwyr yw sylfaen profiad ein myfyrwyr
- Creu rhagor o gyfleoedd i'n myfyrwyr brofi lleoliad gwaith a meithrin sgiliau a phrofiad sy'n eu helpu i wneud gwahaniaeth i'n cymdeithas
- Darparu rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr deithio'n rhyngwladol (gweler tudalennau 20–21)

Yn 2022/23, gwnaethom barhau i ddangos ein hymrwymiad i gynnig profiad addysg uwch sydd wedi'i deilwra i ddysgwyr cyfoes. Gwnaethom lansio ap newydd, Fy Abertawe, sy'n galluogi myfyrwyr i gael mynediad hawdd at hanfodion astudio a bywyd, gan gynnwys amserlenni, mapiau o'r campysau a'u porth dysgu ar-lein. Ym mis Ionawr 2023, cynhaliwyd ein digwyddiad 'croeso a chroeso'n ôl': digwyddiad i gefnogi ein myfyrwyr a ddechreuodd ym mis Ionawr a'r garfan ehangach o fyfyrwyr. Gwnaethom hefyd gyflwyno safon ofynnol ar gyfer arfer gorau mewn addysg ar draws ein cymuned addysgu a sefydlu prosiect Porth Myfyrwyr newydd i ganolbwyntio ar wella ac atgyfnerthu mynediad myfyrwyr at wasanaethau, cymorth a chyfleusterau.

Rydym wedi atgyfnerthu ymhellach y data rydym yn ei ddarparu i helpu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy gyflwyno dangosfyrddau Hynt Graddedigion newydd (sy'n ategu ein gwelliannau yn nhablau Hynt Graddedigion), ac rydym wedi adolygu a gwella nifer o bolisïau allweddol sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr, gan gynnwys Amgylchiadau Esgusodol, Uniondeb Academaidd a Thiwtora Personol.

Yn 2022/23, bu pwyslais penodol ar lywodraethu, yn enwedig o ran dysgu ac addysgu, wrth i ni barhau i wreiddio newidiadau yn dilyn ein proses ailstrwythuro o saith coleg i dair cyfadran yn 2021. Mae hyn wedi arwain at aildrefnu ac ailenwi strwythurau pwyllgorau presennol. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu Pwyllgor Addysg y Brifysgol, sydd wedi'i gefnogi gan ddau gorff anffurfiol: Fforwm Ymgynghorol y Myfyrwyr a Fforwm Addysg y Brifysgol. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu'r strwythurau yn ein tair cyfadran ac yn helpu i integreiddio a chyfathrebu'n well ar draws ein Prifysgol. Mae aildrefnu'r strwythurau llywodraethu hyn yn helpu i fonitro, adolygu a gwella ein darpariaeth dysgu ac addysgu'n barhaus.

Yn debyg i'r sector yn gyffredinol, mae adfer ar ôl pandemig Covid-19 wedi cyflwyno nifer o heriau i ni, yn ogystal â chyfleoedd i adolygu a gwella ein darpariaeth a'n hymagweddau mewn modd cynaliadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym wedi lansio ymagwedd wedi'i hadnewyddu at gynlluniau gweithredu o ran profiad y myfyrwyr, gan ganolbwyntio i ddechrau ar yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a chanlyniadau adborth arall gan fyfyrwyr. O'r data sy'n dod i'r golwg, mae'n amlwg ein bod yn wynebu heriau sy'n ymwneud ag Uniondeb Academaidd a Chamymddygiad Academaidd, yn rhannol o ganlyniad i newidiadau asesu yr ymgymerwyd â hwy mewn ymateb i effeithiau Covid-19. Mae prosiect gwella bellach wedi dechrau i wella ymagwedd ein Prifysgol at Uniondeb Academaidd. Yn yr un modd, mae tîm prosiect yn adolygu ymagweddau at reoli amgylchiadau esgusodol myfyrwyr, er mwyn darparu ymagwedd well at gefnogi myfyrwyr cyfoes.

Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ehangu arlwy ein Prifysgol yn rhyngwladol a rhoi dewis i fyfyrwyr mewn marchnad ryngwladol gynyddol gystadleuol. Mae ein pwynt mynediad ym mis Ionawr, a sefydlwyd ar draws sawl rhaglen yn ystod y pandemig i roi rhagor o hyblygrwydd i fyfyrwyr, wedi parhau i brofi'n ddewis poblogaidd i rai myfyrwyr rhyngwladol eleni. Fel a amlinellwyd ar dudalennau 20-21, rydym hefyd wedi archwilio nifer o bartneriaethau a chyfleoedd posib dros y 12 mis diwethaf, gan ddefnyddio ein prosesau cymeradwyo mewnol hirsefydlog a gweithio'n agos gydag Universities UK a Chynllun Gwerthuso a Gwella Addysg Drawswladol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, er mwyn diogelu ein safonau academaidd ac enw da ein Prifysgol.









## Iechyd Meddwl a Lles

Gwnaethom gomisiynu adolygiad allanol o'n Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Lles i Fyfyrwyr a gwblhawyd ym mis Awst 2022. Darparodd yr adolygiad 28 o argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar wella polisïau a phrosesau, atal a gweithio mewn modd cydgysylltiedig. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth roi'r argymhellion hyn ar waith yn 2022/23, ac mae rhagor o gynnydd tuag at gwblhau'r gwaith hwn yn yr arfaeth yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Eleni, gwnaethom adolygu cwmpas a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd a Lles ein Prifysgol, sy'n gyfrifol am wreiddio'r strategaeth iechyd a lles ar draws systemau, diwylliant a phrosesau ein Prifysgol. Er mwyn adlewyrchu ei gylch gorchwyl ledled y Brifysgol yn well, mae sefyllfa'r Bwrdd wedi newid ac mae bellach yn cael ei gadeirio gan y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Addysg. Felly, mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein Polisi ar Iechyd Meddwl Myfyrwyr i adlewyrchu ein pwyslais strategol parhaus ar iechyd meddwl a'n hymrwymiad iddo mewn tirwedd i fyfyrwyr sy'n newid drwy'r amser. Mae'r polisi newydd yn ymgorffori ymrwymiad ar draws y Brifysgol i iechyd meddwl, gan amlygu ein rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol drwy gydol taith myfyrwyr, o gyflwyno cais a'r tu hwnt. Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaeth ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr hefyd ddechrau datblygu Polisi a Gweithdrefn Addasrwydd i Astudio newydd. Rydym yn rhagweld y caiff y rhain eu lansio yn nes ymlaen yn 2023.

O ran y gwasanaethau cymorth rydym yn falch o'u darparu i'n myfyrwyr yn ystod eu hamser gyda ni, rydym yn ymwybodol bod y galw yn cynyddu drwy'r amser a bod angen ymateb iddo drwy gynyddu ein darpariaeth. Mae'r galw am wasanaethau trosfwaol megis Ffydd, Cysylltiadau Cymunedol, Cydraddoldebau, Cyngor Rhyngwladol, Cyngor ar Arian a Chyngor ar Les wedi cynyddu 60% ers y llynedd. Mae atgyfeiriadau cychwynnol i'n Gwasanaeth Lles ac Anabledd yn unig wedi cynyddu 46% ers 2021/22. Eleni, roeddem yn falch o allu cynyddu nifer yr apwyntiadau sydd ar gael i fyfyrwyr flwyddyn ar ôl blwyddyn: 15% ar gyfer iechyd meddwl a chwnsela, 8% ar gyfer niwroamrywiaeth ac anabledd a 5% ar gyfer sgiliau mentora ac astudio arbenigol. At ei gilydd, mae'r gwasanaeth wedi darparu bron 13,500 o apwyntiadau yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Gwnaed gwelliannau hefyd i sicrhau y darperir gwasanaeth o safon uchel i bob myfyriwr a bod y gwasanaeth yn parhau i fod ar gael i fyfyrwyr sy'n cael eu hatgyfeirio o'r newydd ar yr adegau prysuraf. Rydym wedi:

- Creu un pwynt mynediad newydd i fyfyrwyr sy'n ceisio cymorth o ran iechyd meddwl ac anabledd
- Adolygu a chryfhau'r meini prawf brysbennu er mwyn rheoli atgyfeiriadau o ran iechyd meddwl
- Blaenoriaethu a chynyddu argaeledd apwyntiadau 50% ar gyfer myfyrwyr sy'n cael eu brysbennu'n risg uchel
- Cyflwyno strwythur rheoli mwy cadarn
- Gwella perthnasoedd â chyrff sector cyhoeddus megis y GIG, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu
- Ail-lansio adnoddau iechyd meddwl ar-lein i fyfyrwyr drwy Togetherall, ap *Feeling Good* a myf.cymru

Er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau, gwnaethom ddefnyddio cyllid Iechyd Meddwl Gwell CCAUC i ariannu prosiectau allweddol, gan gynnwys darparu cwnsela ychwanegol i gefnogi'r galw, prosiect bydi i fentora myfyrwyr awtistig, ac ymgyrch i hyrwyddo iechyd a lles.

Ym mis Rhagfyr 2022, rhoddwyd ein Strategaeth Atal Hunanladdiad ar waith. Mae'n canolbwyntio ar bedair agwedd allweddol: Hyrwyddo, Atal, Darpariaeth ac Ôl-ymyrraeth *(Postvention)*, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaethau'n well ar draws gwasanaethau iechyd meddwl a lles fel a amlygwyd
- Gwaith atal hunanladdiad a hyfforddi staff wedi'i ddarparu gan wasanaeth atal hunanladdiad pobl ifanc Papyrus (wedi'i gefnogi gan gyllid Iechyd Meddwl Gwell CCAUC)
- Cymorth ac adnoddau cyfrwng Cymraeg sy'n fwy amlwg ac yn fwy cyson
- Datblygu Polisi Cysylltiadau Dibynadwy
- Datblygu gweithdrefn Myfyrwyr sy'n Destun Pryder
- Ail-lunio ac ehangu Tîm Rheoli Achosion y Brifysgol ar gyfer y ddarpariaeth y tu allan i oriau, gan gynnwys protocolau pan fydd myfyriwr yn marw
- Cyflwyno gweithdrefn fewnol i adolygu achosion difrifol er mwyn sicrhau bod unrhyw achos difrifol yn llywio ein dealltwriaeth, ein gwybodaeth a'n darpariaeth i fyfyrwyr
- Adnodd caplaniaeth gwell

Mae'r Tîm Lles hefyd wedi datblygu Polisi Camymddygiad Rhywiol Myfyrwyr sy'n amlinellu ymateb ein Prifysgol i gamymddygiad rhywiol ac yn darparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n rhoi gwybod am gamymddygiad rhywiol a'r rhai hynny sy'n ymateb i honiadau o gamymddygiad rhywiol. Mae ein Swyddog Prosiect Trais Rhywiol a Newid Diwylliant, sydd newydd ei benodi, wrthi'n creu cylch gorchwyl ac aelodaeth ar gyfer tasglu mewnol â chylch gwaith i ddatblygu a llywio ymagwedd sefydliadol at fynd i'r afael â thrais rhywiol.

## Diogelu

Yn dilyn adolygiad allanol o'n trefniadau diogelu, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth roi ei argymhellion ar waith. Yn hollbwysig, rydym wedi penodi Hyrwyddwr ar lefel Cyngor y Brifysgol sydd bellach yn helpu i hyrwyddo gweithgareddau diogelu a Prevent ein Prifysgol.

Yn 2022/23, gwnaethom gyflwyno Tîm Diogelu dynodedig dan arweiniad y Pennaeth Diogelu, sef Prif Swyddog Diogelu ein Prifysgol, a fydd yn arwain ac yn cydlynu'r trefniadau diogelu, gan gynnwys Prevent a'r Fforwm Diogelu ar draws y Brifysgol, a gaiff ei ailsefydlu ar gyfer 2023/24.

Ail-luniwyd ein Polisi Diogelu a'i dirwedd gysylltiedig i gynyddu cwmpas y polisi a gwella eglurder ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd. Cafodd ein Polisi Prevent ei ddiweddaru a'i gymeradwyo yn y pen draw ym mis Tachwedd 2022, a chafodd ein Polisi Diogelu ei ddiweddaru a'i gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2023.

## Sgiliau a Chyfleoedd Teithio

Rydym yn falch o barhau i gynnig cymorth amrywiol sy'n sicrhau bod ein myfyrwyr yn gwireddu eu potensial llawn ac yn gallu gwneud y mwyaf o'u hamser gyda ni.

Mae ein Canolfan Llwyddiant Academaidd yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau astudio academaidd drwy amrywiaeth o gyrsiau wedi'u dewis gan y myfyrwyr eu hunain, gweithdai, apwyntiadau unigol a darpariaethau wedi'u gwreiddio mewn modiwlau.

Mae'r Ganolfan wedi gweithredu rhaglen PASS (Sgiliau Astudio â Chymorth Cyd-fyfyrwyr) ers 2019. Mae'r rhaglen hon yn nodi modiwlau â chyfraddau dilyniant myfyrwyr is na'r cyfartaledd ac yn hyfforddi myfyrwyr o garfanau blaenorol i fod yn arweinwyr myfyrwyr: rôl sy'n hwyluso sesiynau sgiliau wythnosol ar dechnegau er mwyn helpu i fodloni gofynion modiwlau'n llwyddiannus. Yn hytrach nag addysgu ar gynnwys, mae'r arweinwyr myfyrwyr hyn yn hwyluso trafodaethau am ddulliau, ac ymchwiliadau i ddulliau, er mwyn gwella arferion astudio. Rydym bellach wedi ehangu'r rhaglen hon ar draws pob un o'n tair cyfadran, ac mae 16 o arweinwyr myfyrwyr yn cynnal sesiynau ac yn meithrin profiad a hyder o'u swyddi a'r adborth a'r gwasanaeth mentora a gynigir gan y Ganolfan.


Yn ogystal â PASS, mae'r Ganolfan hefyd yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr ôl-raddedig gyflwyno cais am swyddi mentora cyd-fyfyrwyr rhan-amser am dâl sy'n cynnwys agweddau ar ysgrifennu academaidd, ynghyd â mathemateg ac ystadegau. Mae sawl un o'r ymgynghorwyr hyn wedi mynd rhagddynt yn y pen draw i sicrhau swyddi addysgu ffurfiol yn ein Prifysgol ar ôl cwblhau eu PhD yn llwyddiannus, ac maent wedi mynegi bod y profiad o gynnig adborth ar y sgiliau hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at eu harferion addysgu a marcio.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe'n helpu myfyrwyr i feithrin cymaint o brofiad â phosib mewn amgylchedd gwaith i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau meddal a rhoi eu hastudiaethau ar waith. Mae'r Academi'n rheoli interniaethau ym myd diwydiant, gan gynnwys interniaethau a ariennir gan Santander, a thelir yr holl fyfyrwyr a graddedigion sy'n interniaid o leiaf ar gyfradd y Living Wage Foundation. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, mae'r Academi hefyd yn cynnig cyllid i alluogi clybiau a chymdeithasau i greu a chynnal digwyddiadau ar thema cyflogadwyedd sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ryngweithio â chyflogwyr a chyn-fyfyrwyr.

Ym mis Ionawr 2023, lansiodd yr Academi raglen GO Wales newydd wedi'i hariannu gan CCAUC y mae myfyrwyr yn ei galw'n 'Hwb Gyrfaoedd'. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n nodi eu bod yn wynebu rhwystrau o ran recriwtio, megis pobl sy'n gadael gofal, gofalwyr a myfyrwyr anabl. O fis Awst 2023, mae'r Academi hefyd yn cyflwyno'r Rhaglen Cymorth i Raddedigion boblogaidd yn fewnol, ar ôl iddi gael ei chyllido gan CCAUC/Lywodraeth Cymru am ddwy flynedd mewn ymateb i Covid-19.

Mae'r Academi'n parhau i gael cydnabyddiaeth allanol sylweddol, gan gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Rhagoriaeth AGCAS 2023 a Gwobrau ISE 2023 ac ennill Gwobr Technoleg Cymru 2022 am Gydweithredu â'r Byd Academaidd a Byd Diwydiant, yn ogystal â sicrhau safon ansawdd uchel ei bri AGCAS ar gyfer 2023-2026.

Yn unol â'n cenhadaeth ddinesig, mae ein Prifysgol hefyd yn falch o gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu amgylchiadau y tu hwnt i'r dychymyg ledled y byd. Eleni, mae ein tîm Gwasanaethau Hyfforddiant Iaith Saesneg (ELTS) wedi gweithio i gefnogi ein sefydliad partner yn Wcráin drwy ddarparu sesiynau strwythuredig, ac ar hyn o bryd mae'n cynnig dosbarthiadau Saesneg am ddim i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.



# EIN HYMCHWIL A'N MENTERGARWCH

**Eleni, mae ein gweithgarwch ymchwil a mentergarwch wedi canolbwyntio'n bennaf ar helpu ymchwilwyr i gyflawni eu potensial llawn ar bob cam yn eu gyrfa a hwyluso cysylltiadau â chyllidwyr a defnyddwyr ymchwil ym myd diwydiant, ynghyd â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector.**

**Drwy incwm ymchwil allanol a chyllid cysylltiedig ag ymchwil, rydym wedi parhau i adeiladu ar gryfderau presennol ein hymchwil, gan achub ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg a bod ymysg yr 20 sefydliad gorau yn y DU am incwm cyllid. Mae ein gweithgarwch ymchwil ac arloesi sy'n seiliedig ar chwilfrydedd a chynaliadwyedd yn helpu i fynd i'r afael â'r her sero net, ymdrin â newid yn yr hinsawdd, meithrin cymdeithas gysylltiedig a chynhwysol, gwella iechyd a lles, a chroesawu cyfoeth lleoedd a diwylliant.**

Er mwyn cefnogi'r gweithgarwch hwn, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i roi ein hunain mewn sefyllfa gystadleuol i sicrhau'r cyllid allanol sy'n hollbwysig i'n gallu i fwyafu effaith ein hymchwil. Mae rhai o uchafbwyntiau'r agwedd hon eleni fel a ganlyn:

- Mae cyfanswm ein portffolio dyfarniadau ymchwil ac arloesi wedi tyfu'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, ac erbyn hyn mae gennym 1,441 o brosiectau byw sy'n werth £482.2m
- Yn 2022/23, sicrhaodd ein cymuned ymchwil ac arloesi ddyfarniadau cyllid gwerth £72.9m, gan gynyddu 7% ers 2021/22 a 108% ers 2012/13
- Yn 2022/23, gwnaethom gyflwyno rhagor o gynigion am grantiau (979) ac am werth mwy (£301.2m bellach) na'r flwyddyn flaenorol
- Er bod cyllid o'r Undeb Ewropeaidd wedi cwympo'n sylweddol yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE, rydym wedi cynyddu lefel y cyllid rydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth y DU (£24.9m bellach) a chyrff elusennol (£6.7m bellach) flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac rydym wedi cynnal lefelau cyllid gan gynghorau ymchwil, byd diwydiant a masnach ac awdurdodau iechyd ac ysbytai yn y DU
- Roeddem yn arbennig o falch o weld cynnydd amlwg o ran grantiau wedi'u hariannu gan y Cyngor Ymchwil Feddygol eleni, gwerth £6.1m at ei gilydd
- Yn hollbwysig, mae cyfran y dyfarniadau ymchwil a sicrhawyd gan staff benywaidd a staff o grwpiau ethnig lleiafrifol wedi parhau i gynyddu yn 2022/23 a'r cyfrannau yw 42% a 15% yn y drefn honno bellach.



### Llywodraethu Ymchwil

Mae llywodraethu ymchwil effeithiol yn tanategu ein gallu i sicrhau effaith ymchwil ddibynadwy o safon. Eleni, mae'r tîm Llywodraethu Ymchwil wedi cefnogi 24 o brosiectau roedd angen nawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar eu cyfer, wedi hwyluso pedwar ymweliad cymorth i fonitro ansawdd safleoedd, wedi cymeradwyo pum grant ymchwil yn ogystal â phedwar prosiect ymchwil i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ac wedi dosbarthu 34 pecyn gwybodaeth leol i ymddiriedolaethau'r GIG i gadarnhau gallu a galluedd i gydweithredu ar brosiectau. Cyflwynodd y tîm borth nawdd ar-lein newydd ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi clinigau cyswllt misol ar ddau gampws y Brifysgol. Mae ein Pwyllgor Goruchwylio Nawdd hefyd wedi cael ei ehangu eleni, i gynnwys ymgyngoreion â'r arbenigedd i ymdrin â dyfeisiau meddygol, y Ddeddf Galluedd Meddwl a rheoli data.

### Cymorth Ymchwil

Mae ein tîm Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi wedi cefnogi 253 o gontractau ar draws y cyfadrannau a'r Unedau Gwasanaeth Proffesiynol eleni ac mae'n parhau i gynnig cymorthfeydd wyneb yn wyneb ynghylch contractau a sesiynau hyfforddiant rheolaidd. Yn ogystal, mae'r tîm wedi cyfrannu at waith hollbwysig ar yr agenda deddfu a llywodraethu fel y mae'n berthnasol i gontractau ymchwil, megis mesurau rheoli allforion ac ymchwil ddibynadwy.

Yn 2022/23, darparwyd mwy na 25 o sesiynau hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi i 601 o gyfranogwyr cofrestredig, a chafodd 15 fideo hyfforddiant ychwanegol eu datblygu a'u hyrwyddo ar draws y gymuned ymchwil drwy fewnrwyd y staff.

### Horizon Ewrop

Ymysg yr ansicrwydd sy'n ymwneud â chysylltiad y DU â Horizon Ewrop, rydym wedi helpu ein hymchwilwyr i gyflwyno ceisiadau llwyddiannus am gyllid Ewropeaidd drwy Horizon Ewrop, gan ddefnyddio cronfa gwarantu UKRI i hawlio cyllid gwerth mwy na £5m. Er enghraifft, llwyddodd dyfarniad Cymrodoriaeth Ôl-ddoethurol MSCA, dan arweiniad Dr Hadi Madinei, i sicrhau £201k am synhwyrydd más hynod sensitif i ganfod biofarciwr am ganser yr afu.

### Diwylliant Ymchwil

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i uniondeb ymchwil, mae Rheolwr Diwylliant Ymchwil newydd yn gweithio gydag aelodau staff i nodi'r arferion, y polisïau a'r perfformiad a fydd yn ategu diwylliant ymchwil cadarnhaol ac yn sicrhau bod y system ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe'n cynnwys pobl dalentog ac amrywiol â sgiliau priodol. Mae deiliad y rôl yn cefnogi ein cyfranogiad yn y Rhaglen Ymchwil Agored a ariennir gan UKRI, cais ein Prifysgol i UKRN, Athena Swan, Ymrwymiad y Technegwyr a'r Concordat Ymchwil.

### Tablau Cynghrair y Byd QS

Cawsom ein canlyniad gorau erioed yn Nhablau Cynghrair Prifysgolion y Byd 2024 QS, wrth i Brifysgol Abertawe ddringo 118 o safleoedd i rif 307, gan ein rhoi ymysg y 21% o ddarparwyr addysg uwch gorau yn y byd. Yn benodol, rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o raddfa a rhagoriaeth yr ymchwil a gynhaliwyd yn Abertawe dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi helpu i atgyfnerthu enw da ein hymchwil academaidd, sef metrig allweddol yn y tabl rhyngwladol.

### Datblygu Arloesedd a Chyfnewid Gwybodaeth

Fel sefydliad, rydym wedi parhau i fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddiadau mawr a strategol drwy'r system 'cyllid deuol' er mwyn ychwanegu gwerth at fusnesau bach a mawr, yn ein rhanbarth a'r tu hwnt. Gyda chymorth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru CCAUC, rydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyfnewid gwybodaeth craidd a defnyddio amrywiaeth o brosiectau penodol i sector sy'n cynnig cymorth wedi'i deilwra i ddiwydiannau.

### Prosiectau Trosglwyddo Gwybodaeth a Phartneriaethau SMART

Mae gennym biblinell o brosiectau cyfnewid gwybodaeth sy'n tyfu, gan gynnwys un prosiect trosglwyddo gwybodaeth a gwblhawyd, dau brosiect trosglwyddo gwybodaeth parhaus, tri phrosiect trosglwyddo gwybodaeth sydd wedi'u cyflwyno a phedwar cais sy'n cael eu datblygu. Ar ben hynny eleni, mae dau brosiect partneriaeth SMART wedi cael eu cwblhau, mae pedair partneriaeth SMART yn parhau, mae tri chais wedi cael eu cyflwyno ac mae pedwar cais yn cael eu datblygu.

### Rhyngweithio â Byd Busnes a'r Gymuned

Yn 2022/23, gwnaethom sicrhau cynnydd gwerth £3m o ran ein hincwm o brosiectau ymchwil ar y cyd yn ôl yr arolwg HE-BCI (Rhyngweithio rhwng Addysg Uwch, Byd Busnes a'r Gymuned). Y cyfanswm erbyn hyn yw £55.5m (gan gynnwys arian cyfatebol), sef y lefel uchaf o ymchwil ffurfiol ar y cyd a ariennir yn allanol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae cyfanswm incwm HE-BCI Prifysgol Abertawe wedi cynyddu £2m arall i £86.5m (gan gynnwys arian cyfatebol): ein cyfanswm uchaf erioed a pharhad o duedd ar i fyny.

### Cyfrifon Cyflymu Effaith

Yn 2022/23 gwnaeth ein Cyfrif Cyflymu Effaith sicrhau sawl Cyfrif Cyflymu Effaith gwerth mwy na £3.8m i gefnogi portffolio o weithgareddau ar draws amrywiaeth o gynghorau UKRI, gan gynnwys y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, y Cyngor Ymchwil Feddygol, y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau, a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys: ymgysylltu â defnyddwyr ymchwil ar adeg gynnar; datblygu cyrhaeddiad a dyfnder ein heffaith sefydliadol; ysgogi syniadau a dangos prawf o'u buddion; cefnogi llwybrau masnachol i'r farchnad; a gwneud y mwyaf o fentrau cydweithredol posib drwy secondio staff i sefydliadau partner ac oddi wrthynt.

### LINC Prifysgol Abertawe

Dathlodd rhwydwaith LINC Prifysgol Abertawe ei bumed pen-blwydd eleni. Mae'r rhwydwaith hwn sydd ar gael i'r cyhoedd yn galluogi amrywiaeth eang o randdeiliaid i gael mynediad at arbenigedd ymchwil ac arloesi, cyfleusterau a chyfarpar, a gwybodaeth am gyllid at ddibenion cyfnewid gwybodaeth. Mae'r rhwydwaith wedi cefnogi saith digwyddiad eleni, gan gynyddu'r cyfanswm ers ei lansio i 28, gyda 2,800 o gofrestriadau. Hyd yn hyn, mae cyfanswm o 1,142 o aelodau wedi cofrestru gyda'r rhwydwaith o 587 o sefydliadau.







### Mentergarwch, Eiddo Deallusol a Masnacheiddio

Mae Strategaeth Mentergarwch gyntaf y sefydliad wedi cael ei datblygu eleni, sy'n cynnwys cefnogi datblygiad gweithgareddau mentergarwch myfyrwyr, diogelu a masnacheiddio eiddo deallusol a phartneriaethau. Ar hyn o bryd, rydym yn asesu'r cynllun cyflawni, a gaiff ei gyflwyno, ochr yn ochr â'r strategaeth, i Gyngor y Brifysgol i'w gymeradwyo yn hydref 2023.

Yn 2022/23, gwnaethom hefyd ymgymryd ag adolygiad o'n polisïau eiddo deallusol (o ran staff, myfyrwyr, ymgynghori a gwrthdaro buddiannau), adroddiad archwilio am ein hasedau a'n cyfleoedd eiddo deallusol, a gwelliant o ran llywodraethu eiddo deallusol, prosesau rheoli a systemau, yn dilyn archwiliad mewnol.

### Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)

Rydym wedi cryfhau'n sylweddol ein hymagwedd gyffredinol at ddatblygu ein hagenda arloesi ac ymgysylltu, mewn partneriaeth â phrifysgolion eraill yng Nghymru drwy ddyrannu darpariaeth Cronfa Arloesi Cymru (RWIF) CCAUC mewn modd a dargedir. Drwy grantiau adnoddau RWIF, mae mwy na 150 o brosiectau wedi cael eu hariannu gan y rhaglen tair blynedd sy'n werth cyfanswm o £7.9m. Yn ogystal, bydd dyraniad blynyddol RWIF i ni'n fwy na £3m am y tro cyntaf y flwyddyn nesaf.

### Rhwydwaith Arloesi Cymru

Dyfarnwyd £368k i Brifysgol Abertawe drwy Rwydwaith Arloesi Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi cyflawni pob un o'r chwe phrosiect a ariannwyd, gan gydweithredu ar 25 o brosiectau eraill a gymeradwywyd gan y Rhwydwaith. Yn ogystal, cawsom gyllid drwy brosiect Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan: *Police understanding and application of the concept of vulnerability in responding to the needs of sex workers in Wales.* Yn ogystal, cydweithredodd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd ar gais llwyddiannus i UKRPIF ar y cyd â Phrifysgol Birmingham a GCRE (Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd).

### Mentergarwch Myfyrwyr

Rhestrwyd Prifysgol Abertawe yn yr ail safle yng Nghymru am greu busnesau newydd (HE-BCI 21/22) a chyflawnodd bob dangosydd perfformiad allweddol Grant Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru eleni, gan gynnwys goruchwylio 51 busnes newydd. Gwnaethom gynnal a noddi ar y cyd Gynhadledd Ryngwladol uchel ei bri Enterprise Educators (IEEC) ym mis Medi 2022 a chefnogi 17 o fyfyrwyr o'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg a ddewiswyd i gymryd rhan yn hacathon blynyddol *Invent for the Planet* ym mis Ebrill 2023. Gan gystadlu yn erbyn 350 o ysgolheigion a oedd yn cynrychioli 24 o brifysgolion ledled y byd, dyfarnwyd y safle cyntaf i'n tîm o fyfyrwyr am eu dull pwmp dŵr arloesol o ddarparu dŵr glân a glanweithdra.







# EIN PRIFYSGOL RYNGWLADOL

**Rydym yn parhau i weithio tuag at ymrwymiadau ein Strategaeth Ryngwladol 2020-2025, gan ganolbwyntio ar gynyddu niferoedd ein myfyrwyr rhyngwladol, cryfhau ein partneriaethau strategol rhyngwladol, tyfu ein rhwydweithiau ymchwil byd-eang a chryfhau ein proffil byd-eang. Mae'r nodau hyn yn cydweddu â'n hymrwymiad craidd i estyn ein cyrhaeddiad a'n henw da'n fyd-eang, gan fod yn bartner o ddewis ar gyfer cydweithrediadau ymchwil, addysgu a mentergarwch rhyngwladol, a pharhau i wella ein safleoedd yn y tablau rhyngwladol flwyddyn ar ôl blwyddyn.**

Tri philer ein huchelgeisiau rhyngwladol yw:

- **Graddedigion byd-eang:** cynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cofrestru 800 erbyn 2025, a rhoi'r cyfle i bob myfyriwr yn Abertawe ymgymryd â phrofiad byd-eang
- **Partneriaethau byd-eang:** creu ôl troed byd-eang deinamig drwy gryfhau partneriaethau â sefydliadau addysg uwch ledled y byd
- **Enw da byd-eang:** bod yn un o 350 o brifysgolion gorau'r byd yn ôl tablau QS

Mae'r sector addysg uwch yn gyffredinol yn parhau â'i adferiad o ôl-effeithiau digwyddiadau byd-eang diweddar a newidiadau i bolisïau domestig a rhyngwladol. Er bod effeithiau uniongyrchol pandemig Covid-19 yn lleihau, mae effeithiau tymor hwy yn dal i gael eu profi mewn marchnadoedd mawr megis Tsieina, lle mae symudedd rhanbarthol yn duedd sy'n dod i'r amlwg â goblygiadau rhyngwladol ehangach.

Mae cystadleuaeth am staff, myfyrwyr a chyllid yn dal i fod yn ystyriaeth fawr, fel y mae disgwyliadau newidiol myfyrwyr. Mae'r ffyrdd newidiol y gellir darparu addysg a'r amrywiaeth gynyddol o opsiynau i fyfyrwyr yn heriau yn ogystal â bod yn gyfleoedd addawol i ni. Eleni, rydym hefyd wedi wynebu effaith penderfyniadau ar bolisïau domestig yn y DU, wrth i effaith Brexit gael ei diffinio'n fwy, ac wrth i fewnfudo ddod yn fater mwyfwy cynhennus.

Er gwaethaf y cefndir allanol heriol, mae ein Prifysgol wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran rhyngwladoli eleni.

### Graddedigion Byd-eang

Rydym yn parhau i gynnig cyfleoedd i bob myfyriwr ddatblygu cymwyseddau a sgiliau cyfathrebu rhyngddiwylliannol drwy deithio dramor, drwy gymorth cyllid o gynllun Taith Llywodraeth Cymru (£740k, ar gyfer myfyrwyr sy'n dod yma a myfyrwyr sy'n mynd dramor), cynllun Turing Llywodraeth y DU (£473k, ar gyfer myfyrwyr sy'n mynd dramor yn unig), a chyllid Erasmus y DU (£210k).

Er gwaethaf cyfnod anodd yn dilyn pandemig Covid-19 ac effeithiau parhaus Brexit, rydym yn falch bod symudedd myfyrwyr wedi bod yn gryf eleni. Mae myfyrwyr wedi achub ar gyfleoedd i deithio i 19 o wledydd eleni, ac mae nifer y myfyrwyr sy'n teithio dramor wedi dychwelyd i 74% o'r niferoedd cyn Covid-19. Mae mwy na 500 o fyfyrwyr wedi achub ar gyfleoedd i deithio eleni drwy fentrau megis Blwyddyn Dramor, Semester Dramor, Ysgolion Haf, Cyrsiau Maes a Lleoliadau Gwaith Meddygol.

Mae niferoedd y myfyrwyr sy'n ymweld â ni a niferoedd y myfyrwyr cyfnewid yn dringo'n gyson, er bod Brexit a diwedd cyfranogiad y DU yn rhaglen Erasmus+ yn effeithio ar y rhain hefyd. Yn 2022/23, gwnaethom groesawu 231 o fyfyrwyr cyfnewid a myfyrwyr sy'n ymweld â ni ar raglenni Blwyddyn Academaidd a Semester Dramor. Mae hyn yn cynnwys 22 o fyfyrwyr ymweld o'n partneriaeth â Phrifysgol Genedlaethol Petro Mohyla'r Môr Du, a sefydlwyd drwy gynllun gefeillio Universities UK i gefnogi myfyrwyr a staff y mae'r rhyfel yn Wcráin wedi effeithio arnynt. Gan edrych tua'r dyfodol, ein nod yw cymell rhagor o fyfyrwyr i ddod i'n Prifysgol drwy gyllid Taith, sy'n cefnogi symudedd myfyrwyr i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

O ran recriwtio myfyrwyr rhyngwladol sy'n chwilio am radd, mae amrywiaethu'n parhau i sbarduno ein strategaeth recriwtio ryngwladol. Yn gyson, daw myfyrwyr rhyngwladol i Brifysgol Abertawe o fwy na 90 o wledydd gwahanol a gwnaeth ein gweithgareddau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol barhau i ragori yn 2022/23, gan gynyddu 29% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'r Coleg, Prifysgol Abertawe'n gwneud cyfraniad sylweddol at gynyddu'r biblinell, gan gyd-fynd yn agos â'n huchelgeisiau rhyngwladol. Parhaodd cyfnod cofrestru mis Ionawr, a agorwyd yn ystod y pandemig, i gyflawni'n dda, gan baratoi'r ffordd i ni archwilio rhagor o bwyntiau mynediad yn ystod y flwyddyn.

Hefyd eleni, cafwyd y cylch llawn cyntaf o deithio rhyngwladol cysylltiedig â recriwtio ac ymwelwyd â'r holl farchnadoedd rydym yn eu blaenoriaethu, gan gynnwys Tsieina, am y tro cyntaf ers 2019. Mae staff wedi mynd i ddigwyddiadau recriwtio ac wedi cwrdd â rhanddeiliaid allweddol eraill wyneb yn wyneb, yn ogystal â chynnal digwyddiadau hyfforddi asiantiaid yn eu gwledydd eu hunain a digwyddiadau llwyddiannus i gyn-fyfyrwyr rhyngwladol. Yn Abertawe, roedd yn bleser i ni gynnal cynhadledd wyneb yn wyneb ar y safle i'n partneriaid allweddol am y tro cyntaf ers 2019.

### Partneriaethau Byd-eang

Eleni, gwnaethom adeiladu ar y gweithgarwch Addysg Drawswladol a ddatblygwyd yn 2021/22. Mae sawl prosiect Addysg Drawswladol ar waith. Gwnaethom ailgyflwyno cynnig am Raglen Addysg ar y Cyd â Phrifysgol Forol Dalian yn y Gyfraith i Weinyddiaeth Addysg Tsieina. Gwnaethom hefyd gyflwyno cynnig hollol ddatblygedig am sefydliad addysg ar y cyd a ddatblygwyd gyda Phrifysgol Dechnolegol Nanjing i ddarparu graddau mewn Peirianneg. Os cânt eu cymeradwyo, bydd y prosiectau hyn yn atgyfnerthu presenoldeb Addysg Drawswladol Abertawe'n sylweddol yn Tsieina.

Eleni, lansiwyd prosiect newydd hefyd rhyngom a darparwr preifat ym Mauritius i ddatblygu a darparu gradd atodol a gradd israddedig, ynghyd â datblygiad proffesiynol, mewn Nyrsio. Er bod y prosiect hwn ar gam cynnar iawn o hyd, mae sawl cyfle yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r prosiect hwn a byddwn yn parhau i archwilio'r rhain.

Mae ailagor ffiniau yn sgîl Covid-19 wedi adfywio perthnasoedd rhyngwladol, a bu ymweliadau â phartneriaid academaidd yn Tsieina, Ffrainc ac Unol Daleithiau America eleni. Roedd yn bleser i ni hefyd gynnal nifer o ymweliadau gan bartneriaid academaidd yn Unol Daleithiau America, Canada, Tsieina, Ffrainc a Fietnam. Mae ein partneriaeth hirsefydlog ag Université Grenoble Alpes wedi ehangu i gynnwys ffrwd waith ar ymchwil i ficroelectroneg a lled-ddargludyddion. Rydym hefyd yn datblygu, fel rhan o gonsortiwm Ewropeaidd llwyddiannus, ddoethuriaeth gydweithredol a ariennir gan Erasmus Mundus mewn Moeseg ac Uniondeb Chwaraeon.

Yn ogystal â chroesawu myfyrwyr o Brifysgol Genedlaethol Petro Mohlya'r Môr Du i Abertawe, ym mis Gorffennaf 2023 cawsom yr anrhydedd o groesawu pedwar aelod o staff academaidd y brifysgol honno i Abertawe am dair wythnos i gryfhau perthnasoedd academaidd.

### Enw Da Byd-eang

Cawsom lwyddiant sylweddol eleni wrth adeiladu ein henw da byd-eang yn Nhablau Prifysgolion y Byd 2024 QS. Dringodd Prifysgol Abertawe'n fwy nag unrhyw sefydliad arall yn y 500 uchaf, gan wella 118 o safleoedd i rif 307 a chyflawni ein targed o ennill lle ymysg y 350 o brifysgolion gorau yn y byd erbyn 2025. Sbardun mwyaf ein gwelliant oedd ein metrigau o ran enw da; cawsom y cynnydd mwyaf yn ein sgôr am Enw Da Academaidd ac fel Cyflogwr ymysg holl sefydliadau'r DU. Bydd ein safle gwell yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a chynyddu ein cydweithrediadau byd-eang.

Rydym yn parhau i fod yn weithredol yn rhwydwaith ymchwil 2020 rhwng Jiangsu a'r DU, ochr yn ochr â sawl sefydliad arall yn y DU, ac rydym yn chwilio am rwydweithiau ymchwil newydd at ddibenion cydweithredu.

Gan edrych tua'r dyfodol, rydym yn ymrwymedig i gynyddu ein hôl troed byd-eang drwy sefydlu presenoldeb tramor yng ngwladwriaethau'r Gwlff a de-ddwyrain Asia. Byddwn yn galluogi rhagor o fyfyrwyr i astudio dramor, yn archwilio'r posibilrwydd o greu rhagor o bwyntiau mynediad i fyfyrwyr sy'n chwilio am radd, ac yn parhau i adeiladu ein portffolio trawswladol. Er gwaethaf sawl her fyd-eang, mae cyfleoedd newydd ar y gorwel, felly.

# EIN HISADEILEDD DIGIDOL

**Yn 2022/23, mae ein tîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau (GGS) wedi parhau i ymateb i anghenion ein Prifysgol a'n cymuned wrth iddynt newid drwy'r amser – a hynny'n gyflymach – drwy fabwysiadu arferion gweithio ystwyth a manteisio ar atebion masnachol a meddalwedd sy'n safonol yn y diwydiant.**

Mae ymarfer partneriaid busnes digidol wedi cael ei sefydlu i feithrin cysylltiadau agosach ar draws ein sefydliad, er mwyn gwella ein proffil digidol a diwallu anghenion ein myfyrwyr a'n staff. Mae'r Tîm Partneriaid Busnes yn gweithio gyda'r tair cyfadran ac yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar draws ein Prifysgol.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid yn y diwydiant i ddatblygu dyluniad craidd ar gyfer rhwydwaith y campysau wrth iddo gael ei adnewyddu'n fuan ar gyfer Campws Parc Singleton a Champws y Bae. Byddwn yn dechrau rhoi'r rhwydwaith newydd ar waith ar ddechrau 2024. Bydd y buddsoddiad tymor hir hwn yn rhoi rhwydwaith diogel, cyflym a chadarn i'n Prifysgol a fydd yn diwallu anghenion myfyrwyr, ymchwilwyr a'r gymuned ehangach.

Cafodd Strategaeth Ddigidol ein sefydliad ei chymeradwyo gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyngor y Brifysgol ym mis Mawrth 2023, yn dilyn sawl mis o weithdai ymgysylltu dwys â myfyrwyr a staff. Arweiniodd hyn at ddiffinio 12 o nodau, 136 o fentrau ac 85 o brosiectau ar fap TG, y byddwn yn gweithio i'w datblygu dros y blynyddoedd i ddod.

Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom ryddhau ap FyAbertawe i fyfyrwyr, â nodweddion allweddol megis hysbysiadau Canvas (ein porth ar-lein i fyfyrwyr) a dolenni cyflym i fodiwlau, integreiddio calendr Outlook, ynghyd â newyddion a chymorth lles i fyfyrwyr. Mae mwy na 5,800 o fyfyrwyr wedi cofrestru i ddefnyddio'r ap ac mae mwy na 1,200 yn ei ddefnyddio bob dydd erbyn hyn.

Lansiwyd ein Desg Wasanaeth TG newydd ym mis Ionawr, gan gyd-fynd ag arferion sy'n safonol yn y diwydiant, i wasanaethu myfyrwyr a staff y Brifysgol ac ymwelwyr â hi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar ôl derbyn mwy na 11,000 o geisiadau, mae lefelau boddhad cwsmeriaid yn 93% ar hyn o bryd ac mae staff Desg Gymorth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau wedi datrys 73% o alwadau ar y cyswllt cyntaf.

Mewn cydweithrediad â staff academaidd, cyflwynwyd system adolygu moeseg ymchwil newydd ym mis Mawrth 2023, gan brosesu mwy na 600 o geisiadau o ran moeseg gan fyfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwilwyr hyd yn hyn.

Rydym hefyd wedi parhau i gyflymu'r rhaglen seiberddiogelwch, gan wneud cynnydd sylweddol tuag at allu seiberddiogelwch a reolir yn ganolog sy'n diogelu ein Prifysgol, yn ychwanegu gwerth ati ac yn ei galluogi i gyflawni ein cenhadaeth graidd. Ym mis Chwefror, gwnaeth tîm y Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau helpu SMaRT (Swansea Materials Research and Testing) i ennill ardystiad Hanfodion Seiber a Mwy. Dyma gam hollbwysig wrth alluogi SMaRT i weithio'n ddiogel gyda'i bartneriaid a'i gwsmeriaid.

Wrth gadw at ein hymrwymiad sefydliadol i'r agenda ymchwil ddibynadwy, ym mis Mehefin 2023, gwnaethom greu amgylchedd ymchwil dibynadwy gan ddefnyddio Amazon Web Services (AWS). Mae hyn yn galluogi ein hymchwilwyr i storio a phrosesu data cyfrinachol yn ddiogel, sy'n hygyrch drwy ddyfeisiau ag ardystiad Hanfodion Seiber yn unig.

Yn ystod yr haf, gwnaethom ddechrau rhaglen sylweddol o weithgarwch i foderneiddio ein systemau Cofnodion Myfyrwyr, Cyllid ac Adnoddau Dynol. Bydd y prosiectau hyn yn darparu prosesau gwell a symlach, yn ogystal â thechnoleg wedi'i diweddaru. Rydym yn bwriadu datblygu a darparu'r prosiectau hyn fesul cam dros y tair blynedd nesaf.

Gan edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i ymaddasu yn unol ag anghenion ein cwsmeriaid, drwy ganolbwyntio ar TG sy'n darparu ar gyfer ei defnyddwyr a thrwy atgyfnerthu arferion gweithio a phrosesau ar draws ein Prifysgol. Yn benodol, byddwn yn ceisio mynd i'r afael â sgiliau a hyder digidol ar draws ein cymuned, gan hefyd archwilio cyfleoedd digidol newydd, gan gynnwys cefnogi'r diddordeb cynyddol mewn e-chwaraeon.









# EIN HYSTAD

**Mae ein Strategaeth Ystadau'n seiliedig ar chwe philer strategol sy'n ceisio mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd o ran ystad ein Prifysgol.**

**Er mwyn cefnogi amcanion y chwe philer ymhellach, mae proses uwchgynllunio wedi dechrau ar Gampws Parc Singleton a Champws y Bae. Disgwylir i'r broses uwchgynllunio gael ei chwblhau ym mis Rhagfyr 2023 a bydd yn ceisio:**

- **Cadw ein cysyniad sylfaenu o gampws academaidd sy'n byw ac yn gweithio.**
- **Darparu campws sy'n cefnogi cynllun busnes ac amcanion Strategaeth Ystadau ein Prifysgol.**
- **Darparu ar gyfer twf parhaus y cyfadrannau a'r myfyrwyr ar Gampws Parc Singleton a Champws y Bae.**

### Llety i Fyfyrwyr

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom drosglwyddo'r holl lety myfyrwyr ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan i'w berchennog newydd, gan gwblhau cam cyntaf ein strategaeth llety myfyrwyr. Rydym hefyd wedi llofnodi cytundebau enwebu â dau ddarparwr a fydd yn cyflwyno llety myfyrwyr o safon yng nghanol dinas Abertawe. Mae gwaith wedi dechrau bellach ar ail gam y strategaeth hon, gan gynnwys cynnal arfarniad cychwynnol o ran datblygiad preswyl i fyfyrwyr ar Gampws Parc Singleton.

Rydym wedi dechrau nifer o brosiectau isadeiledd allweddol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

### Man Ymchwil ac Arloesi ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe

Fel rhan o Brosiect Campysau Bargen Ddinesig Bae Abertawe, bydd adeilad newydd arfaethedig yn darparu man ymchwil ac arloesi i helpu i ddatblygu, profi a gwerthuso technolegau meddygol, iechyd, lles a chwaraeon. Mae proses ddylunio'r cyfleuster $2000m^2$ wedi dechrau ac mae cysyniad a ffefrir i fwrw ymlaen ag ef, sy'n barod i'w gyflwyno i'r adran gynllunio ar ddiwedd 2023.

### Isadeiledd Newydd ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe

Rydym wedi parhau i fuddsoddi ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe. Mae cyfleuster newid modiwlar newydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd a fydd yn cefnogi gweithgarwch ar y trac athletau, yn y maes, ac ar gaeau 3G a glaswellt, ac yn darparu cyfleusterau i athletwyr a swyddogion gwrywaidd, benywaidd ac anabl.

Mae neuadd amlbwrpas newydd yn cefnogi amrywiaeth eang o glybiau a gweithgareddau myfyrwyr, gan gynnwys crefft ymladd a thennis bwrdd, ac mae gwaith yn cael ei wneud ar gae 3G newydd â llifoleuadau cyflawn a fydd yn cydymffurfio â safonau World Rugby a FIFA, yn ogystal â gwelliannau i'r caeau glaswellt. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein cyfleusterau hoci o'r radd flaenaf, drwy gyflwyno eisteddle â 300 o seddi, a fydd yn galluogi Prifysgol Abertawe i gynnal gemau a digwyddiadau rhyngwladol yn y Parc Chwaraeon.

### CISM (Canolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol)

Yn 2023, cafodd y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM) – sef ein cyfleuster newydd gwerth £50m ar Gampws y Bae Prifysgol Abertawe – ei hagor yn swyddogol. Mae'r adeilad hwn wedi'i greu at ddiben dod â phlatfformau a phrosesau lled-ddargludyddion a deunyddiau uwch ynghyd i ddarparu technolegau a chynhyrchion newydd.

Mae grŵp gweithredol Sefydliad Ymchwil CISM yn cynnwys staff o bob rhan o gymuned academaidd ein Prifysgol, gan gynnwys Ffiseg, Peirianneg, Deunyddiau a Chemeg. Mae'r grŵp yn trefnu ac yn annog rhaglenni mentora a chymorth ac yn gweld y buddion sylweddol yn barhaus sy'n deillio o'r cysylltiadau diwydiannol cryf a gafodd eu meithrin dros y tair blynedd diwethaf.

### Y Ganolfan Efelychu a Dysgu Ymdrochol

Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar ein Canolfan Efelychu a Dysgu Ymdrochol, cyfleuster efelychu o'r radd flaenaf a gynhelir ar Gampws Parc Singleton, ac mae tri chyfleuster efelychu a dysgu ymdrochol arall hefyd yn yr arfaeth ar Gampws Parc Dewi Sant. Bydd y Ganolfan yn cynnal gosodiad mwyaf technoleg waliau ymgolli a thechnoleg mannau dysgu efelychu peirianneg â chymorth cyfrifiadur yn Ewrop, ac rydym yn rhagweld y bydd yn agor yn ffurfiol yn hydref 2023.

### Ailddatblygu Adeilad Rhestredig Tŷ Fulton

Mae ein cynlluniau i ailwampio Tŷ Fulton a chreu hyb myfyrwyr yng nghanol Campws Parc Singleton bellach wedi dechrau'n ffurfiol. Rydym wedi ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o gam casglu gwybodaeth y prosiect a byddwn yn parhau i gysylltu â hwy wrth i ni gyrraedd y camau cysyniad a dylunio manwl. Rydym yn rhagweld y bydd rhaglen adeiladu fesul cam yn dechrau yn ystod hydref 2024. Mae ailddatblygu mannau ar y llawr cyntaf ar waith ar hyn o bryd ar y cyd â Chartwells, ein partneriaid arlwyo, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn hydref 2023.

### Buddsoddi yn ein Treftadaeth

Er ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn campws i'r dyfodol, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddiogelu hanes a threftadaeth ein hystad bresennol. Mae'r gweithgarwch yn ystod y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar adnewyddu adeilad hanesyddol yr Abaty, mynd i'r afael ag elfennau o adeilad Llyfrgell 1937 a datblygu cynlluniau cadwraeth ar gyfer nifer o'n hadeiladau rhestredig; mae hyn wedi cynnwys ffynhonnau'r Abaty, sydd bellach wedi cael eu hadfer mewn modd sensitif i'w hen ogoniant.









# EIN CYNALIADWYEDD

**Rydym yn ymrwymedig i greu dyfodol mwy cynaliadwy i'n cymuned a'r byd.**

**Rydym wedi addo cael campysau a cherbydau di-garbon (cwmpas 1 a 2) erbyn 2035, peidio â buddsoddi'n uniongyrchol mewn cwmnïau tanwydd ffosil, a lleihau ein hallyriadau o ran y gadwyn gyflenwi a theithio (cwmpas 3) 50% rhwng 2015 a 2035. Rydym hefyd wedi addo gwneud Prifysgol Abertawe'n Brifysgol ag Ymagwedd Gadarnhaol at Natur.**

**Nodir ein cynlluniau yn ein Strategaeth Cynaliadwyedd ac Argyfwng Hinsawdd (2021-2025) sy'n ein hymrwymo i weithredu ar draws pedair thema allweddol: Yr Argyfwng Hinsawdd, Ein Hamgylchedd Naturiol, Ein Hamgylchedd Gwaith ac Ein Teithio.**

**Drwy ein Pwyllgor Cynaliadwyedd Strategol chwarterol, byddwn yn monitro perfformiad yn erbyn ein hymrwymiadau strategol, gan graffu ar y gorwel am gyfleoedd i gydweithredu, gwella a hwyluso darpariaethau. Mae'r pwyllgor, a sefydlwyd yn 2022, yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, ynghyd â'r Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymchwil ac Arloesi, ac mae'r aelodau'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, o staff academaidd a gweithredol i gynrychiolwyr myfyrwyr a staff.**

### Yr Argyfwng Hinsawdd

Rydym yn hyrwyddo llythrennedd carbon ac ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal ag effeithiau gweithredoedd pob dydd ar yr hinsawdd. Er enghraifft, roeddem yn falch mai ni oedd y Brifysgol gyntaf yng Nghymru i fod yn Brifysgol Ail-lenwi, gan osgoi defnyddio miloedd o boteli plastig untro drwy osod cannoedd o orsafoedd ail-lenwi dŵr ar y campws.

Drwy ap pwrpasol, arobryn SWell, rydym wedi ymgysylltu â mwy na 50% o gymuned ein staff ac wedi annog ymddygiadau i ostwng ein holion traed carbon unigol a chyfunol. Hyd yn hyn, mae mwy na 400,000 o weithredoedd cadarnhaol wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau y mae angen llawer o ynni arnynt mewn modd effeithlon, rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol a gollyngiadau dŵr, dewis dulliau teithio cynaliadwy a llesol, osgoi gwastraff a phrynu llai o bethau.

Rydym wedi buddsoddi oddeutu £6m mewn prosiectau datgarboneiddio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rydym yn cymryd camau tuag at fod yn gyfeillgar i gerbydau trydan ar y ddau gampws. Rydym wedi lleihau allyriadau ynni'r campysau a'r cerbydlu 34% ac rydym wedi pennu Polisi Cerbydau Trydan a Gwefru er mwyn sicrhau cerbydlu di-allyriadau a darparu isadeiledd gwefru trydan ar y campysau. Rydym hefyd wedi lleihau allyriadau carbon ein cerbydlu 66% (ers 2015) ac mae gennym 11 man gwefru ar ein campysau bellach.

Yn gyffredinol, mae $CO_2e$ o ddefnyddio trydan wedi gostwng 16% ers 2015/16, er gwaethaf twf y campysau.

Fe'n rhestrwyd yn y 13eg safle yng Nghynghrair People & Planet o brifysgolion y DU am berfformiad amgylcheddol a moesegol, ac rydym rhwng 101 a 200 yn y byd am y Nod Datblygu Cynaliadwy yn ôl Tabl Effaith THE, gyda'r uchelgais o fod ymysg y 50 uchaf erbyn 2027.



Ar ôl cyflawni Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon yn flaenorol am ostwng cyfanswm gwastraff o flwyddyn i flwyddyn, ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill ardystiad uchel ei fri dim gwastraff i safleoedd tirlenwi.

### Ein Hamgylchedd Naturiol

Mae ein campysau'n gartref i fannau gwyrdd helaeth, gan gynnwys dolydd blodau gwyllt a glaswelltiroedd, sy'n cynnal amrywiaeth eang o fywyd gwyllt.

Rydym yn falch o fod yn un o aelodau sefydlu'r Nature Positive Universities Alliance, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2022 yng Nghynhadledd Fioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15). Yn ogystal â thanlinellu ein hymrwymiad i ddiogelu'r mannau gwyrdd pwysig hyn, mae ein haelodaeth yn ymchwilio i effaith ein holl weithrediadau ar fyd natur, o'r bwyd a werthir ar ein campysau i'r cyfarpar a ddefnyddir yn ein labordai a'n swyddfeydd, i'r ynni a ddefnyddir yn ein hadeiladau ac ar ein teithiau.

### Ein Hamgylchedd Gwaith

Rydym yn cymryd camau i wneud ein hamgylchedd gwaith yn fwy cynaliadwy. Rydym wedi gosod 1,800 o baneli solar newydd ar ein toeon ar y ddau gampws, tri thyrbin gwynt llorweddol newydd ar do adeilad ein Canolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM), a'n pwmp gwres ffynhonnell aer (ASHP) cyntaf yn Adeilad Haldane, gan gael gwared ar yr angen i ddefnyddio nwy i wresogi'r adeilad.

Rydym wedi diweddaru systemau goleuadau ar Gampws Parc Singleton drwy osod dros 7,500 o oleuadau LED â rheolyddion awtomatig i leihau costau gweithredu ac allyriadau carbon. Ar Gampws y Bae, rydym wedi gosod lampau LED ar golofnau'r goleuadau stryd allanol hefyd. Barnwyd bod mwy na 10 o'n hadeiladau'n amgylcheddol ardderchog neu'n well, gan gynnwys adeiladau 1 a 2 ein Sefydliad Gwyddor Bywyd, ynghyd â'r Coleg, y Ffowndri Gyfrifiadol ac Adeilad Gogleddol Peirianneg ar Gampws y Bae. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi £2.4m mewn rhagor o ddeunydd ffotofoltäig solar, diweddaru'r systemau rheoli adeiladau a newid i oleuadau LED.

Rydym hefyd yn datblygu cynlluniau i dreialu gwaith i ailddatblygu Tŷ Fulton yn erbyn achrediad gweddnewid cynaliadwy (RICS SKA neu BREEAM).

Er mwyn i ni gyflawni targedau cwmpas 3, mae angen i ni ystyried sut rydym yn gweithredu ym mhob man ar ystad ein Prifysgol, gan gynnwys ein labordai a'n gweithdai. Labordai cynaliadwy LEAF (Fframwaith Asesu Effeithlonrwydd Labordai) yw'r safon werdd i labordai ac mae'r cynllun ar gael i'r holl labordai ar y campysau er mwyn helpu i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Ein nod yw y bydd holl labordai ein Prifysgol yn rhan o raglen LEAF, gyda'r nod o sicrhau dyfarniad efydd LEAF erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2024-25.

### Teithio

I gydnabod effaith teithio ar ein hôl troed carbon, rydym yn ymrwymedig i ddarparu cynlluniau sy'n annog ein staff a'n myfyrwyr i ystyried cludiant amgen, megis cynllun hynod lwyddiannus Beiciau Santander a theclyn Travel Buddy ar ap SWell. Ni oedd y cyflogwr cyntaf a'r brifysgol gyntaf yng Nghymru i gael ein harchwilio ac ennill achrediad CFE (cyflogwr sy'n ystyriol o feicwyr) (lefel aur ers 2022). Mae terfyn uchaf ein cynllun Beicio i'r Gwaith wedi cael ei godi i £3,000 er mwyn cynnig gwell dewis a gostyngiadau wrth brynu beiciau at ddibenion cymudo i'r gwaith. Rydym yn cynnig gostyngiadau ar basys bws blynyddol ac yn ystod y tymor i staff a myfyrwyr ac yn cynnal hyfforddiant Hyrwyddwyr Teithio rheolaidd ar draws ein Prifysgol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr, a fforymau deufisol i fyfyrwyr a staff sy'n defnyddio bysiau. Rydym hefyd yn darparu goleuadau a chloeon am ddim i fyfyrwyr ac yn marcio beiciau er diogelwch am ddim.

Mae'r camau ymarferol hyn yn golygu ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein targed uchelgeisiol o fod yn sero net, a pheidio ag ychwanegu at gyfanswm y nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer, erbyn 2035. Mae hyn yn mynd yn bell tuag at gyflawni ein huchelgais i fod yn sefydliad rhagorol o ran cynaliadwyedd, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

# ADOLYGIAD ARIANNOL

## Uchafbwyntiau


| | 2023 | 2022 | | 2023 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | **£64m** | (£78m) | Gwarged/(diffyg) gweithredu fel % o incwm | **16%** | (22%) |
| Gwarged/(diffyg) ac eithrio addasiadau pensiwn | **£33m** | £14m | Gwarged/(diffyg) gweithredu ac eithrio addasiadau pensiwn fel % o incwm | **8%** | 4% |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | **£83m** | (£56m) | | | |
| EBITDA | **£41m** | £44m | EBITDA fel % o incwm | **10%** | 12% |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **£50m** | £56m | Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu fel % o incwm | **12%** | 15% |
| Arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | **£123m** | £165m | Diwrnodau hylifedd | **130** | 185 |

## Cwmpas y Datganiadau Ariannol

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyfuno Prifysgol Abertawe, ei his-gwmnïau a'i chwmnïau cysylltiedig ac maent wedi cael eu paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102) fel y'i dehonglir gan y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (argraffiad 2019).

## Trosolwg

**INCWM A GWARGED GWEITHREDU FEL % O INCWM**





Parhaodd yr heriau sy'n wynebu'r sector addysg uwch i effeithio ar y Brifysgol yn ystod blwyddyn ariannol 31 Gorffennaf 2023. Er gwaethaf hyn, cadwodd Prifysgol Abertawe a'i his-gwmnïau warged gweithredu gwerth £32.8m yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023, cyn y newid i ddarpariaethau Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), o'i gymharu â gwarged gwerth £14.0m ar gyfer 2022.



## **Incwm –** wedi cynyddu 12% i £413m

Cynyddodd incwm £42.6m yn ystod 2022/23 o ganlyniad i gynnydd o ran ffioedd dysgu a rhyddhau incwm grantiau cyfalaf.


**INCWM FESUL CATEGORI**




*Cynyddodd **incwm o ffïoedd dysgu** 6% i £198.9m.*

Cynyddodd incwm o ffioedd dysgu myfyrwyr rhyngwladol amser llawn £14.3m am y flwyddyn, ond gostyngodd incwm o fyfyrwyr o'r DU £4.7m. Cafwyd rhagor o gynnydd o ran myfyrwyr rhyngwladol yn 2023, wrth i nifer y cofrestriadau gynyddu 14%, ar ôl iddo gynyddu 33% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynydd hwn yn deillio'n bennaf o dwf sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ôl-raddedig a addysgir a gofrestrodd ar gyfer Busnes, Cyfrifyddu a Chyllid yn ystod pwynt mynediad mis Medi. Fel llawer yn y sector addysg uwch, bu cwymp annisgwyl yn nifer y myfyrwyr israddedig o'r DU a aeth ymlaen o un flwyddyn astudio i'r nesaf, a phenderfynodd llai o fyfyrwyr o'r DU ddilyn astudiaethau ôl-raddedig. Credir bod yr argyfwng costau byw wedi bod yn ffactor allweddol yn hyn o beth ac mae effaith Covid-19 ar addysg pobl ifanc yn parhau i ddylanwadu ar eu bywyd yn y Brifysgol.

**INCWM O FFÏOEDD DYSGU**





*Gostyngodd **grantiau cyrff ariannu (ac eithrio incwm grantiau cyfalaf)** 7% i £38.2m.*

Parhaodd grantiau addysgu ac ymchwil rheolaidd i fod yn gyson â'r flwyddyn flaenorol ar £28.9m, a chynyddodd grantiau cyfalaf rheolaidd £1.2m i £2.0m. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023, derbyniwyd grantiau penodol gwerth £9.3m nad oeddent yn rhai cyfalaf i gefnogi prosiectau megis lles ac iechyd myfyrwyr, ymchwil ac arloesi, a'r Gymraeg. Cydnabuwyd bod £33.9m o gyllid cyfalaf yn incwm yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys £29.9m a oedd yn ymwneud â'r adeilad ymchwil newydd, y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM).

*Roedd **incwm ymchwil**, ac eithrio grantiau cyfalaf, wedi parhau'n sefydlog ar £66.7m.*

Parhaodd y Brifysgol i sicrhau rhagor o grantiau ymchwil yn 2023. Cynyddodd grantiau ymchwil gan lywodraethau'r DU a thramor (ac eithrio grantiau cyfalaf) 14% i £36.2m, sy'n adlewyrchu'r llwyddiannau wrth ennill grantiau newydd ym meysydd iechyd a pheirianneg, ochr yn ochr â gwariant sylweddol wrth i raglen Cronfeydd Strwythurol yr UE ddod i ben. Gostyngodd incwm o gynghorau ymchwil 19% i £20.7m yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn debyg i'r incwm a gydnabuwyd yn 2021, gydag incwm eithriadol o uchel yn 2022 o ganlyniad i brosiect Innovate UK. Parhaodd incwm o gyllidwyr eraill yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

**GRANTIAU YMCHWIL**




*Gostyngodd **incwm arall** 2% i £66.1m.*

Mae incwm arall yn cynnwys incwm a gafodd ei greu ar draws y Brifysgol, yn hytrach nag incwm a gipiwyd dan benawdau craidd ffioedd dysgu, grantiau cyrff ariannu, ymchwil a buddsoddiadau. Derbyniwyd cyfanswm incwm preswyl gwerth £22.8m yn ystod y flwyddyn a chynyddodd incwm arlwyo i £2.8m yn ystod y flwyddyn. Sicrhaodd y cyfadrannau academaidd £11.8m drwy gydweithrediadau, grantiau, digwyddiadau a gweithgareddau eraill megis cynadleddau, a £2.7m arall drwy waith ymgynghori. Cafwyd incwm gwerth £5.1m drwy'r GIG o ran y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd yn ystod 2023.

Mae incwm arall hefyd yn cynnwys addasiad cyfrifyddu gwerth £9.5m o ran Preswylfeydd y Bae, sy'n drosglwyddeb flynyddol o'r darpariaethau prydlesi, yn hytrach na thrafodiad ariannol.

*Cynyddodd **incwm o fuddsoddiadau** 654% i £6.1m.*


Yn ystod y flwyddyn, manteisiodd y Brifysgol ar gyfraddau llog uwch, gan osod dau adnau cyfradd sefydlog gwerth £25m yr un am gyfnod o flwyddyn ar gyfradd gyfartalog o 4.6%; creodd hyn log gwerth £1.5m yn ystod y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2023. Cedwir cronfeydd y Brifysgol sydd heb eu buddsoddi'n uniongyrchol na'u dal yn y cyfrif cyfredol fel buddsoddiad ar y cyd â Royal London Asset Management. O ganlyniad i newidiadau yn y farchnad ariannol, cynyddodd yr enillion ar y buddsoddiad â Royal London o £0.7m yn 2022 i £4.3m yn 2023. Derbyniwyd enillion bach ar y portffolio gwaddolion ac ar gronfeydd a ddelir yn y cyfrif cyfredol.



## **Gwariant** – wedi cynyddu 7% i £380m

Cynyddodd gwariant yn ystod y flwyddyn (ac eithrio addasiadau ar gyfer prisiad USS) £26.3m i £380.4m. Cynyddodd costau staff 7.1% i £196.0m, a chynyddodd gwariant gweithredu arall 4% i £140.2m.

**GWARIANT AC EITHRIO ADDASIADAU AR GYFER PRISIAD USS**





*Cynyddodd **costau staff** (ac eithrio addasiad USS) 7.1% i £196.0m.*

Cynyddodd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) 168 yn ystod 2023 yn dilyn gostyngiad yn y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn ym mhob categori ac eithrio ymchwil, a ostyngodd 5% i 481 CALl, yn bennaf o ganlyniad i ddiwedd rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE.

Cynyddodd costau staff fel canran o incwm (ac eithrio grantiau cyfalaf) i 52% o 50% er gwaethaf cynnydd o ran incwm. Cynyddodd y cyflog blynyddol cyfartalog i £52.7k o £51.5k, gan adlewyrchu'r dyfarniad cyflog cenedlaethol a chynyddrannau blynyddol.

**COSTAU STAFF FEL % O INCWM**



Cyfrifir taliadau neu gredyd **USS** bob blwyddyn i adlewyrchu'r newid o ran cyfraniadau disgwyliedig yn y dyfodol ac mae'n seiliedig ar y prisiad a'r cyfraddau disgownt ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn. Dyma addasiad cyfrifyddu ac nid yw'n drafodiad ariannol.

Nid yw prisiad mis Mawrth 2023 wedi cael ei gadarnhau eto, felly caiff canlyniadau'r prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2020 eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol hyn. Ar ddyddiad y prisiad hwnnw, gwerth asedau'r cynllun oedd £66.5bn, a gwerth darpariaethau technegol y cynllun oedd £80.6bn, gan nodi diffyg gwerth £14.1bn yn y cynllun cyfan.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio cyfraddau bond a gyhoeddir ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn i gyfrifo ei chyfran o'r diffyg. O ganlyniad i'r newid yng nghyfradd y bond ar 31 Gorffennaf 2023, gostyngodd cyfran y Brifysgol o'r diffyg £31.7m. Dangosir hyn fel credyd (gostyngiad i wariant) yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn ac mae'n dilyn cynnydd gwerth £93.5m yn 2022.

Yn ôl arwyddion y prisiad ym mis Mawrth 2023, mae gwarged gan y cynllun bellach a disgwylir i'r cyfraniadau sy'n daladwy gan y cyflogwr a'r cyflogai ostwng.

*Cynyddodd **gwariant ar wahân i gyflogau** 4% i £140.2m.*

Y costau mwyaf i'r Brifysgol ar wahân i gyflogau yw gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau dan gontractau, sy'n costio £22.9m, a mangreoedd sy'n costio £21.5m. Gostyngodd costau'r rhain yn ystod 2023 ar ôl cynyddu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys grant gwerth £1.3m i Undeb y Myfyrwyr, £3.8m am y contract rheoli cyfleusterau meddal a gwariant gwerth £4.3m ar ymchwil. Hefyd, gostyngodd gwariant ar gyfarpar nad yw'n rhai cyfalaf 8% yn ystod y flwyddyn, i £14.9m. Cynyddodd ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau 17% i £19.8m, a chynyddodd gwariant ar recriwtio myfyrwyr a hysbysebu 17% i £9.5m hefyd, yn dilyn y newidiadau i'r farchnad fyd-eang. Ymysg y gwariant a gynyddodd yn sylweddol, cafwyd cynnydd gwerth 31% ar gyfleustodau i £10.1m, a chynyddodd costau teithio 75% i £7.3m wrth i staff ddechrau teithio unwaith eto ac wrth i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ailddechrau.

**TREULIAU GWEITHREDU ERAILL 2023**






## Mantolen

Mae gan y Brifysgol fantolen gref, gydag asedau'n cynyddu yn ystod 2023 a rhwymedigaethau'n lleihau.

Cynyddodd ***asedau anghyfredol*** £9.3m, a gwariwyd £38.3m ar ychwanegiadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn, a wrthbwyswyd gan ddibrisiant.

Cynyddodd ***asedau cyfredol*** £7.4m yn dilyn y flwyddyn lwyddiannus a'r cynnydd canlyniadol o ran arian parod. Gosodwyd £50.0m o arian parod mewn buddsoddiad am 12 mis a arweiniodd at ostyngiad gwerth £41.3m o ran arian parod adroddadwy, ond cynnydd gwerth £49.9m o ran buddsoddiadau.

Gostyngodd ***rhwymedigaethau presennol*** £5.4m wrth i'r grant cyfalaf am y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM) gwerth £29.9m gael ei ryddhau i'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn ystod 2023 ar ôl i'r adeilad gael ei gwblhau, a chynyddodd croniadau a chredydwyr masnach ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd amseru'r taliadau.

Gostyngodd ***symiau sy'n ddyledus i gredydwyr mewn mwy na blwyddyn*** £7.0m yn dilyn ad-daliadau gwerth £3.5m ar fenthyciadau a gostyngiad gwerth £3.1m yn y rhwymedigaeth ar y consesiwn gwasanaeth. Arweiniodd enillion ar gynlluniau pensiwn USS a SUPS at leihau'r darpariaethau pensiwn £54.0m.

## Cyfamodau

Er mwyn bodloni amodau'r benthyciad a bennir gan Fanc Buddsoddi Ewrop, rhaid i'r Brifysgol sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r cyfamodau canlynol:

1. Ni ddylai'r gymhareb rhwng dyledusrwydd ariannol net ac enillion cyn llog, trethi, dibrisio ac amorteiddio (EBITDA) wedi'u haddasu fod yn fwy na 6.5:1
2. Dylai'r gymhareb rhwng llifoedd arian parod gweithredu net neu gostau cynnal dyledion fod o leiaf 1.1:1
3. Dylai'r gymhareb rhwng dyledusrwydd ariannol wedi'i addasu a refeniw fod yn fwy nag 85%
4. Dylai'r Brifysgol gydymffurfio ag unrhyw amod arall a bennir o ran CCAUC.

Ar 31 Gorffennaf 2023, bodlonwyd holl amodau'r cyfamodau.

## Gwariant Cyfalaf a Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd


*Parhaodd **gwariant cyfalaf** i fod yn gyson ar £38.3m.*

Mae Campws y Bae'n parhau i gael ei ehangu'n strategol wrth i'r adeilad ymchwil newydd a ariannwyd gan grantiau, y Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol (CISM), gael ei agor. Mae'r Strategaeth Ystadau'n cynnwys pwyslais ar wella ansawdd y cyfleusterau ar Gampws Parc Singleton ac yn 2023 agorwyd Ystafelloedd Efelychu sy'n helpu dysgwyr ar raglenni clinigol, iechyd a gofal cymdeithasol i ymdrwytho, myfyrio a datblygu drwy sefyllfaoedd byd go iawn. Mae Cyllid Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch wedi'i ddefnyddio i ddatblygu a diweddaru'r cyfleusterau Seicoleg, gan hwyluso ymchwil hollbwysig i gwsg, ynghyd â chreu Ystafelloedd Efelychu Hydra sy'n galluogi arbrofion yn y gwyddorau cymdeithasol i gael eu cyfeirio, eu monitro a'u gwerthuso.

Mae'r Brifysgol wedi parhau â'i rhaglen waith i ddarparu ei Strategaeth Cynaliadwyedd ac wedi defnyddio cyllid Salix ar gyfer prosiectau datgarboneiddio, gan gynnwys gosod goleuadau LED a phaneli ffotofoltäig solar.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £11.6m ar brynu cyfarpar i ategu gweithrediadau'r Brifysgol. Gwariwyd £5.4m ar brynu cyfarpar ar gyfer prosiectau ymchwil, gyda £0.9m yn cael ei wario wrth i'r gwaith i uwchraddio'r isadeiledd a'r rhwydwaith digidol ddechrau.

**GWARIANT CYFALAF A GRANTIAU CYFALAF A DDERBYNIWYD**



## Arian Parod a Dyled

Cynyddodd ***arian parod, gan gynnwys buddsoddiadau cyfredo***l, i £178.3m.

Strategaeth ariannol y Brifysgol yw sicrhau digon o arian parod i ddarparu gwydnwch, creu'r lefelau angenrheidiol o gyfalaf gweithio a galluogi buddsoddiad yn yr ystad a phrosiectau isadeiledd.

Er gwaethaf gwarged uwch yn ystod y flwyddyn, gostyngodd yr arian parod a sicrhawyd drwy weithgareddau gweithredu (ar ôl ychwanegu grantiau cyfalaf eto a hepgor trafodiadau heb fod yn arian parod) o £56.2m yn 2022 i £49.6m yn 2023. O ganlyniad i'r cynnydd gwerth £22.9m yn y symiau sy'n ddyledus i gredydwyr ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gostyngiad gweithredol yn y fantolen arian parod yn llai.

Gwnaeth y Brifysgol ariannu £30.2m o'r gwariant cyfalaf o'i chronfeydd ariannol wrth gefn a defnyddio £8.8m i gynnal ei benthyciadau a'i threfniadau ariannol eraill.


Cynyddodd ***dyledusrwydd net*** £34.8m i £97.1m**.**

Gwnaed ad-daliadau gwerth £3.5m ar fenthyciadau yn ystod y flwyddyn, gan leihau'r benthyciadau sy'n ddyledus i £104.4m. Gostyngodd dyled y trefniadau consesiwn gwasanaeth ar y preswylfeydd i £116.0m ar 31 Gorffennaf 2023, yn dilyn dad-ddirwyn y rhwymedigaeth ar brydlesi (£3.1m).

Fodd bynnag, gostyngodd swm yr arian parod £41.4m yn ystod y flwyddyn, ar ôl i'r adneuon gwerth £50.0m gael eu buddsoddi, gan gynyddu'r dyledusrwydd net yn sylweddol.

Derbyniodd y Brifysgol fenthyciad gwerth £2.3m gan Salix Finance Ltd ar gyfer prosiectau datgarboneiddio. Cyfradd llog y benthyciad hwn yw 0% ac mae'n ad-daladwy dros wyth mlynedd.

**ARIAN PAROD, DYLED A DYLEDUSRWYDD NET**




## Darpariaethau Pensiwn

Mae'r Brifysgol yn aelod o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), sy'n darparu pensiynau ar gyfer staff academaidd a phroffesiynol. Yn y prisiad teirblynyddol diwethaf ym mis Mawrth 2020, roedd gan y cynllun ddiffyg gwerth £14.1bn. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y diffyg a ddyrannwyd i'r Brifysgol o £43.0m i £134.3m. Talwyd £7.4m mewn cyfraniadau o ran y diffyg ar gyfradd o 6.2% o'r gyflogres bensiynadwy, a chynyddodd y llog a godwyd yn ystod y flwyddyn i £4.5m ar ôl i'r ffactor disgownt gynyddu ym mis Gorffennaf 2022. Cafodd £31.7m ei gredydu, gan leihau'r ddarpariaeth, ar ôl i'r ffactor disgownt a ddefnyddiwyd (cyfradd bond corfforaethol ansawdd uchel) newid.

Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu cynllun CARE, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) ar gyfer cyflogeion anacademaidd, sydd bellach ar gau i aelodau newydd. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd diffyg SUPS o £36.6m i £17.2m wrth i enillion actiwaraidd net gwerth £18.6m o ran incwm cynhwysfawr gael eu cydnabod.



## Rhagolygon y dyfodol a busnes gweithredol

Amcan pennaf Strategaeth Ariannol y Brifysgol o hyd yw creu digon o adnoddau arian parod i gyflawni ei hamcanion strategol a sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hir. Mae hyn yn profi'n ffactor allweddol yng ngallu'r Brifysgol i'w chynnal ei hun mewn amgylchedd o ansicrwydd parhaus.

Mae'r cyd-destun allanol y mae prifysgolion yn gweithredu ynddo bellach yn fwyfwy heriol. Mae recriwtio myfyrwyr yn parhau'n anodd ei ragfynegi, yn enwedig myfyrwyr o farchnadoedd tramor, ond profodd y sector ostyngiad annisgwyl hefyd yn nifer y myfyrwyr sy'n symud ymlaen o un flwyddyn astudio i'r un nesaf yn 2022/23; yn ddiamau mae hyn yn adlewyrchu effeithiau parhaus Covid-19 a'r her mae costau byw yn ei pheri i fyfyrwyr.

Ar yr un pryd, mae chwyddiant yn parhau i erydu gwerth ffïoedd dysgu cartref, sydd bellach yn agosach at £6,000 mewn termau real. Er bod Abertawe, yn debyg i lawer o brifysgolion eraill, wedi dod yn fwy effeithlon, mae'r pwysau diweddar o ganlyniad i chwyddiant ar gyflogau a chostau ar wahân i gyflogau yn gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn anghynaliadwy.

Er gwaethaf y cyd-destun allanol heriol hwn, mae'r Brifysgol wedi cyflawni canlyniad ariannol cryf ar gyfer 2022/23, gan greu gwarged gweithredu (cyn addasiadau am gynllun USS) o £32.8m a llif arian net o weithgareddau gweithredu o £49.6m. Mae hyn yn golygu £123.3m mewn arian parod ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â £50m ychwanegol mewn adneuon cyfnod penodol tan fis Rhagfyr 2023.

Cyflawnwyd hyn drwy adolygu ac ailddatgan y rhagolygon ariannol yn rheolaidd, gan ystyried gwir berfformiad a gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y Brifysgol i reoli gwariant. Rydym hefyd wedi bod yn monitro llif arian a chyfamodau'n ofalus i sicrhau bod gan y Brifysgol gronfeydd arian parod wrth gefn digonol a'i bod yn bodloni amodau ei chyfamodau.

Disgwylir y bydd cofrestriadau ar gyfer 2023/24 yn unol â'r rhagamcan cyffredinol, gyda thwf parhaus yn nifer y myfyrwyr ôl-raddedig tramor. Mae niferoedd myfyrwyr ôl-raddedig cartref hefyd yn edrych yn gryf. Bydd hyn yn helpu i liniaru diffyg tebygol yn niferoedd myfyrwyr israddedig cartref. Mae ceisiadau i'n rhaglenni sy'n dechrau ym mis Ionawr yn rhagori ar y rhagamcanion ar hyn o bryd, felly rydym yn disgwyl cyflawni'r rhagamcan o ran ffïoedd dysgu cyffredinol.

Er bod cyd-drafodaethau cenedlaethol ffurfiol ynghylch dyfarniad cyflog 2023/24 wedi dod i ben a rhoddwyd cynnydd cyffredinol o 5% ar waith, mae'r undebau llafur cenedlaethol yn parhau'n anfodlon ac mae'n bosib y bydd rhagor o streiciau.

Mae'r ansicrwydd o ran cyfrifyddu ar gyfer cynllun pensiwn USS yn parhau i gamliwio'r canlyniadau ariannol ar gyfer prifysgolion. O ganlyniad i'r newid yn y gyfradd bondiau ar 31 Gorffennaf 2023, cafwyd gostyngiad o £31.7m yng nghyfran y Brifysgol o'r diffyg. Dangosir hyn fel credyd (gostyngiad mewn gwariant) yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn ac mae'n dilyn cynnydd o £93.5m yn 2022.

Mae canlyniad Prisiad Teirblwydd Cynllun USS a gynhaliwyd yn 2023, er nad yw wedi'i gadarnhau eto, yn darparu rhagor o newyddion cadarnhaol i gyflogwyr a chyflogeion. Bydd y gostyngiad yn lefelau cyfraniadau yn creu rhywfaint o hyblygrwydd a chyfle i'r Brifysgol, a'r gobaith yw y bydd yr aelodau staff mae hyn yn effeithio arnynt yn croesawu ailgyflwyno budd-daliadau a'r gostyngiad mewn cyfraniadau. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn debygol o arwain at addasiad cyfrifyddu arall ar Ddatganiadau Ariannol 2023/24.

Mae'r pwysau'n parhau ar gostau ar wahân i gyflogau. Er enghraifft, mae'r Brifysgol wedi gweld cynnydd o 31% yng nghostau cyfleustodau yn 2022/23 o'u cymharu â chostau yn 2021/22. Mae'r Brifysgol eisoes wedi cymryd camau i leihau cost ynni a'r galw amdano drwy amrywiaeth o brosiectau datgarboneiddio a phrosiectau cysylltiedig, ac mae rhagor yn yr arfaeth fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i gyflawni Sero Net erbyn 2035.

Mae'r Brifysgol yn cynllunio buddsoddiad sylweddol o hyd yn yr isadeiledd ystadau a TG i sicrhau bod y campysau'n parhau'n lleoedd deniadol i weithio ac astudio a chlustnodwyd £120m o'n cronfeydd arian wrth gefn i ariannu buddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf hyd at 2028.

Bydd yr angen am lety o safon, am gost resymol, i fyfyrwyr, ar Gampws Singleton yn benodol, yn dylanwadu ar ddatblygiad pellach y Strategaeth Llety Myfyrwyr. Rydym wedi gweld bod myfyrwyr yn gynyddol sensitif i brisiau a'r disgwyl yw y bydd hyn yn arwain at lefelau is o feddiannaeth yn 2023/24 ac, o bosib, yn y tymor canolig.

Er gwaethaf y canlyniad cadarnhaol ar gyfer 2022/23 mae llunio rhagamcan pum mlynedd sy'n gynaliadwy'n ariannol yn parhau'n her. Mae'r Brifysgol wedi datblygu Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol sy'n nodi amrywiaeth o weithgareddau y disgwylir y byddant yn cyflawni twf mewn incwm ac arbedion ariannol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r rhain yn amrywio o barhau i ddatblygu partneriaethau tramor a darparu rhaglenni ar-lein, i adolygiad cynhwysfawr o Wasanaethau Proffesiynol y Brifysgol, yn ogystal ag ymagwedd sefydliadol at gyfyngu ar wariant ar wahân i gyflogau.

Mae proses lywodraethu ffurfiol ar waith i fonitro gwaith i gyflawni'r arbedion gofynnol. Hefyd, bydd rhaglen Ymlaen, a lansiwyd i ganolbwyntio ar gyflawni newid sylweddol mewn effeithiolrwydd sefydliadol a gwreiddio diwylliant o wella'n barhaus, yn ategu'r gwaith o gyflawni'n weithredol.

Er gwaethaf hyder y Brifysgol yn y rhaglen hon, rydym wedi ymgymryd â gwaith modelu senarios, gan gynnal profion straen ar gyfer ystod o risgiau allweddol er mwyn gweld beth fyddai'r effaith ar sefyllfa ariannol y Brifysgol, a thrafodwyd y rhain â'r Cyngor a'i is-bwyllgorau perthnasol.

Ar ôl adolygu'r strategaethau isorweddol, y rhagamcanion ariannol a'r gwaith modelu senarios, mae'r Brifysgol yn hyderus bod ganddi adnoddau digonol i barhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau am y 12 mis nesaf, ac y bydd yn parhau i wneud hyn am y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i ddefnyddio'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.






**Sarah Jones,**
Prif Swyddog Arianol

**Goi Ashmore,**
Trysorydd

# PRIF RISGIAU A FFACTORAU ANSICRWYDD

Mae'r Brifysgol yn cynnal cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu'n ffurfiol bob chwarter gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, a'r Cyngor. Caiff ei diweddaru hefyd pan fo'n briodol os yw'n amlwg bod risgiau'n newid yn gyflymach.

Caiff yr holl risgiau eu neilltuo i gategori er mwyn eu dadansoddi a'u cymharu. Ceir crynodeb o'r risgiau sydd ar Gofrestr Risg y Brifysgol ar hyn o bryd ym mhob categori ac yn ôl sgôr risg isod. Mae dosbarthiad y risgiau'n parhau i adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n bodoli yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys materion geowleidyddol ac effaith barhaus chwyddiant uchel ar y Brifysgol, y staff a'r myfyrwyr.




Mae'r tabl isod yn nodi'r risgiau mwyaf ar gofrestr y Brifysgol yn ôl sgôr risg weddilliol.

| Risg Strategol | Prif Fesurau Lliniaru |
|---|---|
| **Cynaliadwyedd ariannol**<br>Analluogrwydd i sicrhau'r incwm a'r gwariant a ragwelir yn arwain at fethu creu'r gwarged gofynnol at ddibenion buddsoddi a chyflawni strategaeth y Brifysgol | • Adrodd am y gyllideb a'i monitro bob mis, a darparu rhagolygon newydd bob chwarter<br>• Cynnal asesiadau ariannol manwl a phrofion straen ar risgiau cynhenid<br>• Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol yn cael ei rhoi ar waith<br>• Monitro cyfamodau |
| **Llety myfyrwyr y Brifysgol**<br>Llai o alw gan fyfyrwyr am lety y mae'r Brifysgol yn berchen arno/lety dan gontract yn arwain at lai o feddiannaeth | • Monitro ystafelloedd gwag, lleoliadau, prisiau, a hynny'n barhaus<br>• Modelu'r effaith ariannol a nodi camau lliniaru<br>• Adolygu'r strategaeth llety myfyrwyr yn y tymor hwy |
| **Seiberddiogelwch**<br>Toriad neu achos yn arwain at niwed i'r Brifysgol | • Cytuno ar fuddsoddiad sylweddol dros sawl blwyddyn fel rhan o'r prosiect Sylfeini Digidol<br>• Adolygu'r holl brosesau a pholisïau seiberddiogelwch<br>• Rhoi rhaglen ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch ar waith |
| **Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol**<br>Effaith ffactorau allanol megis newidiadau i bolisïau llywodraeth y DU, cystadleuaeth gynyddol a ffactorau mewnol megis gorddibyniaeth ar nifer cyfyngedig o farchnadoedd yn arwain at analluogrwydd i ddenu nifer y myfyrwyr rhyngwladol a ragwelir, gan leihau cynaliadwyedd ariannol | • Rhoi'r Strategaeth Ryngwladol ar waith<br>• Archwilio cyfleoedd addysg drawswladol newydd i ddarparu rhaglenni mewn gwledydd eraill<br>• Nodi marchnadoedd newydd i ddatblygu presenoldeb tramor cryfach<br>• Monitro ac adolygu perfformiad marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli |
| **Profiad y myfyrwyr – gwasanaethau lles**<br>Analluogrwydd i fodloni'r galw'n effeithio ar wasanaethau cymorth myfyrwyr a phrofiad y myfyrwyr | • Parhau i adolygu adborth myfyrwyr ac ymateb iddo<br>• Rhoi argymhellion adolygiad annibynnol ar waith<br>• Darparu rhagor o adnoddau |

| Risg Strategol | Prif Fesurau Lliniaru |
|---|---|
| **Profiad y myfyrwyr – dysgu ac addysgu**<br>Ansawdd addysgu, cymarebau rhwng myfyrwyr a staff, amgylchedd addysgu a gwasanaethau cymorth gwael yn arwain at brofiad gwael i fyfyrwyr | • Rhoi'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu ar waith<br>• Cynllun Adfer yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn cael ei arwain gan y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Addysg<br>• Prosiect Porth i Wasanaethau Myfyrwyr yn cael ei ddatblygu<br>• Sefydlu prosiect Hynt Graddedigion |
| **Recriwtio myfyrwyr o'r DU**<br>Cystadleuaeth gynyddol ac ymddygiad newidiol gan fyfyrwyr yn arwain at anallu i ddenu nifer y myfyrwyr a ragwelir | • Adolygiad gan Fwrdd Strategaeth Recriwtio'r DU<br>• Cynnal a datblygu strategaeth ac ymgyrch ar gyfer Clirio drwy'r Pwyllgor Llywio Clirio<br>• Cyfathrebu â cholegau addysg bellach fel rhan o brosiect arallgyfeirio |
| **Hwyliau'r staff – effaith newid**<br>Rhaglen newid sylweddol a phwysau llwythi gwaith yn gostwng hwyliau'r staff | • Sefydlu Pwyllgor Pobl a Diwylliant<br>• Diweddaru'r arlwy iechyd a diogelwch<br>• Cyflwyno Polisi Gweithio Ystwyth ac arweiniad<br>• Cyfathrebu â'r staff yn rheolaidd drwy fforymau amrywiol<br>• Cydnabod ymdrechion y staff<br>• Rhoi rhaglen Datblygu Arweinwyr ar waith i ategu gallu a galluedd o ran arweinyddiaeth |



# DATGANIAD BUDDION CYHOEDDUS

**Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn elusen gofrestredig (rhif 1138342) ers mis Hydref 2010. Diffinnir ein fframwaith cyfansoddiadol yn ein Siarter a'n Statudau ac mae Erthygl 3 y Siarter Atodol yn amlygu amcanion ein Prifysgol "i hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, a chymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo datblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd a chyfrannu at y gwaith hwn yng Nghymru a'r tu hwnt".**

Byddwn yn parhau i fod yn Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori. Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru.

Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau ac wrth wneud penderfyniadau, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau ar fuddion cyhoeddus a chanllawiau atodol y Comisiwn Elusennau ar hybu addysg.

Mae pum piler yn tanategu *Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas* (2020) ac mae gan bob un ei strategaeth ei hun. Ceir crynodeb o'r rhain isod. Mae *Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas* hefyd yn cydnabod mai'r argyfwng hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i gymdeithas o hyd. O ganlyniad i hynny, mae ein gwaith yn cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac rydym wedi ymrwymo i fod yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2035. (Amlygir ein hymagwedd at gynaliadwyedd a chyflawni'r targed sero net ar dudalennau 26–27.)

## Ein Cenhadaeth Ddinesig

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe, Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ehangach a Chymru, ac rydym yn dathlu'r dreftadaeth honno. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni, ac mae gennym gyfrifoldeb i weithio gyda'n cymuned a Chymru ac er eu lles. Mae ein gwerthoedd yn cyd-fynd â nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac rydym yn ceisio darparu atebion lleol i'r heriau byd-eang sy'n effeithio ar bawb.

Er bod gwreiddiau ein cenhadaeth ddinesig yn ein rhanbarth lleol, mae'n ymestyn i gynnwys yr effaith rydym yn ymdrechu i'w chael mewn cymunedau ledled y byd. Rydym yn denu cydweithwyr a myfyrwyr i Abertawe o bob cwr o'r byd ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr addysg a'r profiadau a ddarparwn a'r ymchwil a wneir yma yn berthnasol yn lleol ac yn rhyngwladol. Yn anad dim, ymdrechwn i weithio mewn partneriaethau agored a theg, yng ngwir ystyr y gair, ac i ddysgu cymaint â phosib gan eraill.

Gellir gweld gwaith ein Cenhadaeth Ddinesig hefyd yn ein hymchwil a'n mentergarwch, ein dysgu a'n haddysgu a phrofiad ein myfyrwyr, a ddisgrifir ar dudalennau 12-19.

Rydym yn sefydliad angori sy'n gwneud cyfraniad gweithredol at fywyd y rhanbarth. Mae gennym gysylltiadau cryf â sefydliadau angori a chyflogwyr mawr eraill, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector, ac mae gennym bartneriaethau effeithiol â cholegau addysg bellach ac ysgolion. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr isadeiledd angenrheidiol i gefnogi sgiliau ac arloesi ac rydym yn bartner allweddol ym Margen Ddinesig Bae Abertawe.

Rydym yn cyfrannu at fywyd diwylliannol ein cymuned drwy Theatr Taliesin a'r Neuadd Fawr, y Ganolfan Eifftaidd, Llyfrgell Glowyr De Cymru ac Archifau Richard Burton, a thrwy Wobr Ryngwladol Dylan Thomas. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r ddinas a thimau chwaraeon lleol i ddarparu cyfleusterau chwaraeon a rennir â'r gymuned ac mae gennym uchelgais i sicrhau mai dinas Abertawe a'n Prifysgol yw prif hyrwyddwyr chwaraeon yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog i gydnabod y gwerth y mae'r rhai hynny sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, cyn-filwyr a theuluoedd milwrol yn ei gyfrannu at ein Prifysgol a'r wlad.

Rydym hefyd yn falch o'n haelod staff Dr Lella Nouri, a dderbyniodd wobr gan EMWWAA (Cymdeithas Cydnabod Llwyddiant Menywod Cymreig o Leiafrifoedd Ethnig) ym mis Mehefin 2023 am ei chyfranogiad mewn gweithgarwch cymunedol i wrthsefyll negeseuon casineb.

## Profiad ein Myfyrwyr

Mae ein myfyrwyr, a'u profiadau, eu hanghenion a'u huchelgeisiau amrywiol, yn llywio'r amgylchedd rydym yn ceisio ei feithrin ym Mhrifysgol Abertawe. Rydym yn ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau wrth wneud penderfyniadau ac rydym yn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd profiad ein myfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, byddwn yn gweithio i sicrhau bod pob myfyriwr sy'n dewis Abertawe fel ei gartref yn cael y profiad gorau posib yma.

Mae ein tîm BywydCampws yn parhau i gefnogi myfyrwyr gyda chyngor a chymorth diduedd ac anfeirniadol. Drwy'r flwyddyn, mae'r tîm wedi gweinyddu'r Gronfa Caledi Myfyrwyr, wedi darparu'r Gwasanaeth Gwrando ac wedi cefnogi myfyrwyr drwy amrywiaeth o wasanaethau.

Ar ôl pleidleisiau gan fwy na 35,000 o fyfyrwyr mewn mwy nag 80 o brifysgolion ledled y DU tuag at ganlyniadau Gwobrau WhatUni 2023, rhestrwyd Prifysgol Abertawe yn y 6ed safle yn y Categori Bywyd Myfyrwyr ac yn yr 11eg safle yn y Categori Cymorth Myfyrwyr, ac ym mis Ebrill 2023 cyhoeddodd y Complete University Guide mai Abertawe oedd y ddinas fwyaf diogel i fyfyrwyr yng Nghymru (ac ymysg y 10 dinas fwyaf diogel yng Nghymru a Lloegr).

Mae ein myfyrwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymdeithas leol drwy raglenni gwirfoddoli ac allgymorth, ac maent yn rhan o'n cymuned ryngwladol. Ein nod yw creu dinasyddion byd-eang a fydd yn mynd allan i'r byd ac yn gwneud gwahaniaeth. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth ein helusen gwirfoddoli myfyrwyr, Discovery, gefnogi 127 o gyfleoedd i 510 o fyfyrwyr wirfoddoli drwy weithio gyda phobl ledled ein cymuned: pobl hŷn; oedolion a phlant anabl; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; menywod sydd wedi'u hecsbloetio; pobl sy'n ynysig ac yn unig; a myfyrwyr ag anghenion ychwanegol.

(Amlinellir rhagor o wybodaeth am Brofiad ein Myfyrwyr ar dudalennau 12–15.)



## Ein Dysgu ac Addysgu

Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol yn elfen sylfaenol o'n diben. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog. Rydym yn parchu hawliau myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac rydym yn ymdrechu'n barhaus i ehangu ein hamrywiaeth o gyfleoedd iddynt wneud hynny. Rydym hefyd yn gweithio i gynnal ein statws fel cymuned sy'n cydbwyso rhagoriaeth ymchwil ac addysgu.

Mae ein graddedigion yn gweithio mewn byd sy'n gynyddol gysylltiedig lle gofynnir iddynt werthfawrogi a deall diwylliannau a gwledydd eraill. Rydym yn cynnig cyfleoedd creadigol i'n myfyrwyr astudio a gweithio dramor yn ystod eu rhaglenni gradd, ac i gysylltu eu haddysg â'r heriau y mae cymunedau ledled y byd yn eu hwynebu.

Rydym yn ymrwymedig i ehangu a dyfnhau mynediad at addysg, gan hyrwyddo cyfleoedd dysgu cynhwysol a theg gydol oes. Ein Prifysgol yw partner arweiniol Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach De-orllewin Cymru a ariennir gan CCAUC, yn ogystal ag arwain a darparu rhaglen Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe. Nod y ddwy raglen yw cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ne-orllewin Cymru.

Rydym yn falch o gynnig y cyfle i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ymweld â'n Prifysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â'r nod o gynyddu dyheadau addysgol a'u hymwybyddiaeth o fywyd prifysgol. Eleni, gwnaethom gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i'r grŵp hwn, gan gynnwys gweithdai, teithiau o'r Brifysgol, ymweliadau unigol, profiadau preswyl a chyfleoedd i weithio gyda phobl ifanc a myfyrwyr prifysgol eraill â phrofiad o fod mewn gofal. Rydym hefyd yn cynnal ysgol haf breswyl dros ddau ddiwrnod bob blwyddyn, i ofalwyr ifanc rhwng 15 a 18 oed.

Mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) hefyd yn gweithio i ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol i'n poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Mae SAILS yn darparu amrywiaeth o brosiectau i alluogi unigolion o bob cefndir i gyrraedd addysg uwch ac ymgartrefu ynddi, aros yn y brifysgol a chwblhau eu hastudiaethau, mynd o lefel i lefel a chyflawni'r canlyniadau gradd gorau posib.

Rydym yn darparu amrywiaeth o brosiectau allgymorth penodol i bynciau i gefnogi disgyblion, gan gynnwys ym meysydd Cyfrifiadura, Mathemateg Bellach, a phynciau STEM eraill ar lefel TGAU, Safon Uwch a'r tu hwnt. Rydym hefyd yn darparu llwybrau dilyniant drwy flynyddoedd sylfaen mewn Peirianneg, Gwyddoniaeth, y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Ysgol Reolaeth i unigolion nad ydynt yn gallu cael mynediad uniongyrchol at flwyddyn gyntaf gradd israddedig amser llawn.

(Amlinellir rhagor o wybodaeth am ein gweithgarwch Dysgu ac Addysgu ar dudalennau 12–15.)

## Ein Hymchwil

Mae ein hymchwil yn cael effaith oherwydd ei bod yn cael ei llywio i ddiwallu anghenion ein partneriaid diwydiannol, masnachol, academaidd ac yn y sector cyhoeddus. Mae'n newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac yn cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas, yn ogystal â'n hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed. Rydym yn ysgogi newidiadau mewn polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Rydym ar flaen y gad mewn llawer o feysydd, gan gynnwys: gweithgynhyrchu uwch ac arloesi ym maes ynni glân a'r economi ddigidol; nanoiechyd a dadansoddi data iechyd ar raddfa fawr; gwerthuso'r farchnad lafur, defnydd gan derfysgwyr o'r rhyngrwyd a chadwraeth ein treftadaeth ddiwydiannol. Rydym yn archwilio ffyrdd newydd o asesu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd ac rydym yn gweithio i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i gyfoethogi bywydau pawb drwy ein dealltwriaeth o hanes a'r celfyddydau.

Mae'r llwyddiannau diweddar yn cynnwys dyfarniad gwerth £15m i gonsortiwm o brifysgolion, gan gynnwys Abertawe, i greu canolfan ymchwil ac arloesi rheilffyrdd newydd sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang yn ne Cymru. Rydym hefyd ar fin gwneud cyfraniad allweddol at blatfform newydd i ddod â chryfderau'r DU wrth ymchwilio i glefydau prin ynghyd er mwyn eu deall, eu diagnosio a'u trin yn well ac yn gyflymach, drwy UK-RDRP, sef platfform ymchwil i glefydau prin yn y DU gwerth £14m a gafodd ei greu gan y Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

## Ein Mentergarwch

Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau'n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl. Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau â chwmnïau angori a busnesau bach a chanolig yng Nghymru – mae mwy na 40 o gwmnïau wedi'u cydleoli â ni ar ein campysau – ac â'r sefydliadau niferus rydym yn cydweithredu â hwy'n rhyngwladol.

Rydym yn cydweithio â'n partneriaid i gyfnewid gwybodaeth a datblygu sgiliau ar sail foesegol a theg. Er y byddwn yn arwain cydweithrediadau, byddwn yn gwrando ar ein partneriaid ac yn dysgu ganddynt. Ein rôl yw diwallu eu hanghenion, sbarduno eu twf a chefnogi eu datblygiad cynaliadwy i'r un graddau â'n nod i ehangu ffiniau ac arloesi.

Mae ein hymagwedd entrepreneuraidd yn ychwanegu gwerth at brofiad y myfyrwyr, gan roi cyfleoedd i'n myfyrwyr ddatblygu sgiliau ymarferol drwy leoliadau gwaith, interniaethau a phrosiectau ymchwil cydweithredol.

Mae ein Prifysgol ymysg sefydliadau mwyaf blaenllaw'r DU am greu cwmnïau deillio. Mae trydydd adroddiad blynyddol *Spotlight on Spinouts*, wedi'i noddi gan yr Academi Frenhinol Peirianneg, yn tynnu sylw at gyflawniad nodedig Abertawe wrth greu 48 o gwmnïau deillio ers 2011. Mae'r llwyddiant hwn yn gosod Prifysgol Abertawe ymysg y 10 prifysgol fwyaf blaenllaw yn y DU, gan hefyd sicrhau ein bod ar y brig yng Nghymru.

Gan arddangos ein hymrwymiad i ddatblygu sgiliau mentergarwch ac entrepreneuriaeth ein myfyrwyr, enillodd tîm o fyfyrwyr o Abertawe gystadleuaeth *Invent for the Planet* 2023 a gynhaliwyd gan Brifysgol Texas A&M. Mae *Invent for the Planet* yn brofiad dylunio dwys sy'n ennyn diddordeb myfyrwyr mewn prifysgolion gwahanol ledled y byd ac yn eu herio i ddatrys rhai o broblemau mwyaf enbyd y byd mewn 48 awr yn unig. Cafodd y tîm o Abertawe'r dasg o ddatblygu dyfais fforddiadwy a hawdd a allai ddarparu dŵr yfed diogel, a gwnaethant ddatblygu pwmp gwrthdroi osmosis a allai droi dŵr gwenwynig o afonydd yn ddŵr y gellid ei yfed i gymunedau ffermio gwledig.

(Amlinellir rhagor o wybodaeth am ein Hymchwil a'n Mentergarwch ar dudalennau 16–19.)

# DATGANIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL A DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

**Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â'i gweithgareddau yn unol â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch a Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ac yn unol ag egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth).**

**Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o dryloywder, uniondeb ac atebolrwydd, mae'n ymgymryd â'i gweithgareddau mewn modd cyfrifol ac mae ganddi Bolisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd) er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i fynegi pryderon sydd er budd y cyhoedd.**

## CYFANSODDIAD A PHWERAU

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Amlinellir ei hamcanion, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu yn ei Siarter gyfredol ('y Siarter Atodol') a gymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor yn 2007, ac yn ei Statudau ategol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2021. Cofrestrwyd y Brifysgol yn elusen ym mis Hydref 2010 (rhif 1138342).

Mae'r Siarter a'r Statudau'n mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân (y Cyngor, y Senedd a'r Llys), pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

## Y CYNGOR

Y Cyngor, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw'r corff llywodraethu ac felly, hwn yw awdurdod goruchaf y Brifysgol, sy'n golygu bod ganddo atebolrwydd terfynol am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Nodir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Cyngor yn Statud 5, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac am gyllid, ystadau, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn fel arfer ac mae'n arfer ei gyfrifoldebau drwy'r pwyllgorau rheoli gweithredol a sefydlog a nodir isod. Gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Cyngor bum cyfarfod, gan gynnwys un cyfarfod arbennig, a ganolbwyntiodd ar faterion llywodraethu, ariannol a rheoleiddiol. Cynhaliwyd tri o'r cyfarfodydd ar y campws, cynhaliwyd un ar ffurf hybrid, a chynhaliwyd y cyfarfod arbennig o bell.

Mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys aelodau annibynnol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg), aelodau o blith staff a myfyrwyr a benodir yn unol â Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn fwy nag 19 ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor yn aelodau anweithredol lleyg nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, a hysbysebir cyfleoedd i aelodau lleyg yn allanol a chroesewir mynegiannau o ddiddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig. Caiff ceisiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau a'u hasesu yn erbyn y matrics sgiliau a phrofiad presennol. Nid oes unrhyw un o'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am y gwaith maent yn ei wneud ar ran y Brifysgol. Mae aelodau lleyg o'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd ond gellir eu hailbenodi am gyfnod arall o bedair blynedd. Nid oes neb ond aelod lleyg yn gallu ymgymryd â rôl Cadeirydd y Cyngor ac mae'r rôl hon ar wahân i rôl Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-ganghellor. Penodir aelodau o'r Cyngor o blith y staff drwy broses ethol deg ac agored.

Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor wneud datganiad o fuddiannau wrth gael eu penodi i'r Cyngor, i adolygu eu datganiad o leiaf unwaith y flwyddyn, ac i ddiweddaru eu datganiad pryd bynnag y bydd yn newid. Caiff datganiadau eu hadolygu gan Gadeirydd y Cyngor, yn unol â pholisi a gweithdrefn y Brifysgol ynghylch Datganiadau o Fuddiannau er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro posib neu ymddangosiadol, neu os oes, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â hyn yn briodol. Mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor yn cynnal cofrestr o fuddiannau holl aelodau'r Cyngor, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Ar ddechrau holl gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor, gofynnir i'r holl aelodau nodi unrhyw eitemau penodol y gall buddiannau a ddatganwyd effeithio arnynt ac, os oes angen, nid yw aelodau'n cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad perthnasol, a/neu gallant adael y cyfarfod ar yr adeg briodol. Cofnodir unrhyw ddatganiadau a nodwyd a chofnodir cyfraniad yr aelod at eitemau penodol yng nghofnodion y cyfarfod. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r disgrifiad rôl ar gyfer yr Ysgrifennydd i'r Cyngor a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad CAMM, ac mae'n cynnwys datganiad clir am atebolrwydd yr Ysgrifennydd am dynnu materion annibyniaeth neu wrthdaro at sylw'r Cadeirydd.

Gan fod y Brifysgol yn elusen gofrestredig, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac mae aelodau'r Cyngor hefyd yn Ymddiriedolwyr Elusen.





Rhestrir isod aelodau o Gyngor y Brifysgol a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir isod bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Cyngor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Cyngor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Mr Bleddyn Phillips, *Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor* (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 5/5 |
| Syr Roderick Evans, *Dirprwy Ganghellor* (tan 31 Mawrth 2025) | Lleyg | 5/5 |
| Mr Goi Ashmore, *Trysorydd* (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 4/5 |
| Yr Athro Paul Boyle, *Is-ganghellor* (tan 25 Gorffennaf 2029) | Staff | 5/5 |
| Dr Kerry Beynon, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 3/5 |
| Mr Laurence Carpanini, *aelod lleyg cyfetholedig* (o 1 Ionawr 2023) | Lleyg | 3/3 |
| Yr Athro Edward David, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 4/5 |
| Yr Athro Kathryn Monk, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 26 Ionawr 2026) | Lleyg | 4/5 |
| Dr Angus Muirhead, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 20 Mawrth 2024) | Lleyg | 4/5 |
| Ms Elin Rhys, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 5/5 |
| Mrs Marcia Sinfield, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 30 Tachwedd 2024) | Lleyg | 4/5 |
| Yr Athro Keshav Singhal, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 30 Tachwedd 2024) | Lleyg | 3/5 |
| Ms Anne Tutt, *aelod lleyg cyfetholedig* (tan 5 Gorffennaf 2024) | Lleyg | 4/5 |
| Dr Mahaboob Basha, *Penodwyd gan y Staff* (o 1 Gorffennaf 2023) | Staff | 2/2 |
| Mr Heath Davies, *Penodwyd gan y staff* (tan 30 Mehefin 2023) | Staff | 2/3 |
| Mr Adam Jones, *Penodwyd gan y staff* (o 1 Gorffennaf 2023) | Staff | 2/2 |
| Yr Athro Sue Jordan, *Penodwyd gan y staff* (tan 30 Mehefin 2023) | Staff | 3/3 |
| Yr Athro Michelle Lee, *Penodwyd gan y Senedd* (o 1 Gorffennaf 2023) | Staff | 2/2 |
| Yr Athro Nuria Lorenzo-Dus, *Penodwyd gan y Senedd* (tan 30 Mehefin 2023) | Staff | 3/3 |
| Dr Phatsimo Mabophiwa, *Penodwyd gan y Senedd* (o 1 Gorffennaf 2023) | Staff | 2/2 |
| Mr Jonathan Davies, *Penodwyd gan Undeb y Myfyrwyr* (tan 30 Mehefin 2023) | Myfyriwr | 3/3 |
| Miss Abigail Egwuatu, *Penodwyd gan Undeb y Myfyrwyr* (o 1 Gorffennaf 2023) | Myfyriwr | 1/2 |
| Mr Pablo Joshiah, *Llywydd Undeb y Myfyrwyr* (o 1 Gorffennaf 2023) | Myfyriwr | 2/2 |
| Ms Esyllt Rosser, *Llywydd Undeb y Myfyrwyr* (tan 30 Mehefin 2023) | Myfyriwr | 3/3 |

# CÔD LLYWODRAETHU ADDYSG UWCH PWYLLGOR Y CADEIRYDDION PRIFYSGOL (CUC)

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac i ymdrechu'n barhaus i wella ei llywodraethu yn unol ag arfer gorau yn y sector addysg uwch. Datblygwyd strwythur llywodraethu'r Brifysgol i gydweddu â'r egwyddorion a'r arferion a amlinellir yng Nghôd Llywodraethu Addysg Uwch CUC. Comisiynodd y Cyngor Adolygiad Annibynnol o Effeithiolrwydd yn 2023, a gynhaliwyd gan AUA Consulting. Casgliad yr Adolygiad hwn oedd bod y Cyngor yn ymgymryd â'i weithgareddau yn unol â'r Côd Addysg Uwch, y gellid dibynnu i raddau helaeth ar drefniadau llywodraethu'r Brifysgol, a bod y ffordd y cynhaliwyd yr Adolygiad hwn wedi dangos ymrwymiad y Brifysgol i wella ei threfniadau llywodraethu'n barhaus, yn unol â'r arfer gorau a amlinellwyd yn y Côd Addysg Uwch. Nodwyd rhai cyfleoedd i wella a mireinio ac mae'r Cyngor yn ystyried sut gellid rhoi'r rhain ar waith. Mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023, gall y Cyngor adrodd nad oedd unrhyw elfen o'r Côd Llywodraethu nad oedd gweithdrefnau'r Brifysgol yn gyson â hi.

# ADOLYGIAD O LYWODRAETHU PRIFYSGOLION YNG NGHYMRU

Mabwysiadodd y Cyngor yn ffurfiol y Siarter Lywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a'r Ymrwymiad i Weithredu a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 mewn ymateb i Adolygiad CAMM, ac mae'n ymrwymedig i roi'r argymhellion a nodwyd ar waith. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol, nodir rhai o'r datblygiadau allweddol yn 2022/23 isod:

- Mewn perthynas â diwylliant o ddealltwriaeth, parheir i gymryd camau sylweddol i wella diwylliant sefydliadol cadarnhaol, gan gynnwys llofnodi'r Ymrwymiad i Dechnegwyr er mwyn sicrhau amlygrwydd, cydnabyddiaeth, datblygiad a chynaliadwyedd gyrfa ar gyfer technegwyr sy'n gweithio mewn addysg uwch ac ymchwil ym mhob disgyblaeth. Cynhaliwyd arolwg o lwyth gwaith staff yn 2022 a lluniwyd cynllun ymateb sydd wedi cyflwyno camau gweithredu ar unwaith ac wedi nodi tasgau allweddol. Sefydlwyd Pwyllgor Pobl a Diwylliant newydd a chyflwynir diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor. Mae rhaglen drawsnewid y Brifysgol, Ymlaen, yn parhau i ganolbwyntio ar alluogi'r Brifysgol i gyflawni ei gweledigaeth a'i huchelgeisiau drwy gyfres o brosiectau lle mae'r canlyniadau'n canolbwyntio ar ein pobl, gwella gwasanaethau a gwreiddio diwylliant o wella'n barhaus;
- Mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â'i rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol. Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd ar Gytundeb Cydnabyddiaeth newydd a sefydlwyd Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi newydd sy'n hwyluso perthnasoedd a chydweithio rhwng y Brifysgol ac Undebau'r Campws ymhellach. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi sefydlu Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd newydd lle gall cynrychiolwyr yr undebau llafur godi materion gydag aelodau'r Cyngor cyn cyfarfodydd y Cyngor, gan ddisodli'r cyfarfodydd anffurfiol yr oedd Cadeirydd y Cyngor yn eu cynnal gynt. Mae Cadeirydd y Cyngor yn parhau i gwrdd yn anffurfiol â swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr. Cynhaliwyd cyfarfodydd o Lys y Brifysgol ym mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023 ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o Lys y Brifysgol yn ystod y flwyddyn nesaf i sicrhau ei fod yn darparu fforwm effeithiol i'r gymuned ehangach ymgysylltu â'r Brifysgol;
- Mewn perthynas â sicrhau goruchwyliaeth strategol effeithiol, cytunodd yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth ar Gynllun Blynyddol ar gyfer 2022/23, gan nodi 42 gam gweithredu blaenoriaeth sy'n cwmpasu'r themâu craidd ar gyfer y Brifysgol, ynghyd â chyfres o Amcanion Sefydliadol i fynd i'r afael â hwy yn y flwyddyn bresennol. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu â'r Cyngor ynghyd ag adroddiadau cynnydd sy'n galluogi'r Cyngor i graffu ar berfformiad a'i fonitro'n fwy effeithiol yn erbyn cynllun strategol y Brifysgol;
- Mewn perthynas â chynllunio dilyniant, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, sy'n gyfrifol am gynllunio dilyniant, wedi adolygu'r canlyniadau ac wedi cyflwyno argymhellion i'r Cyngor yn eu cylch: disgrifiadau rolau swyddogion statudol, trefniadau ar gyfer penodi Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor newydd ac aelodau lleyg o'r Cyngor ac aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor. Mae hefyd wedi cynnal dadansoddiad o fylchau mewn sgiliau a phrofiad y Cyngor i sicrhau ei fod yn parhau i feddu ar y sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau;
- Mewn perthynas ag amrywiaeth a chynhwysiant, mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac, yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau wedi adolygu'r canfyddiadau o arfer gorau ar draws y sector er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u gwreiddio yn y strwythur penderfynu, ac mae'n gweithio i lunio Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n gyson â'r arweiniad a dderbyniwyd gan Advance HE, Adolygiad CAMM, Côd Llywodraethu Addysg Uwch CUC ac arfer gorau ar draws y sector;
- Mewn perthynas â datblygiad llywodraethwyr, cyflwynwyd porth newydd ar gyfer y bwrdd er mwyn cefnogi aelodau'r Cyngor a phwyllgorau'r Cyngor ac mae gan y Cyngor, drwy ei Bwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau, broses sefydlu strwythuredig i gefnogi holl aelodau newydd y Cyngor, yn ogystal â hyfforddiant a chymorth mewnol ac allanol ar gyfer aelodau. Mae'n parhau i adolygu'r trefniadau hyn i sicrhau eu bod yn gyson ag arfer yn y sector ac unrhyw adborth ac argymhellion o'r Adolygiad Annibynnol o Effeithiolrwydd Llywodraethu yn 2023.



# Y SENEDD

Y Senedd, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw awdurdod academaidd y Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Senedd yn Ordinhad 4, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Cadeirydd y Senedd yw'r Is-ganghellor ac, o fis Gorffennaf 2022 tan fis Mawrth 2023, roedd ei haelodaeth yn cynnwys y Profost, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion/Deoniaid Gweithredol, yr holl staff athrawol, Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu a Deoniaid Cysylltiol y Cyfadrannau, 14 cynrychiolydd a etholir o blith y staff nad ydynt yn athrawon ac wyth myfyriwr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr. Ym mis Mawrth 2023, gan gyfeirio at ganlyniadau adolygiad o effeithiolrwydd y Senedd a gynhaliwyd yn 2022, adolygwyd aelodaeth y Senedd ac fe'i diweddarwyd i greu Senedd lai â mwy o ffocws. Mae aelodaeth newydd y Senedd yn cynnwys yr Is-ganghellor (Cadeirydd), y Profost, y Dirprwy Is-gangellorion a'r Dirprwy Is-gangellorion/Deoniaid Gweithredol, y Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol, y Dirprwy Ddeoniaid Gweithredol, Deoniaid Cysylltiol y Cyfadrannau, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Gweithrediadau Cyfadrannau, Gwasanaethau Academaidd, Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academi Hywel Teifi, ac aelodau o blith y myfyrwyr, ynghyd â 24 o aelodau etholedig o blith y staff Athrawol a staff academaidd nad ydynt yn Athrawon yn y Cyfadrannau.

Mae'r Senedd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Fodd bynnag, gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Senedd bum cyfarfod, gan gynnwys un cyfarfod arbennig. Cynhaliwyd tri chyfarfod ar ffurf hybrid, cynhaliwyd un ar y campws a chynhaliwyd y cyfarfod arbennig o bell. Canolbwyntiodd busnes y Senedd ar roi ar waith argymhellion o'r adolygiad o effeithiolrwydd y Senedd mewn perthynas ag aelodaeth y Senedd, ei chylch gorchwyl, ei gweithrediadau, ei hamlygrwydd a chyfathrebu, gan gynnwys adolygu aelodaeth y Senedd a chyflwyno rhaglen sefydlu a llawlyfr newydd ar gyfer aelodau'r Senedd; adolygu prosesau a fframwaith sicrhau ansawdd y Brifysgol a Datganiad Blynyddol o Sicrhau Ansawdd y Llywodraethwr; adolygu fframweithiau rheoleiddiol y Brifysgol yn enwedig mewn perthynas ag asesu, marcio ac adborth; a pherfformiad y Brifysgol yn y tablau cynghrair a thablau eraill o brifysgolion, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Derbyniodd y Senedd adroddiadau rheolaidd hefyd gan ei Phwyllgorau Addysg, Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr; Ymchwil, Arloesi ac Effaith; ac Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil, pwyllgorau a sefydlwyd er mwyn ei chynorthwyo i gyflawni ei chyfrifoldebau, a derbyniodd ddiweddariadau ar faterion eraill, gan gynnwys recriwtio myfyrwyr, prosiectau rhyngwladol, mentrau pwysig a'r dirwedd o ran polisi a'r sector.

# Y LLYS

Mae'r Llys, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yn gorff mawr a ffurfiol i raddau helaeth, sy'n gweithredu fel fforwm i'r gymuned ehangach ymgysylltu â'r Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Llys yn Ordinhad 6, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Canghellor y Brifysgol yw Cadeirydd y Llys a daw'r rhan fwyaf o'i aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol (academaidd a staff anacademaidd) a'r myfyrwyr. Fel arfer mae'r Llys yn cwrdd unwaith y flwyddyn ond, yn sgîl gohirio cyfarfod y flwyddyn flaenorol oherwydd pandemig Covid-19, cyfarfu'r Llys ddwywaith yn ystod 2022/23, ar 4 Hydref 2022 i ystyried Adolygiad a Datganiadau Ariannol Blynyddol y Brifysgol ar gyfer 2020/21 ac ar 28 Mawrth 2023 i ystyried Adolygiad a Datganiadau Ariannol Blynyddol y Brifysgol ar gyfer 2021/22. Cynhaliwyd y ddau gyfarfod ar y campws.

# SWYDDOG ATEBOL

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i'r Cyngor am gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn dda y Brifysgol. Yn ôl telerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a CCAUC, yr Is-ganghellor yw swyddog atebol y Brifysgol ac, yn y rhinwedd honno, gellir gorchymyn iddo ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru ochr yn ochr â Phrif Weithredwr CCAUC.

# YR UWCH-DÎM ARWEINYDDIAETH

Fel prif weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor gyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a rhoi cyfeiriad i ethos y sefydliad. Mae aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond y Cyngor sydd ag awdurdod terfynol. Mae aelodaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan yr Is-ganghellor, yn cynnwys y Profost, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion/Deoniaid Gweithredol a'r Prif Swyddog Ariannol. Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn cwrdd unwaith yr wythnos ac mae'n ystyried materion strategol a gweithredol.

## PWYLLGORAU

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor llywodraethu, sy'n ymdrin â llawer o'i waith manwl i ddechrau: Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg; y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Caiff pob un o'r pwyllgorau hyn ei gadeirio gan aelodau lleyg o'r Cyngor ac aelodau lleyg yw'r rhan fwyaf o'u haelodau. Mae uwch-swyddogion o'r Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae'r holl bwyllgorau'n hysbysu'r Cyngor am eu penderfyniadau. Mae ganddynt gyfansoddiad ffurfiol a chaiff eu chylchoedd gorchwyl a'u haelodaeth eu cymeradwyo gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Diffinnir rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn Ordinhadau'r Brifysgol ac mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r rhan fwyaf o Bwyllgorau'r Cyngor.

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO, SICRWYDD A RISG

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas ag amgylchedd sicrwydd a rheoli cyfan y Brifysgol. Ei brif gyfrifoldebau yw sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol, gofynion y Brifysgol a gofynion rheoleiddio allanol mewn perthynas â'i gweithgareddau ariannol ac anariannol ac mewn perthynas â'r materion yn ei gylch gorchwyl, ac mae gan y Pwyllgor yr awdurdod i wneud argymhellion i'r Brifysgol, ei hunedau trefniadaethol a'i haelodau.

Cadeirir y Pwyllgor gan aelod lleyg o'r Cyngor. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar reolwyr y Brifysgol, er bod aelodau o'r uwch-dîm gweithredol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen ac, yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, ni cheir croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhestrir isod yr aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu) isod.

| Aelod o'r Pwyllgor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Dr Kerry Beynon, *Aelod Cyfetholedig a Chadeirydd y Pwyllgor* | Lleyg | 4/4 |
| Yr Athro Kathryn Monk, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 4/4 |
| Mrs Marcia Sinfield, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 3/4 |
| Ms Anne Tutt, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 4/4 |
| Mrs Alison Vickers, *Aelod Lleyg Cyfetholedig* | Lleyg | 1/1 |

Fel arfer mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod, dau fel cyfarfodydd hybrid a dau o bell. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar drafod natur a chwmpas yr archwiliad â'r archwilwyr allanol, nodi'r Cynllun Archwilio blynyddol a derbyn adroddiadau ar gynnydd wrth ei weithredu; trafod cwmpas yr archwiliad mewnol â'r Cyfarwyddwr Cysylltiol, cymeradwyo'r cynllun a derbyn adroddiadau ar waith i'w weithredu; derbyn adroddiadau archwilio mewnol a monitro gwaith i roi'r argymhellion mewn perthynas â'r archwiliad ar waith; adolygu'r Map Sicrwydd newydd; adolygu a derbyn adroddiadau ar y trefniadau rheoli risg, y gofrestr risgiau a'r prif risgiau; adolygu effeithiolrwydd y trefniadau archwilio allanol a mewnol; adolygu Llythyr Risg Sefydliadol CCAUC; adolygu llythyr rheoli'r archwilwyr allanol, adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol ac ymatebion y rheolwyr, a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor; a goruchwylio polisïau'r Brifysgol sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol ac ymddygiadau eraill, a derbyn adroddiadau am unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yn unol â'r polisïau hyn. Hefyd, cyfarfu'r Pwyllgor yn rheolaidd â'r Archwilwyr Allanol, y Cyfarwyddwr Cysylltiol ar gyfer yr archwiliad mewnol, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu a'r Prif Swyddog Ariannol gan roi cyfle iddynt drafod unrhyw faterion preifat.



## Y PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn goruchwylio ac yn monitro iechyd ariannol y Brifysgol ar ran y Cyngor. Ei brif gyfrifoldebau yw (i) sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig a hir y Brifysgol drwy adolygu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rheolaidd, (ii) sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu system rheoli ariannol mewnol gadarn, (iii) monitro perfformiad a chydymffurfiaeth ariannol, (iv) cynnal trosolwg ariannol o bob strategaeth berthnasol a (v) chwarae rôl feirniadol wrth gymhwyso egwyddorion prawf a her i bob penderfyniad ariannol. Mae'r Pwyllgor yn cynghori ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phob mater ariannol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw Trysorydd y Brifysgol. Penodir holl aelodau lleyg y Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Yn unol â Chôd Rheoli Ariannol CCAUC, nid oes croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor isod (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Pwyllgor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Mr Goi Ashmore, *Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor* | Lleyg | 6/6 |
| Yr Athro Paul Boyle, *Is-ganghellor* | Staff | 5/6 |
| Yr Athro Edward David, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 5/6 |
| Dr Angus Muirhead, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 5/6 |
| Mr Bleddyn Phillips, *Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor* | Lleyg | 5/6 |
| Mr Steve Smith, *Aelod Lleyg Cyfetholedig* | Lleyg | 5/6 |

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor chwe chyfarfod, gan gynnwys un cyfarfod arbennig. Cynhaliwyd pob cyfarfod ar y campws ac eithrio'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd o bell. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu ac argymell i'r Cyngor ragamcanion ariannol y Brifysgol, achosion busnes ar gyfer partneriaethau rhanbarthol a byd-eang a'r Gofrestr Terfynau Ariannol ddiwygiedig ac adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor wybodaeth am gynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, rheolaeth risgiau ariannol allweddol, prosesau cynllunio busnes, blaenoriaethau a chyfleoedd buddsoddi strategol, trefniadau'r cynlluniau pensiwn, rhagamcanion ariannol is-gwmnïau'r Brifysgol, cyfrifon Undeb y Myfyrwyr ac adroddiadau TRAC.

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ENWEBIADAU

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n adolygu trefniadau llywodraethu'r Brifysgol ac yn cynghori'r Cyngor arnynt, gan sicrhau bod y Brifysgol yn defnyddio arfer gorau ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu allanol. Ei brif gyfrifoldebau yw (i) sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu allanol, (ii) adolygu aelodaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau gan sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau a phrofiad i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau, (iii) adolygu dogfennau llywodraethu'r Brifysgol ac argymell newidiadau iddynt, (iv) adolygu a chynghori ar brosesau recriwtio a phenodi aelodau lleyg y Cyngor a'i bwyllgorau a gwneud argymhellion ynghylch y rhain, (v), adolygu a chynghori ar gynllunio am ddilyniant a gwneud argymhellion ar hyn, (vi) goruchwylio sefydlu, datblygu ac arfarnu aelodau'r Cyngor, (vii) adolygu Cofrestr Buddiannau'r Cyngor a sicrhau bod proses gadarn ar waith i nodi gwrthdaro posib rhwng buddiannau ac (viii) adolygu amrywiaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Cadeirydd y Pwyllgor yw Cadeirydd y Cyngor. Penodir holl aelodau lleyg y Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Rhestrir isod yr aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor isod (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Pwyllgor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Mr Bleddyn Phillips, *Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Pwyllgor* | Lleyg | 5/5 |
| Yr Athro Paul Boyle, *Is-ganghellor* | Staff | 5/5 |
| Syr Roderick Evans, *Dirprwy Ganghellor* | Lleyg | 4/5 |
| Yr Athro Elwen Evans, *CB, Penodwyd gan y Senedd* (tan 31 Mai 2023) | Staff | 3/5 |
| Yr Athro Ryan Murphy, *Penodwyd gan y Senedd* | Staff | 5/5 |
| Ms Esyllt Rosser, *Llywydd Undeb y Myfyrwyr* (tan 30 Mehefin 2023) | Myfyriwr | 2/4 |
| Mr Pablo Josiah, *Llywydd Undeb y Myfyrwyr* (o 1 Gorffennaf 2023) | Myfyriwr | 1/1 |
| Ms Elin Rhys, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 3/5 |
| Yr Athro Keshav Singhal, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 5/5 |
| Ms Anne Tutt, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 4/5 |

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod, gan gynnwys un cyfarfod arbennig. Cynhaliwyd pob cyfarfod ar ffurf hybrid ac eithrio'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd o bell. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu trefniadau cynllunio dilyniant ac argymell i'r Cyngor newidiadau i ddisgrifiadau rolau'r swyddogion, y broses benodi ar gyfer Is-ganghellor newydd a Chadeirydd y Cyngor, a phenodi'r rhain, ailbenodi'r Is-ganghellor a phenodi aelod lleyg newydd o'r Cyngor; adolygu ac argymell i'r Cyngor gynigion ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol o Effeithiolrwydd Llywodraethu 2023; adolygu ac argymell i'r Cyngor newidiadau i gylch gorchwyl ac aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor gan gyfeirio'n benodol at y matrics sgiliau a phrofiad; sefydlu Fforwm Ymgysylltu ar y cyd y Cyngor a'i gylch gorchwyl; a newidiadau i'r Ordinhadau a'r weithdrefn ar gyfer adrodd i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau difrifol. Yn ogystal, diwygiodd y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Cyngor a derbyniodd adroddiadau am ymgorffori Undeb y Myfyrwyr, arfer gorau ar draws y sector mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn benodol mewn perthynas â gwella amrywiaeth aelodaeth y bwrdd ac amrywiaeth Pwyllgorau'r Cyngor, y gofrestr o ddatganiadau o fuddiannau a phroses arfarnu Cadeirydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor.



# Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC) ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu strategaeth wobrwyo'r Brifysgol a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau staff ar y lefel uchaf, gan gynnwys yr Is-ganghellor. Ei brif gyfrifoldebau yw (i) datblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol ar gyfer uwch-aelodau staff y Brifysgol, (ii) adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, gan ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth y sector prifysgolion a sectorau eraill fel y bo'n briodol, (iii) cytuno ar fframwaith gwaith blynyddol ac (iv) adolygu ac adrodd am gynnydd i'r Cyngor drwy ei adroddiad blynyddol sy'n dryloyw ac yn bodloni gofynion llywodraethu da.

Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ei gadeirio gan aelod lleyg o'r Cyngor ac mae'n cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar y Brifysgol. Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn mynychu'r holl gyfarfodydd ac mae uwch-swyddogion eraill yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Nid yw'r Is-ganghellor yn bresennol yn ystod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch ei gydnabyddiaeth ariannol ei hun ac nid yw'n cyfrannu at y rhain. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor.

Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor isod (wedi'i fynegi fel nifer cyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Pwyllgor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Dr Angus Muirhead, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor* | Lleyg | 4/4 |
| Yr Athro Edward David, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 4/4 |
| Syr Roderick Evans, *Dirprwy Ganghellor* | Lleyg | 4/4 |
| Yr Athro Kathryn Monk, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 3/4 |
| Mr Bleddyn Phillips, *Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor* | Lleyg | 4/4 |
| Ms Elin Rhys, *Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor* | Lleyg | 3/4 |

Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod. Cynhaliwyd tri o'r rhain ar ffurf hybrid a chynhaliwyd un o bell. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth aelodau newydd o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ac uwch-aelodau o'r staff; y broses cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2022 a 2023; cymeradwyo'r dyfarniad costau byw i'r Is-ganghellor a nodi'r dyfarniad ar gyfer yr holl gydweithwyr eraill yn unol â'r codiadau cyflog a roddwyd ar waith yn dilyn trafodaethau cyflog 2022/23 a gynhaliwyd gan UCEA ar ran sefydliadau addysg uwch; cymeradwyo Datganiad Cydnabyddiaeth Ariannol sy'n dryloyw, sy'n cyd-fynd ag argymhellion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-swyddogion Addysg Uwch ac sy'n bodloni gofynion llywodraethu da; nodi dyrchafiadau drwy'r weithdrefn Cadw Dawn Eithriadol; a chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer unrhyw drefniadau diswyddo cyflogeion ar radd 11 ac am daliadau sy'n fwy na £60,000 a chyfrifoldeb am y broses hon.

## DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol ar waith i gefnogi'r Brifysgol wrth gyflawni ei nodau, ei hamcanion strategol a'i pholisïau, gan ddiogelu'r cyhoedd a'r cyllid a'r asedau y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar risg ac fe'i cynlluniwyd i reoli'r risg o fethu cyflawni amcanion strategol yn hytrach na dileu'r risg; felly, mae'r system yn darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddywediad neu golled materol. Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd iddo yn Siarter a Statudau'r Brifysgol a'r fframwaith rheoleiddiol y mae'r Brifysgol yn gweithredu ynddo.

Mae elfennau allweddol o system nodi risg a rheoli risgiau'n effeithiol y Brifysgol yn cynnwys y canlynol:

- Cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion y sefydliad drwy'r broses gynllunio flynyddol;
- Cynnwys pob risg, gan gynnwys o ran llywodraethu, rheoli, ansawdd, enw da a risg ariannol, yng Nghofrestr Risgiau'r Brifysgol sy'n cael ei rheoli a'i chynnal gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol drwy bolisi ac ymagwedd a amlinellir yn glir. Mae'r Gofrestr Risg yn creu portffolio cytbwys o risgiau sy'n canolbwyntio ar y prif risgiau;
- Gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n troi'n realiti a'u heffaith fel rhan o'r un broses, a sefydlu rheolaethau lliniaru;
- Rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n cynnwys risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol;
- Ymgorffori prosesau asesu risg a rheoli mewnol yng ngweithrediadau parhaus pob uned;
- Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnol a risg;
- Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr archwiliad mewnol a chaiff y cynllun ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg;
- Adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r broses o nodi a gwerthuso risg a'r adolygiad rheolaeth;
- Caiff ymarferion rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau y system rheoli mewnol eu llywio gan Archwilwyr Mewnol proffesiynol y Brifysgol, gan arwain at gamau gweithredu wedi'u monitro lle bynnag y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol brosesau ffurfiol ar waith i werthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan y sefydliad yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys nodi'r mathau o risgiau drwy ymagwedd o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny, ar lefel gorfforaethol ac adrannol. Caiff y rhain eu blaenoriaethu ar sail effaith bosib a'r tebygolrwydd y byddant yn codi, yn unol â pholisi rheoli risg sefydledig.

Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn monitro risgiau ynghyd â'r mesurau rheoli a'r camau lliniaru cysylltiedig yn barhaus. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariad am risgiau ym mhob un o'i gyfarfodydd, mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariadau am risgiau perthnasol yn rheolaidd, a chyflwynir adroddiadau ac argymhellion priodol a'r gofrestr risg i'r Cyngor.

Mae gan y Brifysgol broses ar gyfer ymdrin â materion rheoli arwyddocaol, sy'n cynnwys hysbysu Cadeirydd y Cyngor, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac aelodau angenrheidiol o'r uwch-staff ar unwaith, hysbysu CCAUC a'r Comisiwn Elusennau hefyd ac unrhyw awdurdod perthnasol arall, fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar natur y broblem.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL AM BOLISÏAU TÂL

**Mae gan Brifysgol Abertawe fframwaith ar gyfer cydnabod a gwobrwyo ei holl gyflogeion, er mwyn cefnogi gweledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol.**

**Diben y Datganiad Blynyddol ar Bolisïau Tâl yw nodi polisïau'r Brifysgol ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflogau a chydnabyddiaeth ariannol ei gweithlu. Mae polisïau, gweithdrefnau ac arferion tâl a graddio'r Brifysgol ar gael i bob cyflogai.**

**Yn ogystal â chydymffurfio â'r holl arferion cyfrifyddu, sy'n gofyn i ni lunio adroddiad cydnabyddiaeth ariannol blynyddol llawn, yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ragor o ddisgwyliadau o ran tryloywder cydnabyddiaeth ariannol i gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Disgrifiodd Llywodraeth Cymru'n benodol yr wybodaeth i'w chynnwys mewn Datganiad Blynyddol ar Bolisïau Tâl, ochr yn ochr â'r Datganiadau Ariannol Blynyddol.**

**Mae'r Brifysgol hefyd yn sicrhau y rhoddir egwyddorion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-staff Addysg Uwch mis Tachwedd 2021 CUC (Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol) 2021 ar waith drwy gydol ei phrosesau a'i harferion, ac yn cyflwyno adroddiad am gydnabyddiaeth ariannol uwch-staff bob blwyddyn i ddangos hyn i Fwrdd y Llywodraethwyr.**

## UWCH-STAFF

Diffinnir uwch-staff fel yr Is-ganghellor a holl aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ynghyd â swyddogion Gradd 10A a Gradd 11 (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol ac Athrawon).

## Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol ac am bennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau'r Is-ganghellor ac aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau sy'n ei alluogi i oruchwylio tâl ym mhob agwedd arall ar y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn penderfynu ar recriwtio, buddion ac unrhyw becyn cydnabyddiaeth ariannol arfaethedig, gan gynnwys unrhyw godiadau cyflog blynyddol i'r Is-ganghellor ac uwch-staff eraill.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn un o bwyllgorau sefydlog y Cyngor, sef corff llywodraethu'r Brifysgol, ac mae ei aelodau'n cynnwys chwe llywodraethwr lleyg, gan gynnwys dau Ddirprwy Ganghellor y Brifysgol.

## ADRODD AM GYFLOGAU UWCH-STAFF

Cyhoeddir cyflog yr Is-ganghellor, ynghyd â data anhysbys am gyflogau uwchlaw £100,000, yn yr Adolygiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

## CYTUNDEB FFRAMWAITH CENEDLAETHOL Y DU

Telir yr holl gyflogeion ar raddau 1 – 10 yn ôl graddfa y cytunir arni'n genedlaethol yn y DU, sy'n cael ei negodi bob blwyddyn fel rhan o gyd-drafodaethau am gyflogau rhwng UCEA (Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau) a'r pum undeb llafur addysg uwch (UCU (Undeb Prifysgolion a Cholegau), Unite, UNSAIN, EIS a'r GMB) ar ran nifer o sefydliadau addysg uwch yn y DU.

Yn ogystal ag unrhyw godiadau a bennir drwy'r cyd-drafodaethau am gyflogau, mae'r holl aelodau staff o raddau 1 i 10 yn derbyn cynyddrannau awtomatig bob blwyddyn nes iddynt gyrraedd brig eu gradd.

Pennir unrhyw dâl arall drwy feincnodi gyda sefydliadau tebyg yn y sector ac yn ôl amodau'r farchnad.



## MEINCNODI

Defnyddir arolwg Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-staff UCEA ac Arolwg Cyflogau Staff Addysg Uwch XpertHR i feincnodi cynigion o ran cyflogau wrth recriwtio ac yn ystod adolygiadau perfformiad blynyddol.

Defnyddir arolwg blynyddol CUC o dâl ac amodau Is-gangellorion hefyd pan fydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor.

## CYFLOG SY'N SEILIEDIG AR BERFFORMIAD

***Graddau 1 i 10:*** Nid oes unrhyw drefniadau cyflog sy'n seiliedig ar berfformiad i gydweithwyr ar raddau 1 i 10 ar golofn gyflog genedlaethol y DU, ond fel y'i nodir uchod, mae'r strwythur cyflogau'n cynnwys cynyddrannau blynyddol i uchafswm ym mhob gradd.

***Gradd 10A, Gradd 11 a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth:*** Caiff cydnabyddiaeth ariannol cydweithwyr ar Radd 10A, Gradd 11 ac aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ei hadolygu bob blwyddyn, gan ddefnyddio proses deg a thryloyw sy'n adlewyrchu perfformiad pob unigolyn, yng nghyd-destun perfformiad y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn penderfynu ar lefel y dyfarniadau, gan ystyried data perthnasol y farchnad[1].

***Yr Is-ganghellor:*** Mae Cadeirydd y Cyngor yn gyfrifol am broses cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, gan gynnwys penderfynu ar berfformiad ac argymell gwobr cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr Is-ganghellor i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau y caiff unrhyw godiadau cyflog i uwch-staff eu rhoi ar waith yn unol â therfyn cyllideb fforddiadwy a ddiffinnir ymlaen llaw.

[1]Pennir cyflogau academyddion clinigol dan drefniadau ar wahân yn y GIG.

## CYDRADDOLDEB

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i roi cyfle cyfartal i'w holl staff o ran taliadau, cyflog a chynnydd gyrfaol, o fewn fframwaith sy'n deg, yn dryloyw ac yn gyson, fel y'i hadlewyrchir yn ei strwythurau tâl a graddio.

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae wedi bod yn gyflogwr sy'n talu Cyflog Byw Gwirioneddol ers 1 Ebrill 2019, gan olygu bod cyflogau ein cydweithwyr, yn enwedig y rhai hynny ar y cyflogau isaf, yn bodloni costau sylfaenol byw yn y DU a Llundain yn ôl diffiniad y Living Wage Foundation.

Mae'r Brifysgol yn cymharu cyflogau grwpiau amrywiol ac yn monitro tueddiadau o ran cyflogau'r grwpiau hynny'n rheolaidd, gan gynnwys adroddiadau blynyddol am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn adolygu adroddiadau blynyddol am gynnydd ar ran Cyngor y Brifysgol.

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL ABERTAWE AM YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

## ADRODDIAD AM YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Abertawe ("y Brifysgol") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023, sy'n cynnwys Datganiadau'r Grŵp a'r Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, Datganiadau o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a Datganiad y Grŵp o Lifoedd Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2023, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion y Grŵp a'r Brifysgol, a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn a llifoedd arian y Grŵp, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (argraffiad 2019); ac
- Wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail ein barn

Fe'n penodwyd yn archwilydd dan Siartrau a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn adrodd yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â gofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). Rydym yn credu bod y dystiolaeth a gafwyd yn yr archwiliad yn sail ddigonol a phriodol am ein barn.

### Busnes gweithredol

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad yw'n bwriadu datod y Grŵp na'r Brifysgol, na rhoi'r gorau i weithrediadau, a'i fod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd materol a allai fod wedi peri amheuaeth sylweddol ynghylch eu gallu i barhau i fod yn fusnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod y busnes gweithredol").

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r Cyngor, gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp a dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu eu gallu i barhau i weithredu dros gyfnod y busnes gweithredol.

Ein casgliadau'n seiliedig ar y gwaith hwn:

- Rydym yn ystyried bod defnydd y Cyngor o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- Nid ydym wedi nodi ansicrwydd materol, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor nad oes ansicrwydd materol, ynghylch digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, beri amheuaeth sylweddol am allu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau i fod yn fusnes gweithredol am gyfnod y busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol a chan y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â phenderfyniadau a oedd yn rhesymol pan y'u gwnaed, nid yw'r casgliadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

### Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i'w canfod

I nodi risgiau camddywediad materol o ganlyniad i dwyll (risgiau o dwyll), gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu gynnig cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r archwilwyr mewnol ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio fewnol, a sianel y grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll a wnaed, a amheuir neu a honnir.
- Darllen Cofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom gyfleu risgiau o dwyll a nodwyd i'r tîm archwilio cyfan a pharhau i fod yn wyliadwrus o unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Yn unol â gofynion safonau archwilio, a chan ystyried pwysau posib i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn ymgymryd â gweithdrefnau i ymdrin â'r risg y bydd rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau a'r risg y cydnabyddir refeniw mewn modd twyllodrus, yn enwedig y risg na chydnabyddir incwm ymchwil yn unol ag amodau a thelerau perthnasol grantiau a'r risg y gall rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol o dwyll.

Wrth bennu gweithdrefnau'r archwiliad, gwnaethom ystyried canlyniadau ein gwaith i werthuso a phrofi effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau rheoli risg twyll ledled y Grŵp.

Roedd y gweithdrefnau yr ymgymerwyd â hwy'n cynnwys:

- Nodi cofnodion mewn dyddiaduron trafodiadau i'w profi'n seiliedig ar y meini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â'r ddogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys dyddiaduron refeniw a gafodd eu postio i gyfuniadau cyfrif anarferol.
- Cadarnhau bod incwm ymchwil a gydnabyddir yn briodol yn seiliedig ar gytundeb sylfaenol y grant a'r gwariant ymchwil cyfatebol.

### Nodi risgiau camddywediad materol o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau ac ymateb i'r rhain

Nodwyd elfennau o gyfreithiau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol o'n profiad cyffredinol o fasnach a'r sector, a thrwy drafod â Bwrdd y Llywodraethwyr a rheolwyr eraill (yn unol â safonau archwilio), a thrafodwyd y polisïau a'r gweithdrefnau ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau â Bwrdd y Llywodraethwyr a rheolwyr eraill.

Gwnaethom gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau a nodwyd i'n tîm cyfan a pharhau i fod yn wyliadwrus o unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaeth drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosib y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth ynghylch adrodd ariannol, trethi, pensiynau, elusennau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, gan gynnwys y cyfarwyddyd ynghylch cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a gwnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau cysylltiedig y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfiaeth gael effaith faterol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, drwy ddirwyon neu gyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Gwnaethom nodi mai'r agweddau canlynol sydd fwyaf tebygol o gael y cyfryw effaith: cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol addysg uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gydnabod bod gweithgareddau'r Grŵp yn cael eu rheoleiddio. Mae safonau archwilio'n cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol o ran nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoliadol a chyfreithiol, os oes rhywbeth arall. Felly, os na ddatgelir toriad o reoliadau gweithredol i ni neu os nad yw'n amlwg o ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y toriad hwnnw.

### Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu doriadau o gyfreithiau neu reoliadau

O ganlyniad i gyfyngiadau cynhenid archwiliad, ceir risg anochel na fyddwn o bosib wedi datgelu rhai camddywediadau materol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po hwyaf y bo'r amser rhwng y diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a'r digwyddiadau a'r trafodiadau a mae'r datganiadau ariannol yn eu disgrifio, lleiaf tebygol y bo'r gweithdrefnau, sy'n gyfyngedig yn eu hanfod, o'i nodi.

Ar ben hynny, fel yn achos unrhyw archwiliad, parhaodd risg uwch o beidio â chanfod twyll, gan y gall ymwneud â chynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio neu anwybyddu rheolaethau mewnol. Llunnir ein gweithdrefnau archwilio i ganfod camddatganiad materol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

### Gwybodaeth arall

Mae'r Cyngor (ei aelodau yw Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennau) yn gyfrifol am yr wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr wybodaeth yn yr Adolygiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd amdanynt. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac, ac eithrio'r hyn a nodwyd yn eglur isod, unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth ynddi, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol, wedi'i cham-ddweud yn faterol neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth ein harchwiliad. Mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os:

- Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw'n unig, rydym wedi nodi camddywediadau materol yn yr wybodaeth arall; neu
- Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir ar dudalennau 2 i 52 (sy'n cynnwys Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw agwedd faterol â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

### Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt drwy eithriad

Yn unol â Deddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os ydym o'r farn:

- Nad yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- Nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- Nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Fel yr esbonnir mewn modd mwy cyflawn yn ei ddatganiad ar dudalen 57, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg; penderfynu ar y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn ei dyb er mwyn galluogi datganiadau ariannol i gael eu paratoi heb gamddatganiad materol, boed hynny drwy dwyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-brifysgol i barhau i fod yn fusnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod yn bwriadu datod y Grŵp neu'r rhiant-brifysgol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes dewis realistig amgen ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol heb gamddywediad materol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyflwyno ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol bob amser yn canfod camddywediad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddywediadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn faterol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd y mae defnyddwyr yn eu gwneud yn seiliedig ar y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC): **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**.

## ADRODD AM OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLIADOL ERAILL


Mae'n ofynnol i ni adrodd am y materion canlynol a bennir yng Nghôd Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (a ddaeth i rym ar 1 Awst 2017) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r cyfarwyddyd ynghylch cyfrifon i sefydliadau addysg uwch ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("y cyfarwyddyd ynghylch cyfrifon").

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- Mae cyllid o ba ffynhonnell bynnag a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael ei ddefnyddio'n briodol at y dibenion hynny a'i reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- Mae incwm, lle y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 côd rheolaeth ariannol CCAUC ("FMC");
- Mae grantiau'r Cyngor Cyllido wedi'u rhoi ar waith yn unol â'r amodau a thelerau sy'n gysylltiedig â hwy, a'u defnyddio at y dibenion y'u derbyniwyd ar eu cyfer, gan gynnwys yr amodau a thelerau o ran cyllid ar gyfer 2022/23; a
- Bodlonwyd gofynion cyfarwyddyd CCAUC ynghylch cyfrifon.

## DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY RYDYM YN GYFRIFOL

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig yn unol ag Adran 4 Siartrau a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau o dan adran 154 y Ddeddf honno. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio fel y gallem ddatgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn atebol i unrhyw un heblaw am y Brifysgol a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, yr adroddiad hwn, na'r farn rydym wedi ei ffurfio.



**Rees Batley**
**ar ran KPMG LLP, yr Archwilydd Statudol**

*Cyfrifwyr Siartredig*

*Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu fel archwiliwr yng nghyd-destun adran 1212 Deddf Cwmnïau 2006*
*66 Queen Square*
*Bryste*
*BS1 4BE*

28 November 2023



# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR O RAN YR ADOLYGIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adolygiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion y telerau a'r amodau o ran cyllid a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y cyfarwyddyd i sefydliadau addysg uwch ynghylch cyfrifon ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd gan CCAUC, y côd rheolaeth ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu a chyfraith cymwys y DU (arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102, sef y safon adrodd ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gofynion Deddf Elusennau 2011. Yn ôl y telerau a'r amodau o ran cyllid, mae hefyd angen i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (argraffiad 2019), er mwyn cydymffurfio â gofynion y cyfarwyddyd i sefydliadau addysg uwch ynghylch cyfrifon ar gyfer 2022/23 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u colledion a newidiadau i'w cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi holl ddatganiadau'r Grŵp a'r rhiant-brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau a llunio amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- Datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu'r DU a'r datganiad o'r arfer a argymhellir ai peidio, yn amodol ar unrhyw amrywiadau perthnasol a gafodd eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol;
- Asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-brifysgol i barhau i fod yn fusnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a
- Defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod yn bwriadu datod y Grŵp neu'r rhiant-brifysgol neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes dewis realistig amgen ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol i ddangos ac esbonio trafodiadau'r Brifysgol a datgelu'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-brifysgol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfynu ar y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn ei dyb er mwyn galluogi datganiadau ariannol i gael eu paratoi heb gamddatganiad materol, boed hynny drwy dwyll neu wall, ac mae ganddo gyfrifoldeb am gymryd y camau sydd ar gael iddo, a hynny'n rhesymol, i ddiogelu asedau'r Grŵp ac atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau:

- Bod cyllid o ba ffynhonnell bynnag a weinyddwyd gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael ei ddefnyddio'n briodol at y dibenion hynny a'i reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- Bod incwm, lle y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 côd rheolaeth ariannol CCAUC;
- Bod grantiau'r Cyngor Cyllido wedi'u rhoi ar waith yn unol â'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â hwy, a'u defnyddio at y dibenion y'u derbyniwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y telerau a'r amodau o ran cyllid;
- Bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill; a
- Bod adnoddau a gwariant y Brifysgol yn cael eu rheoli mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Brifysgol a'i chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.



**Mr Bleddyn Phillips, Cadeirydd y Cyngor**

27 Tachwedd 2023

# DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

**1. Gwybodaeth Gyffredinol**

Mae Prifysgol Abertawe wedi'i chofrestru gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw:

Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP

Rhif Elusen: 1138342

**2. Datganiad o gydymffurfiaeth**

Mae'r Datganiadau Ariannol Cyfunol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol wedi cael eu paratoi yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Cyfrifyddu Ariannol 102 (FRS 102) a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (argraffiad 2019).

Yn ogystal, maent wedi cael eu paratoi yn unol â'r pwerau a'r dyletswyddau a drosglwyddwyd o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosiannol tan 31 Gorffennaf 2019, y Siarter Frenhinol, y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), a'r amodau a thelerau cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru'n elusen. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi gan gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol cyfreithiau cymwys y DU a'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

**3. Sail baratoi**

Caiff y datganiadau ariannol Cyfunol a datganiadau ariannol y Brifysgol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'i addasu gan ailbrisiad asedau sefydlog a mesur offerynnau ariannol penodol ar sail gwerth teg).

Amlinellir gweithgareddau'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad, ei pherfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol, sy'n rhan o adroddiad Aelodau'r Cyngor. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Brifysgol, ei llifoedd arian, a'r sefyllfa o ran ei hylifedd a'i chyfleusterau benthyca. Mae gan Aelodau'r Cyngor ddisgwyliad rhesymol bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy.

Mae nodyn polisi cyfrifyddu 23 yn trafod penderfyniadau a wnaed gan y rheolwyr wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith sylweddol ar y datganiadau a'r amcangyfrifon ariannol â risg sylweddol o addasiad perthnasol yn y flwyddyn nesaf.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol i 31 Gorffennaf 2022. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn sterling, sef arian cyfred gweithredol y grŵp a chaiff symiau eu talgrynnu i'r £'000 agosaf.

**4. Busnes gweithredol**

Mae'r Brifysgol wedi nodi nifer o sefyllfaoedd anfanteisiol ac wedi ystyried effaith ariannol y rhain ar ei Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, ei Sefyllfa Ariannol, ei Llifoedd Arian Parod a'i chyfamodau bancio am gyfnod y busnes gweithredol, sef 12 mis ers dyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

Y brif risg a brofwyd yw'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o'r DU a thramor yn erbyn y rhagamcanion gwreiddiol ar gyfer 2023/24 a 2024/25, gan ystyried nifer y cofrestriadau go iawn hyd at fis Hydref 2023 a'r nifer a ragwelir ym mis Ionawr 2024 a mis Medi 2024, yn seiliedig ar geisiadau presennol a gwybodaeth am y farchnad.

Mae'r risgiau eraill a ystyriwyd yn cynnwys cynnydd arall yn y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24, cynnydd yng nghost benthyca ac effaith chwyddiant ar gostau ar wahân i gyflogau.

Mae canlyniad y gwaith modelu hwn, gan ystyried amrywiaeth o gamau lliniaru, yn nodi bod risg y bydd y Brifysgol yn torri o leiaf un o'i chyfamodau bancio erbyn 31 Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, mae'r gwaith modelu hefyd yn dangos y byddai gan y Brifysgol ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau sy'n ddyledus pe bai angen gwneud hynny, ac i barhau i gyflawni ei rhwymedigaethau a'i hymrwymiadau eraill dros gyfnod y busnes gweithredol.

Ar ôl ystyried rhagdybiaethau isorweddol y sefyllfaoedd anfanteisiol, y camau lliniaru arfaethedig ac effaith ariannol y rhain, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfamodau bancio, mae aelodau'r Cyngor yn hyderus y gall y Brifysgol reoli ei risgiau busnes ac y bydd ganddi gronfeydd digonol i gyflawni ei rhwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus dros y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

**5. Eithriadau o dan FRS 102**

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad o dan adran 3.3 o'r SORP (1.12(b) o FRS 102) i beidio â llunio datganiad o lif arian y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

**6. Sail gyfuno**

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran o ganlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiol am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2023.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o ddyddiad eu caffael neu hyd at ddyddiad eu gwaredu. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion o fewn y grŵp wedi'u dileu'n llawn. Mae symiau mewn perthynas â dyledion a hawliadau rhwng mentrau a gynhwyswyd yn y cyfuno wedi'u dileu hefyd. Nid yw balansau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiol a'i mentrau ar y cyd yn cael eu dileu. Nid yw trafodion masnachol arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y fantolen wedi'u cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae unrhyw enillion neu golledion wedi'u cynnwys yn swm cario ymlaen asedau'r naill endid neu'r llall; caiff y rhan sy'n ymwneud â chyfran y Brifysgol ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol a mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

**7. Cydnabod Incwm**

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo modd mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, gellir mesur y cam cwblhau yn ddibynadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Brifysgol a phan ellir mesur costau gwasanaethau a ddarperir neu y disgwylir eu darparu yn ddibynadwy.

Nodir incwm o ffioedd dysgu fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo myfyrwyr yn astudio. Pan gaiff swm y ffi ddysgu ei ostwng oherwydd disgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm taladwy net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynswth fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm. Cydnabyddir contractau addysg pan fydd hawl gan y Brifysgol i'r incwm, sef y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio neu, lle bo'n berthnasol, pan fydd amodau perfformiad wedi'u bodloni.

Caiff arian y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei ddostalu fel asiant talu ar ran corff cyllido ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol pan fo'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n derbyn budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Credydir incwm o fuddsoddi i'r datganiad o incwm a gwariant pan gaiff ei dderbyn.

**Cyllid grant**

Cydnabyddir grantiau'r llywodraeth, gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido a grantiau ymchwil gan ffynonellau'r llywodraeth a grantiau eraill gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio o fewn credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

Cyfrifir am gontractau ymchwil masnachol yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod.

Cydnabyddir grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo'r amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio yn y credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

**Grantiau Cyfalaf**

Cydnabyddir grantiau cyfalaf mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r arian yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cyfrifir am grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth ar gyfer tir yn unol â'r model perfformiad fel y polisi ar gyfer grantiau'r Llywodraeth uchod.

**Rhoddion a Gwaddolion**

Mae rhoddion a gwaddolion yn drafodion digyfnewid heb amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cydnabyddir rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir yr incwm yn y cronfeydd wrth gefn cyfyngedig nes y gellir ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, pan fo'r incwm yn cael ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad rhwng cronfeydd wrth gefn.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac adbrisiant gwaddolion yn incwm yn ystod y flwyddyn mae'n codi a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r cyfyngiad a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Cofnodir rhoddion heb gyfyngiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Caiff rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau eu dosbarthu fel cronfeydd cyfyngedig wrth gefn a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Ceir pedwar prif fath o rodd a gwaddol â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r rhodd gael ei defnyddio i gyflawni amcan penodol.
2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn creu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
3. Gwaddolion cyfyngedig i'w gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, a gall y Brifysgol droi'r swm a roddir yn incwm.
4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn creu ffrwd incwm i'w defnyddio i gyflawni amcan penodol.

Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu cynnwys mewn incwm. Caiff gwerth yr incwm a gydnabyddir ei bennu gan ddefnyddio amcangyfrif rhesymol o'u gwerth gros neu'r gwir swm sy'n cael ei ryddhau. Caiff rhoddion sy'n asedau diriaethol eu prisio a chyfrifir amdanynt fel asedau diriaethol yn y categori priodol o ased.

**8. Cyfrifyddu ar gyfer buddion ymddeol**

Y tri phrif gynllun sydd ar gael i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Caewyd

SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012, a gwahoddwyd staff newydd i ymuno â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau budd diffiniedig sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Caiff pob cronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actiwarïaid annibynnol cymwysedig proffesiynol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae USS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'n bosib adnabod asedau a rhwymedigaethau pob prifysgol oherwydd natur gilyddol y cynllun. Felly, mae'r cyfrifon yn ymdrin â'r cynllun fel cynllun budd ymddeol cyfraniadau diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad dan gontract i ariannu diffygion blaenorol yng nghynllun USS.

### Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth lle mae'r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i mewn i endid ar wahân ac ni fydd arno rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau pellach. Cydnabyddir rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel traul yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan ddarperir y gwasanaethau gan y cyflogeion.

### Cynlluniau aml-gyflogwr

Lle nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n tanategu cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, mae'n cyfrifyddu fel pe bai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Pan fo'r Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb â chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adennill diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau taladwy yn unol â'r cytundeb, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg, a chydnabyddir y draul ganlyniadol mewn gwariant.

### Cynllun Buddion Diffiniedig

Mae cynllun buddion diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn unol â chynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion cytunedig i gyflogeion presennol a chyn-gyflogeion, a'r Brifysgol sy'n gyfrifol am effeithiau risg actiwaraidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddi (y bydd enillion ar asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl). Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y fantolen mewn perthynas â phob cynllun ar sail gwerth presennol y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig ar y dyddiad adrodd, namyn gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn comisiynu actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Cyfrifir y gwerth presennol drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt i'r amcangyfrif o daliadau'r dyfodol ar sail elw'r farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel, wedi eu mynegi yn sterling ar delerau sy'n seiliedig ar amcangyfrif o gyfnod y taliadau yn y dyfodol.

Cyfrifir gwerth teg asedau cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau sy'n cael eu dal mewn modd tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau ar gyfer profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu cofnodi fel costau neu gredyd i incwm cynhwysfawr arall. Caiff y symiau hyn, ynghyd ag enillion ar asedau cynllun, namyn symiau wedi'u cynnwys mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y gwariant fel costau staff ac eithrio pan gaiff ei chynnwys yng nghost ased, yn cynnwys y cynnydd yn y rhwymedigaeth i dalu buddion pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth cyflogai yn y cyfnod a chost cyflwyniadau i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, cwtogiadau a setliadau. Cyfrifir y gost llog net drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost hon mewn gwariant fel cost gyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn nodyn 30 i'r cyfrifon.

### 9. Buddion Cyflogaeth

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau cyflogedig, fel treuliau yn y flwyddyn pan fo'r cyflogeion yn darparu'r gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff buddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliau heb eu defnyddio. Cydnabyddir hawl i wyliau blynyddol heb eu defnyddio ar 31 Gorffennaf fel credydwr yn achos staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu defnyddio gan academyddion oherwydd nad oes rhwymedigaeth.

### 10. Prydlesi Cyllid

Mae prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo holl risgiau a buddion perchnogaeth yr ased ar brydles i raddau helaeth yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae asedau ar brydles sy'n cael eu caffael drwy brydlesi cyllid yn cael eu datgan ar yr isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm taliadau'r brydles ar ddechrau'r brydles, namyn dibrisiad wedi'i gronni a cholledion wedi'u cronni oherwydd amhariad. Cyfrifir am daliadau prydles fel y'i disgrifir isod.

Dosrennir isafswm taliadau prydles rhwng y tâl cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Dyrennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans gweddill y rhwymedigaeth.

### 11. Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth

Cydnabyddir asedau sefydlog a ddelir o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth ar y Fantolen ar sail gwerth presennol isafswm y taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Dyrennir taliadau o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth rhwng costau gwasanaethau, taliadau cyllid ac ad-daliadau rhwymedigaeth ariannol i leihau'r rhwymedigaeth ariannol i ddim dros oes y trefniant.

Mae preswylfeydd Campws y Bae a Champws Parc Singleton wedi'u dosbarthu fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

### 12. Prydlesi Gweithredu

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff premiymau neu gymhellion sy'n gysylltiedig â phrydles eu lledaenu dros isafswm tymor y brydles.



### 13. Arian Cyfred Tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i bunnoedd sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ar y fantolen eu haildrosi i'r arian gweithredol gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Cydnabyddir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid sy'n codi adeg trosi ar y datganiad o incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ac a nodir ar sail gwerth teg eu haildrosi i'r arian gweithredol gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar y dyddiadau y pennwyd gwerth teg.

### 14. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Nodir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar sail y gost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

### Tir ac adeiladau

Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar sail cost pan gânt eu cydnabod i ddechrau.

Ar ôl eu cydnabod y tro cyntaf, wedi hynny caiff tir ac adeiladau eu mesur ar sail costau namyn dibrisiad cronedig a cholledion a gronnwyd o ganlyniad i amhariad.

Cafodd tir ac adeiladau a oedd gan y Brifysgol adeg y newid i FRS102 a chyflwyno SORP Addysg Uwch newydd 2015, eu hailbrisio ar sail gwerth teg ar ddyddiad y newid. Caiff y rhain eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi'i ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn. Caiff swm sy'n gyfwerth â'r dibrisiad sy'n fwy na'r sail cost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig ar sail flynyddol.

Caiff costau sy'n gysylltiedig â thir ac adeiladau ar ôl iddynt gael eu prynu neu eu hadeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu buddion disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Pan fo oes ddefnyddiol rhannau o'r asedau'n amrywio, cyfrifir amdanynt fel eitemau asedau sefydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ei oes ddefnyddiol yn amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliad eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Brifysgol, sef rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu a chyflymir dibrisiant pan fo dyddiad dymchwel yn hysbys.

Caiff tir ac adeiladau prydles eu dibrisio dros gyfnod y brydles hyd at uchafswm o 50 o flynyddoedd.

### Cyfarpar

Caiff cyfarpar sy'n costio llai na £25,000 am bob eitem unigol eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael. Caiff cyfarpar a brynwyd fel rhan o becyn neu raglen adnewyddu, pan fo'r pecyn cyfan yn costio mwy na £25,000 eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael hefyd. Caiff yr holl gyfarpar eraill eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael, oni bai fod rheswm penodol dros gyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yw 3-5 mlynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle tybir bod yr oes ddefnyddiol yn hwy neu'n fyrrach.

Caiff dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

### Llongau

Caiff llongau eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Caiff dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

### Costau Benthyca

Cydnabyddir costau benthyca fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod yr aethpwyd i'r costau.

### Amhariad

Cynhelir adolygiad o eiddo, peiriannau a chyfarpar ar gyfer amhariad os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu efallai na fydd modd adennill swm cario ymlaen yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar.

### 15. Asedau Treftadaeth

Caiff gwaith celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar sail cost neu werth y caffaeliad, pan fo modd cyfrifo cost neu werth yn rhesymol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio am fod eu hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiad yn berthnasol.

Lle nad yw asedau treftadaeth wedi cael eu cyfalafu, datgelir manylion am natur ac oedran yr asedau hyn.

### 16. Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau anghyfredol eu dal ar y Fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio namyn amhariad.

Nodir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiol ar sail cost namyn amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Caiff buddsoddiadau asedau cyfredol eu dal ar sail gwerth teg a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### 17. Stoc

Caiff stoc ei dal ar yr isaf o gost a gwerth net y gellir ei wireddu.

### 18. Arian Parod ac Asedau Cyfwerth

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alwad a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alwad os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn hwylus i'w trosi i symiau hysbys o arian parod heb risg o newid eu gwerth.

## 19. Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiadau Ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

a) Mae rhwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) gan y Brifysgol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

b) Mae'n debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i fodloni'r rhwymedigaeth; a

c) Gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt cyn treth ar y llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Ceir rhwymedigaeth ddigwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau penodol - neu absenoldeb digwyddiadau penodol - yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Ceir rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd mewn amgylchiadau pan fyddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y rhwymedigaeth.

Ceir ased digwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol na chaiff ei fodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau amhenodol – neu absenoldeb digwyddiadau amhenodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chydnabyddir asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

## 20. Cyfrifyddu ar gyfer Cwmnïau Cysylltiol, Gweithrediadau ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

## 21. Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen yn ôl ystyr Paragraff 1 o Atodlen 6 o Ddeddf Cyllid 2010, ac yn unol â hynny, gallai'r Brifysgol gael ei hesgusodi rhag talu trethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 478-488 Deddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW ar fewnbynnau nad oes modd ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghost y cyfryw fewnbynnau. Mae TAW nad oes modd ei hadennill a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu Treth Gorfforaeth yn yr un modd â phob sefydliad masnachol arall.

## 22. Cronfeydd wrth gefn

Dyrennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd anghyfyngedig. Mae gwaddolion wrth gefn cyfyngedig yn cynnwys arian a gedwir, drwy waddol i'r Brifysgol, fel cronfa gyfyngedig barhaol oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol gadw'r gronfa am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys arian y mae'r rhoddwr wedi pennu diben penodol iddo, ac felly mae cyfyngiad ar y Brifysgol o ran defnyddio'r arian hwn.

## 23. Amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu allweddol

Mae'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon fel a ganlyn:

### Asedau Sefydlog Diriaethol

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (ar gau i aelodau newydd bellach). Cynhelir prisiadau gan actiwarïaid o'r cynllun yn unol â chyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o leiaf bob tair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan SORP Addysg Uwch a FRS102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a thybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol i'r actiwarïaid, wedi'i hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwarïaid a'r rheolwyr. Cofnodir y tybiaethau yn nodyn 31.

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredinol, fel arfer gyda chyflogwr noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredinol ac mae'n cynrychioli (fel arfer) gynllun diwydiant cyfan, gan gynnwys Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion. Mae'r cyfrifyddu am gynllun aml-gyflogwr pan fo'r cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu sut bydd y cyflogwr hwnnw'n ariannu diffyg yn arwain at gydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau taladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) a chydnabyddir y costau o ganlyniad fel elw neu golled yn unol ag adran 28 o FRS 102. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion yn bodloni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr, felly cydnabyddir gwerth teg ar sail cyfradd ddisgownt y cyfraniadau cytundebol o dan y cynllun adennill a oedd ar waith ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

Oherwydd bod rhwymedigaeth dan gontract gan y Brifysgol i wneud taliadau i adennill y diffyg i USS, cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth ar y fantolen. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adennill diffyg USS y cytunwyd arno yn dilyn prisiad actiwaraidd 2020, sy'n diffinio'r taliad i adennill y diffyg ar sail canran o gyflogau'r dyfodol. Caiff y cyfraniadau hyn eu hailasesu yn y prisiad o'r cynllun a gynhelir bob tair blynedd. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif rheolwyr o godiadau cyflog a ddisgwylir yn y dyfodol, newidiadau yn niferoedd y staff a chyfradd gyffredinol y disgownt. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 30.



# DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023*

| | NODIADAU | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2023 £000 | Y BRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2023 £000 | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022 £000 | Y BRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **198,881** | **198,881** | 188,370 | 188,370 |
| Grantiau cyrff ariannu | 2 | **74,176** | **74,176** | 43,857 | 43,857 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **67,098** | **67,098** | 69,212 | 69,212 |
| Incwm arall | 4 | **66,067** | **65,742** | 67,373 | 67,198 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 5 | **6,124** | **6,124** | 812 | 812 |
| Rhoddion a Gwaddolion | 6 | **291** | **291** | 462 | 462 |
| **CYFANSWM INCWM** | | **412,637** | **412,312** | 370,086 | 369,911 |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Costau staff | 7 | **195,972** | **195,626** | 182,959 | 182,629 |
| Newid yn y cyfraniadau disgwyliedig at USS | 7 | **(31,704)** | **(31,704)** | 93,537 | 93,537 |
| Treuliau gweithredu eraill | 9 | **140,183** | **139,831** | 134,938 | 133,999 |
| Dibrisio ac amorteiddio | 10/11 | **32,636** | **32,629** | 28,638 | 28,546 |
| Llog a chostau ariannol eraill | 8 | **11,604** | **11,605** | 7,557 | 7,551 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 9 | **348,691** | **347,987** | 447,629 | 446,262 |
| **Gwarged cyn enillion/(colledion) eraill a chyfran o warged/(diffyg) gweithredol cyd-fentrau a chwmnïau cysylltiol** | | **63,946** | **64,325** | (77,543) | (76,351) |
| Enillion o werthu asedau diriaethol | 10 | **226** | **226** | – | – |
| Enillion/(colledion) o fuddsoddiadau | 14/22 | **269** | **(1,351)** | (291) | (1,013) |
| Cyfran o elw/(diffyg) gweithredol cwmnïau cysylltiol | 14 | **77** | **(48)** | (1,732) | (1,732) |
| **GWARGED/(DIFFYG) CYN TRETH** | | **64,518** | **63,152** | (79,566) | (79,096) |
| Treth | | **(20)** | **–** | (15) | – |
| **GWARGED/(DIFFYG) AM Y FLWYDDYN** | | **64,498** | **63,152** | (79,581) | (79,096) |
| **Incwm cynhwysfawr arall**<br>Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 31 | **18,600** | **18,600** | 23,700 | 23,700 |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | | **83,098** | **81,752** | (55,881) | (55,396) |
| **DADANSODDIAD O'R INCWM:** | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr gwaddolion am y flwyddyn | 22 | **1** | **1** | (198) | (198) |
| Incwm cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn | 23 | **135** | **135** | 52 | 52 |
| Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig am y flwyddyn | | **84,501** | **83,155** | (54,703) | (54,218) |
| Incwm cynhwysfawr y gronfa ailbrisio wrth gefn am y flwyddyn | | **(1,539)** | **(1,539)** | (1,032) | (1,032) |
| | | **83,098** | **81,752** | (55,881) | (55,396) |

Mae'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â gweithgareddau parhaus. Mae'r nodiadau a'r polisïau cysylltiedig ar dudalennau 68 i 95 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn



# DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023*

| | CRONFA INCWM A GWARIANT WRTH GEFN | | | CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | GWADDOLION £000 | CYFYNGEDIG £000 | ANGHYFYNGEDIG £000 | £000 | £000 |
| **CYFUNOL** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2021** | 7,505 | – | 168,639 | 43,654 | **219,798** |
| Diffyg o'r datganiad incwm a gwariant | (167) | 52 | (79,466) | – | **(79,581)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | 23,700 | – | **23,700** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,032 | (1,032) | **–** |
| Rhyddhau gwaddolion a chronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn ystod y flwyddyn | (31) | – | 31 | – | **–** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2022** | 7,307 | 52 | 113,936 | 42,622 | **163,917** |
| **AR 1 AWST 2022** | 7,307 | 52 | 113,936 | 42,622 | **163,917** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 40 | 135 | 64,323 | – | **64,498** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | 18,600 | – | **18,600** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,539 | (1,539) | **–** |
| Rhyddhau gwaddolion a chronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn ystod y flwyddyn | (39) | – | 39 | – | **–** |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | 1 | 135 | 84,501 | (1,539) | **83,098** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | 7,308 | 187 | 198,437 | 41,083 | **247,015** |
| **Y BRIFYSGOL** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2021** | 7,505 | – | 169,283 | 43,654 | **220,442** |
| Diffyg o'r datganiad incwm a gwariant | (167) | 52 | (78,981) | – | **(79,096)** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | 23,700 | – | **23,700** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,032 | (1,032) | **–** |
| Rhyddhau gwaddolion a chronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn ystod y flwyddyn | (31) | – | 31 | – | **–** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2022** | 7,307 | 52 | 115,065 | 42,622 | **165,046** |
| **AR 1 AWST 2022** | **7,307** | **52** | **115,065** | **42,622** | **165,046** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 40 | 135 | 62,977 | – | **63,152** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | 18,600 | – | **18,600** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,539 | (1,539) | **–** |
| Rhyddhau gwaddolion a chronfeydd cyfyngedig a wariwyd yn ystod y flwyddyn | (39) | – | 39 | – | **–** |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | **1** | **135** | **83,155** | **(1,539)** | **81,752** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | **7,308** | **187** | **198,220** | **41,083** | **246,798** |

# DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023*

| | NODIADAU | CYFUNOL 31 GORFFENNAF 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 31 GORFFENNAF 2023 £000 | CYFUNOL AILDDATGANEDIG 31 GORFFENNAF 2022 £000 | Y BRIFYSGOL AILDDATGANEDIG 31 GORFFENNAF 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 11 | **316** | **316** | – | – |
| Asedau diriaethol | 10 | **473,112** | **473,029** | 464,629 | 464,550 |
| Asedau treftadaeth | 12 | **1,025** | **1,025** | 1,005 | 1,005 |
| Buddsoddiadau | 14 | **594** | **–** | 238 | – |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | 14 | **–** | **700** | – | 1,929 |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | 14 | **125** | **–** | 48 | 48 |
| | | **475,172** | **475,070** | 465,920 | 467,532 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc | 15 | **129** | **16** | 105 | 38 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 17 | **53,763** | **53,920** | 55,009 | 55,289 |
| Buddsoddiadau | 17 | **54,941** | **54,941** | 5,029 | 5,029 |
| Arian parod a chyfwerth | | **123,403** | **123,187** | 164,695 | 164,046 |
| | | **232,236** | **232,064** | 224,838 | 224,402 |
| Namyn credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 18 | **(134,132)** | **(134,075)** | (139,576) | (139,623) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **98,104** | **97,989** | 85,262 | 84,779 |
| **CYFANSWM ASEDAU, NAMYN RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | **573,276** | **573,059** | 551,182 | 552,311 |
| Credydau: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 19 | **(209,420)** | **(209,420)** | (216,401) | (216,401) |
| **DARPARIAETHAU** | | | | | |
| Darpariaeth pensiynau | 21 | **(116,841)** | **(116,841)** | (170,864) | (170,864) |
| **CYFANSWM ASEDAU NET** | | **247,015** | **246,798** | 163,917 | 165,046 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – gwaddolion wrth gefn | 22 | **7,308** | **7,308** | 7,307 | 7,307 |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – cronfeydd wrth gefn cyfyngedig | 23 | **187** | **187** | 52 | 52 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig | | **198,437** | **198,220** | 113,936 | 115,065 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | **41,083** | **41,083** | 42,622 | 42,622 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | **247,015** | **246,798** | 163,917 | 165,046 |

Gweler nodyn 34 am fanylion y cronfeydd wrth gefn ailddatganedig. Mae'r nodiadau a'r polisïau cysylltiedig yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

**Yr Athro P Boyle (Is-ganghellor)**

**B Phillips (Cadeirydd y Cyngor)**



# DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN CYFUNOL

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023*

| | NODIADAU | 31 GORFFENNAF 2023 £000 | 31 GORFFENNAF 2022 AILDDATGANEDIG £000 |
|---|---|---|---|
| **LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | | |
| Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn cyn treth | | **64,518** | (79,566) |
| **ADDASIAD AR GYFER EITEMAU AC EITHRIO ARIAN PAROD** | | | |
| Dibrisiant | 10 | **32,556** | 28,638 |
| Amorteiddio asedau annirweddol | 11 | **80** | – |
| Amhariad | 14 | **–** | 772 |
| (Colledion)/enillion ar fuddsoddiadau | | **(269)** | 291 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc | | **(24)** | 19 |
| Gostyngiad o ran dyledwyr | | **1,705** | 7,329 |
| Cynnydd o ran credydwyr | | **22,914** | 7,286 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau pensiwn | | **(35,423)** | 90,395 |
| Cyfran o ddiffyg gweithredol cwmnïau cysylltiol | | **(77)** | 1,732 |
| **ADDASIAD AR GYFER GWEITHGAREDDAU ARIANNU NEU FUDDSODDI** | | | |
| Incwm o fuddsoddiadau | | **(6,124)** | (812) |
| Incwm grantiau cyfalaf | | **(35,942)** | (5,969) |
| Llog i'w dalu | | **5,933** | 6,175 |
| Incwm Gwaddolion | | **(9)** | (30) |
| (Enillion) o werthu asedau diriaethol | | **(226)** | – |
| **LLIFOEDD ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | **49,612** | 56,260 |
| Treth | | **(20)** | (15) |
| **MEWNLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | **49,592** | 56,245 |
| **LLIFOEDD ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | | |
| Derbyniadau grant cyfalaf | | **8,122** | 24,362 |
| Enillion o werthu asedau diriaethol | | **901** | – |
| Taliadau i brynu asedau diriaethol | | **(38,309)** | (39,142) |
| Taliadau i brynu asedau anniriaethol | | **(396)** | – |
| (Cynnydd) mewn adneuon | | **(50,000)** | – |
| Incwm o fuddsoddiadau | | **4,606** | 812 |
| | | **(75,076)** | (13,968) |
| **LLIFOEDD ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO** | | | |
| Llog a dalwyd | | **(2,961)** | (3,117) |
| Elfen llog prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(2,972)** | (3,058) |
| Elfen cyfalaf prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(6,495)** | (6,407) |
| Gwaddolion newydd | | **9** | 30 |
| Benthyciadau anwarantedig newydd | | **2,300** | 120 |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | | **(5,817)** | (5,713) |
| | | **(15,936)** | (18,145) |
| **GOSTYNGIAD/CYNNYDD MEWN ARIAN PAROD A CHYFWERTH YN Y FLWYDDYN** | | **(41,420)** | 24,132 |
| Arian parod a chyfwerth ar ddechrau'r flwyddyn | | **164,695** | 140,563 |
| Arian parod a chyfwerth ar ddiwedd y flwyddyn | | **123,275** | 164,695 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023*

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **1. FFÏOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG** | | | | |
| Myfyrwyr amser llawn o'r Deyrnas Unedig ac o'r UE | **120,329** | **120,329** | 119,004 | 119,004 |
| Myfyrwyr amser llawn rhyngwladol | **59,280** | **59,280** | 51,063 | 51,063 |
| Myfyrwyr rhan-amser | **4,582** | **4,582** | 3,686 | 3,686 |
| Contractau addysgol gyda'r GIG ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru | **14,602** | **14,602** | 14,537 | 14,537 |
| Ffioedd cyrsiau heb eu hachredu | **88** | **88** | 80 | 80 |
| | **198,881** | **198,881** | 188,370 | 188,370 |

Er mwyn sicrhau ffïoedd dysgu i fyfyrwyr amser llawn y Deyrnas Unedig ac o'r UE, mae'r Brifysgol wedi gwario £4,000k (2022: £3,800k) ar fwrsariaethau yn unol â'r cynllun ffïoedd.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **2. GRANTIAU CYRFF ARIANNU** | | | | |
| **GRANTIAU RHEOLAIDD** | | | | |
| Grantiau addysgu CCAUC | **9,563** | **9,563** | 8,884 | 8,884 |
| Grantiau ymchwil CCAUC | **19,328** | **19,328** | 19,845 | 19,845 |
| Grant cyfalaf HERC | **2,021** | **2,021** | 851 | 851 |
| | **30,912** | **30,912** | 29,580 | 29,580 |
| **GRANTIAU PENODOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN** | | | | |
| Lles ac Iechyd Myfyrwyr | **1,250** | **1,250** | 986 | 986 |
| Digidol ac Ystadau | **–** | **–** | 6,348 | 6,348 |
| Ymchwil ac Arloesi | **5,929** | **5,929** | 2,706 | 2,706 |
| Y Gymraeg | **1,423** | **1,423** | 1,175 | 1,175 |
| Arall | **741** | **741** | 1,257 | 1,257 |
| Cyfalaf | **33,921** | **33,921** | 1,805 | 1,805 |
| | **43,264** | **43,264** | 14,277 | 14,277 |
| | **74,176** | **74,176** | 43,857 | 43,857 |

Mae incwm o grantiau cyfalaf yn cyfeirio at £35,076k sy'n ymwneud ag adeiladau (2022: £2,156k) ac £866k sy'n ymwneud â chyfarpar (2022: £500k). Mae'r grantiau cyfalaf yn cynnwys £29,920k sy'n ymwneud ag adeiladu'r Ganolfan Deunyddiau Lled-ddargludol Integreiddiol. Derbyniwyd £28,883k yn ystod blynyddoedd blaenorol ac fe'i chadwyd ar y fantolen cyn i'r amodau perfformiad gael eu bodloni yn ystod 2023 (2022: £0).

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **3. GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL** | | | | |
| Cynghorau Ymchwil | **20,713** | **20,713** | 25,616 | 25,616 |
| Elusennau yn y DU | **3,563** | **3,563** | 2,520 | 2,520 |
| Diwydiant a masnach yn y DU | **3,060** | **3,060** | 3,326 | 3,326 |
| Llywodraethau (yn y DU a thramor) | **36,625** | **36,625** | 35,001 | 35,001 |
| Arall | **3,137** | **3,137** | 2,749 | 2,749 |
| | **67,098** | **67,098** | 69,212 | 69,212 |

Mae'r ffigwr ar gyfer Llywodraethau (yn y DU a thramor) uchod yn cynnwys £400k am dderbyn grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn (2022: £3,300k).



| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **4. INCWM ARALL** | | | | |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **26,252** | **26,252** | 28,273 | 28,273 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | **2,709** | **2,709** | 2,872 | 2,872 |
| Incwm o gytundebau consesiwn gwasanaeth | **9,466** | **9,466** | 9,466 | 9,466 |
| Incwm arall | **20,554** | **20,229** | 18,857 | 18,682 |
| Incwm o'r GIG i'r Coleg Meddygaeth | **5,055** | **5,055** | 6,176 | 6,176 |
| Dyfarniadau Hyfforddiant Doethurol/Cydweithredol amser llawn y Cynghorau Ymchwil | **2,031** | **2,031** | 1,729 | 1,729 |
| | **66,067** | **65,742** | 67,373 | 67,198 |

Mae incwm arall yn cynnwys incwm gwerth £6,900k o gydweithrediadau (2022: £7,000k), incwm gwerth £1,300k o ystadau (2022: £3,400k), ac incwm gwerth £900k o ganolfannau chwaraeon (2022: £800k).

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **5. INCWM O FUDDSODDIADAU** | | | | |
| Incwm o fuddsoddiadau mewn gwaddolion | **145** | **145** | 67 | 67 |
| Incwm arall o fuddsoddiadau | **5,979** | **5,979** | 745 | 745 |
| | **6,124** | **6,124** | 812 | 812 |

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **6. RHODDION A GWADDOLION** | | | | |
| Gwaddolion newydd | **9** | **9** | 30 | 30 |
| Rhoddion cyfyngedig | **196** | **196** | 53 | 53 |
| Rhoddion anghyfyngedig | **86** | **86** | 379 | 379 |
| | **291** | **291** | 462 | 462 |

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **7. COSTAU STAFF** | | | | |
| Dyma oedd y costau staff ar gyfer y flwyddyn ariannol: | | | | |
| Cyflogau | **157,786** | **157,440** | 143,253 | 142,923 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **15,852** | **15,852** | 14,823 | 14,823 |
| Costau pensiwn eraill | **22,334** | **22,334** | 24,883 | 24,883 |
| **CYFANSWM COSTAU STAFF** | **195,972** | **195,626** | 182,959 | 182,629 |
| **NEWID YN Y CYFRANIADAU DISGWYLIEDIG AT USS** | **(31,704)** | **(31,704)** | 93,537 | 93,537 |

Mae dadansoddiad arall o gostau pensiwn wedi cael ei gynnwys yn Nodyn 31, Cynlluniau Pensiwn.

| | 2023<br>£000 | 2022<br>£000 |
|---|---|---|
| **CYFANSWM CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR IS-GANGHELLOR** | | |
| Cyflog sylfaenol | **323** | 297 |
| Lwfans llety | **16** | 15 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | **20** | 17 |
| | **359** | 329 |

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol ac am bennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau ar gyfer yr Is-ganghellor ac aelodau eraill o'r uwch-staff.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried fforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau a thelerau cyflogaeth yn y sector prifysgolion a'r cyd-destun ehangach lle bynnag y bo'n briodol. Wrth bennu'r gydnabyddiaeth ariannol a roddir, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried ymagwedd y Brifysgol at gydnabod perfformiad ac yn cyfeirio at wybodaeth feincnodi'r sector a ddarperir gan Arolwg Uwch-gyflogau'r UCEA (Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau). Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-staff Addysg Uwch y CUC (Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol).

Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r ymagwedd, yr ystyriaethau a'r argymhellion o ran cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, gan ystyried y canlynol:

i. Cromliniau Perfformiad Athrawol y Brifysgol;

ii. Argymhellion manwl ynghylch perfformiad a chydnabyddiaeth ariannol

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd y ffactorau a ystyriwyd fel rhan o'r cynigion gwobrwyo perfformiad yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

a) perfformiad wrth gefnogi amcanion strategol y sefydliad mewn meysydd megis ymchwil; addysgu; arloesi ac ymgysylltu; arwain a rheoli; partneriaethau a chysylltiadau allanol, yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol; a mentrau a phrosiectau mawr;

b) maint a chymhlethdod y sefydliad;

c) natur y marchnadoedd addysg uwch a materion recriwtio a chadw;

ch) amcanion y sefydliad mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu;

Mae'r data i gefnogi'r dangosyddion hyn yn deillio o'r canlynol:

a) Arolwg Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-staff yr UCEA;

b) dadansoddiad o ddosbarthiadau cyflog.

Gan gydnabod gweledigaeth y Brifysgol i fod yn sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn sy'n cyd-bwyso addysgu ardderchog ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd sy'n galluogi ein myfyrwyr i ragori, ochr yn ochr â chael ein gwerthfawrogi'n fyd-eang fel partner dibynadwy sy'n ymrwymo'n ddwfn i'n rhanbarth ac sy'n falch o fod yn brifysgol i Gymru, mae'n hanfodol bod y Brifysgol yn cynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol cystadleuol ar gyfer rôl yr Is-ganghellor. Mae hyn hefyd yn cydnabod nifer y staff a'r myfyrwyr sydd gan y Brifysgol, a natur amrywiol a chymhleth y sefydliad.

Wrth ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried cyd-destun y sefydliad, ochr yn ochr â pherfformiad yr Is-ganghellor (drwy adolygiad datblygiad perfformiad ffurfiol), newidiadau cyffredinol i gyflogau holl staff y Brifysgol, ystyriaethau cadw staff ac unrhyw ystyriaethau perthnasol i'r farchnad, ac fe'i llywir gan ddata meincnodi mewnol a chymharu gwybodaeth meincnodi cyflogau â phrifysgolion cyffelyb. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn derbyn adborth gan Gadeirydd y Cyngor ar ran yr holl aelodau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy Ddatganiad Cydnabyddiaeth Ariannol 2023.
www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/llywodraethu'r-brifysgol/atebolrwydd-cyhoeddus/datganiad-ar-gyflog-uwch-aelodau-staff-ym-mhrifysgol-abertawe/

Mae'r Is-ganghellor wedi cofrestru gyda'r trefniant optio allan uwch yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS).

Mae cyflog sylfaenol pennaeth y darparwr 9.2 o weithiau'n fwy na chyflog canolrif y staff (2022: 8.6 o weithiau'n fwy), lle caiff y cyflog canolrif ei gyfrifo ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyflogau y mae'r Brifysgol yn eu talu i'w staff.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol pennaeth y darparwr 9.9 o weithiau'n fwy na chyfanswm cydnabyddiaeth ariannol canolrif y staff (2022: 8.6 o weithiau'n fwy), lle caiff y cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol canolrif ei gyfrifo ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y mae'r Brifysgol yn ei dalu i'w staff.

Mae'r cyfrifiadau canolrif yn cynnwys cyflogau a ariennir yn rhannol gan y GIG.



## STAFF AR GYFLOGAU UWCH

Mae nifer y staff sy'n ennill cyflog sylfaenol dros £100,000 y flwyddyn wedi cael ei gynnwys isod.

Nid yw cydnabyddiaeth ariannol staff ar gyflogau uwch (ac eithrio'r Is-ganghellor) yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond mae'n cynnwys taliadau a wneir ar ran y GIG mewn perthynas â'i rwymedigaethau i staff y Brifysgol dan gontractau cyflogaeth ar wahân y GIG ac a ad-delir i'r Brifysgol gan y GIG, fel a ganlyn:

Yn 2023, roedd 60 aelod staff ar gyflogau uwch (2022: 52).

| | CYFUNOL 2023 NIFER | Y BRIFYSGOL 2023 NIFER | CYFUNOL 2022 NIFER | Y BRIFYSGOL 2022 NIFER |
|---|---|---|---|---|
| £100,000 – £104,999 | **8** | **8** | 8 | 8 |
| £105,000 – £109,999 | **5** | **5** | 8 | 8 |
| £110,000 – £114,999 | **7** | **7** | 5 | 5 |
| £115,000 – £119,999 | **6** | **6** | 6 | 6 |
| £120,000 – £124,999 | **8** | **8** | 4 | 4 |
| £125,000 – £129,999 | **5** | **5** | 4 | 4 |
| £130,000 – £134,999 | **5** | **5** | 2 | 2 |
| £135,000 – £139,999 | **1** | **1** | 2 | 2 |
| £140,000 – £144,999 | **1** | **1** | – | – |
| £145,000 – £149,999 | **–** | **–** | 1 | 1 |
| £150,000 – £154,999 | **–** | **–** | 1 | 1 |
| £155,000 – £159,999 | **3** | **3** | 2 | 2 |
| £160,000 – £164,999 | **–** | **–** | – | – |
| £165,000 – £169,999 | **1** | **1** | 3 | 3 |
| £170,000 – £174,999 | **3** | **3** | – | – |
| £175,000 – £179,999 | **2** | **2** | 1 | 1 |
| £180,000 – £184,999 | **–** | **–** | – | – |
| £185,000 – £189,999 | **1** | **1** | 2 | 2 |
| £190,000 – £194,999 | **2** | **2** | 1 | 1 |
| £195,000 – £199,999 | **1** | **1** | 1 | 1 |
| £200,000 – £204,999 | **–** | **–** | – | – |
| £205,000 – £209,999 | **–** | **–** | – | – |
| £210,000 – £214,999 | **–** | **–** | 1 | 1 |
| £215,000 – £219,999 | **–** | **–** | – | – |
| £220,000 – £224,999 | **–** | **–** | – | – |
| £225,000 – £229,999 | **1** | **1** | – | – |

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| **IAWNDAL AM GOLLI SWYDDI A OEDD YN DALADWY I STAFF AR GYFLOGAU UWCH:** | £000 | £000 |
| Iawndal a thaliadau diswyddo a dalwyd i staff y Brifysgol ar gyflogau uwch | **86** | 45 |
| Nifer staff y Brifysgol ar gyflogau uwch a dderbyniodd iawndal neu daliad diswyddo | **1** | 1 |

## CYFARTALEDD NIFER Y STAFF (GAN GYNNWYS DEILIAID UWCH-SWYDDI) A GYFLOGWYD GAN Y BRIFYSGOL

Cyfartaledd nifer y staff a gyflogwyd gan y Brifysgol yn ystod y flwyddyn, a fynegir fesul CALl (cyfwerth ag amser llawn):

| | 2023 Nifer (CALl) | 2022 Nifer (CALl) |
|---|---|---|
| Academaidd | 1,135 | 1,085 |
| Ymchwil | 481 | 506 |
| Rheolwyr ac arbenigwyr | 1,071 | 987 |
| Technegol | 184 | 153 |
| Arall | 843 | 815 |
| | 3,714 | 3,546 |

## PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

Personél rheoli allweddol yw'r staff hynny sy'n gyfrifol am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r sefydliad. Mae'r rheolwyr allweddol yn cynnwys yr uwch-swyddogion gweithredol, gan gynnwys yr Is-ganghellor, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Profost, tri Dirprwy Is-ganghellor, tri Deon Gweithredol a'r Prif Swyddog Ariannol.

| | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| Personél Rheoli Allweddol | 2,046 | 1,910 |

Yn ystod mis Medi 2022, ymddiswyddodd yr Athro Steve Wilks fel Profost ac ymddiswyddodd yr Athro Martin Stringer fel Dirprwy Is-ganghellor ar yr un pryd. Penodwyd yr Athro Johann Sienz yn Ddirprwy Is-ganghellor/Ddeon Gweithredol Interim y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg ym mis Awst 2022, yn lle'r Athro Ken Meissner, nes i'r Athro David Smith gael ei benodi'n barhaol ym mis Ionawr 2023. Ymddiswyddodd yr Athro Elwen Evans fel Dirprwy Is-ganghellor/Deon Gweithredol ym mis Mehefin 2023, gan gael ei olynu gan yr Athro Ryan Murphy ar sail interim. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd nifer y personél rheoli allweddol o 10 i 8.

## 8. LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL

| | NODIADAU | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llog ar fenthyciadau | | 2,961 | 2,962 | 3,117 | 3,111 |
| Prydlesi cyllid, gan gynnwys trefniadau consesiwn gwasanaeth | | 2,972 | 2,972 | 3,058 | 3,058 |
| Ychwanegu llog at ffactor disgownt USS | | 4,471 | 4,471 | 382 | 382 |
| Cost llog pensiwn net | 31 | 1,200 | 1,200 | 1,000 | 1,000 |
| | | 11,604 | 11,605 | 7,557 | 7,551 |

## 9. DADANSODDIAD O WARIANT YN ÔL GWEITHGARWCH

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Adrannau academaidd | 140,631 | 140,630 | 128,326 | 128,326 |
| Gwasanaethau Academaidd | 35,088 | 35,087 | 30,465 | 30,465 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 60,369 | 60,368 | 56,536 | 56,536 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 25,093 | 25,094 | 27,714 | 27,714 |
| Mangreoedd | 40,920 | 40,920 | 37,878 | 37,878 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | 64,068 | 64,068 | 59,729 | 59,729 |
| Addasiadau i gronfa USS | (34,622) | (34,622) | 91,296 | 91,296 |
| Arall | 17,145 | 16,442 | 15,685 | 14,318 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 348,691 | 347,987 | 447,629 | 446,262 |

## MAE GWARIANT ARALL UCHOD YN CYNNWYS:

| | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | 10,034 | 10,121 |
| Costau ailstrwythuro | 108 | 91 |

Cafodd y cynllun ymadael yn wirfoddol ei gau i ymgeiswyr newydd yn ystod 2020-21. Cafwyd ychydig iawn o gostau am golli swyddi, sef £108k (2022: £91k), yn ystod y flwyddyn wrth i'r cynllun gael ei derfynu.

## TREULIAU GWEITHREDU ERAILL YN ÔL Y DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR

| | CYFUNOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 |
|---|---|---|
| Cyfarpar nad yw'n ased cyfalaf | 14,913 | 16,223 |
| Defnyddiau traul | 6,960 | 6,004 |
| Rhent, ardrethi a phrydlesi | 21,523 | 24,165 |
| Costau gwaith atgyweirio, adnewyddu, cynnal a chadw ac adeiladu | 9,693 | 10,994 |
| Gwres, goleuadau, pŵer a dŵr | 10,115 | 7,706 |
| Ysgoloriaethau, bwrsariaethau, gwobrau a chyfraniadau at ffioedd | 19,772 | 16,878 |
| Llyfrau, cyhoeddiadau, cyfnodolion a gwasanaethau llyfrgell | 4,357 | 4,019 |
| Recriwtio myfyrwyr a hysbysebu | 9,496 | 8,115 |
| Gwaith ymgynghori, gwasanaethau proffesiynol ac asiantaethau | 22,938 | 23,130 |
| Costau teithio a chynadleddau | 7,296 | 4,180 |
| Gwariant a oedd yn ymwneud â gweithwyr | 4,441 | 3,897 |
| Tanysgrifiadau a chyfraniadau | 2,442 | 2,678 |
| Treuliau swyddfa | 1,543 | 1,484 |
| Arlwyo | 1,343 | 1,262 |
| Treuliau eraill | 3,351 | 4,203 |
| | 140,183 | 134,938 |

## CYDNABYDDIAETH ARIANNOL ARCHWILWYR ALLANOL

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad o'r Brifysgol a'i his-gwmnïau | 158 | 126 | 132 | 105 |
| Gwasanaethau sicrhau archwiliadau | 15 | 15 | 31 | 31 |
| Gwasanaethau cydymffurfio o ran treth | 15 | – | 14 | – |
| Gwasanaethau cynghori ar dreth | 21 | 21 | 5 | 5 |
| **CYFANSWM GWASANAETHAU HEBLAW AM ARCHWILIADAU** | 51 | 36 | 50 | 36 |

## 10. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – CYFUNOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Darnau gosod, gosodiadau a chyfarpar | Llongau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 378,402 | 161,050 | 65,848 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 642,165 |
| Ychwanegiadau | – | 3,424 | 9,233 | – | 29,056 | 20 | 41,733 |
| Trosglwyddiadau | 48,027 | – | 4,220 | – | (52,247) | – | – |
| Amhariad | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwarediadau | (850) | – | – | – | – | – | (850) |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 425,579 | 164,474 | 79,301 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 683,048 |
| **GWERTH AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 41,083 | – | – | – | – | – | 41,083 |
| Cost | 384,496 | 164,474 | 79,301 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 641,965 |
| | 425,579 | 164,474 | 79,301 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 683,048 |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 75,590 | 52,848 | 47,894 | 199 | – | – | 176,531 |
| Cost am y flwyddyn | 13,430 | 7,063 | 12,001 | 62 | – | – | 32,556 |
| Gwarediadau | (176) | – | | – | – | – | (176) |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 88,844 | 59,911 | 59,895 | 261 | – | – | 208,911 |
| **SWM CARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 336,735 | 104,563 | 19,406 | 1,305 | 11,103 | 1,025 | 474,137 |
| Ar 1 Awst 2022 | 302,812 | 108,202 | 17,954 | 1,367 | 34,294 | 1,005 | 465,634 |



## ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – Y BRIFYSGOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Darnau gosod, gosodiadau a chyfarpar | Llongau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 378,402 | 161,050 | 64,618 | 1,566 | 34,294 | 1,005 | 640,935 |
| Ychwanegiadau | | 3,424 | 9,223 | – | 29,056 | 20 | 41,723 |
| Trosglwyddiadau | 48,027 | – | 4,220 | – | (52,247) | – | – |
| Gwarediadau | (850) | – | – | – | – | – | (850) |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 425,579 | 164,474 | 78,061 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 681,808 |
| **GWERTH AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 41,083 | – | – | – | – | – | 41,083 |
| Cost | 384,496 | 164,474 | 78,061 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 640,725 |
| | 425,579 | 164,474 | 78,061 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 681,808 |
| **DIBRISIANT CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | 75,590 | 52,848 | 46,743 | 199 | – | – | 175,380 |
| Cost am y flwyddyn | 13,430 | 7,063 | 11,995 | 62 | – | – | 32,550 |
| Gwarediadau | (176) | – | – | – | – | – | (176) |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 88,844 | 59,911 | 58,738 | 261 | – | – | 207,754 |
| **SWM CARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 336,735 | 104,563 | 19,323 | 1,305 | 11,103 | 1,025 | 474,054 |
| Ar 1 Awst 2022 | 302,812 | 108,202 | 17,875 | 1,367 | 34,294 | 1,005 | 465,555 |

Prisiwyd tir ac eiddo'r Brifysgol yn llawn ar 31 Gorffennaf 2014 gan syrfewyr siartredig cymwysedig, yn unol â phrisiad Safonau Proffesiynol RICS 2014 (y Llyfr Coch). Yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102, paragraff 35.10, mae'r Brifysgol wedi dewis mesur tir ac eiddo ar sail gwerth teg ar y dyddiad trosiannol, 31 Gorffennaf 2014, a defnyddio'r gwerth teg fel y gost dybiedig ar y dyddiad hwnnw. Mae'r eiddo'n cael ei ddibrisio o'r dyddiad prisio. Wrth i'r asedau gael eu dibrisio neu eu gwerthu, gwneir trosglwyddiad priodol o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn. Dadansoddiad o'r tir a'r adeiladau a brisiwyd ar y dyddiad trosglwyddo i FRS 102 gan ddefnyddio'r eithriad cost dybiedig.

Ar 31 Gorffennaf 2023, roedd y tir a'r adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £16,500k (2022: £16,500k) o ran tir rhydd-ddaliad nad yw'n cael ei ddibrisio.

Yn dilyn adolygiad o asedau diriaethol, nid ystyriwyd bod unrhyw amhariad yn angenrheidiol yn 2023 (2022: £0).

## 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Cyfunol a'r Brifysgol

| | MEDDALWEDD | ASEDAU SY'N CAEL EU DATBLYGU | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| **COST** | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Awst 2022 | – | – | – |
| Ychwanegiadau | 240 | 156 | 396 |
| Trosglwyddiadau | – | – | – |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | **240** | **156** | **396** |
| **AMORTEIDDIO** | | | |
| Ar 1 Awst 2022 | – | – | – |
| Tâl am y flwyddyn | 80 | – | 80 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | **80** | **–** | **80** |
| **GWERTH NET AR BAPUR** | | | – |
| **Ar 31 Gorffennaf 2023** | **160** | **156** | **316** |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | – | – | – |

Mae'r ychwanegiadau meddalwedd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â phlatfform "ServiceNow" y Brifysgol. Mae meddalwedd yn cael ei hamorteiddio ar sail wastad dros ei bywyd economaidd defnyddiol. Mae ychwanegiadau'r asedau sy'n cael eu datblygu'n ymwneud â dylunio a gweithredu platfform meddalwedd i gefnogi datblygiadau rhwydwaith. Nid yw amorteiddio'n berthnasol i asedau sy'n cael eu datblygu.

## 12. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU TREFTADAETH

Mae'r asedau treftadaeth ar fantolen y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cyfeirio'n bennaf at gasgliad celf y Brifysgol. Mae asedau treftadaeth eraill hefyd nad ydynt wedi gallu eu prisio oherwydd eu natur. Felly, nid ydynt wedi cael eu cynnwys.

Mae gan y Ganolfan Eifftaidd Gasgliad Wellcome, sy'n cynnwys henbethau ac arteffactau Eifftaidd. Mae'r asedau hyn yn unigryw ac yn anadnewyddadwy. Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn amgueddfa gydnabyddedig, wedi'i hachredu gan Gyngor y Celfyddydau, ac mae'n bartner ACCES cydnabyddedig. Ei nod yw casglu deunyddiau a dogfennau archeolegol o'r Aifft, eu dehongli a gofalu amdanynt, ac mae cadwraeth yn rhan hollbwysig o'r gwaith. Caiff yr holl bolisïau eu hadolygu gan Gyngor y Celfyddydau. Mae Casgliad Wellcome ar gael i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, ysgolion lleol a'r cyhoedd ei weld.

Cydnabyddir y casgliad o luniau a chelf ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Asedau Treftadaeth. Cafodd y casgliad ei brisio yn 2008 gan brisiwr annibynnol ac fe'i nodwyd ar sail cost dybiedig wrth ei drosglwyddo. Gellir gweld y rhan fwyaf o'r casgliad celf hwn ledled y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol gasgliad arian hefyd, sy'n cynnwys powlenni, fasau a chwpanau cystadlaethau yn dyddio rhwng y 1950au a'r 1980au. Ni ellir priodoli pris i'r casgliad hwn, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Cedwir y casgliad yn ddiogel, ond mae ar gael i'w archwilio ar gais.

Mae'r Brifysgol hefyd yn dal llawysgrifau Dylan Thomas a brynwyd drwy gronfeydd y Brifysgol.

## 13. TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Mae gan y Brifysgol chwe threfniant consesiwn gwasanaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**NEWID MEWN ASEDAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**
Gwerth asedau'r consesiwn gwasanaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2023 yw £104,563k (1 Awst 2022: £108,202k).

Mae'r gostyngiad gwerth £3,638k yn deillio o £7,063k o ddibrisiant namyn y £3,424k a ychwanegwyd yn dilyn y warant ychwanegol a roddwyd ar y tair preswylfa ar Gampws y Bae, gan gynyddu'r warant feddiannaeth o 50% i 100% am un flwyddyn academaidd yn unig.

**NEWID MEWN RHWYMEDIGAETHAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**
Cyfanswm y rhwymedigaethau a oedd yn ymwneud â threfniadau consesiwn gwasanaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2023 oedd £115,961k (1 Awst 2022: £119,032k). Gostyngwyd rhwymedigaethau £6,495k yn ystod y flwyddyn yn dilyn ad-daliadau ac addasiadau cyfrifyddol. Rhoddwyd gwarantau meddiannaeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn o ran y tair preswylfa ar Gampws y Bae, gan gynyddu'r rhwymedigaeth £3,424k, a lleihau gostyngiad cyffredinol y rhwymedigaeth i £3,070k.



**YMRWYMIADAU YN Y DYFODOL**
Mae'r tabl hwn yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â'r trefniadau consesiwn gwasanaeth.

| £'000 | TALADWY MEWN 1 FLWYDDYN | TALADWY MEWN 2-5 MLYNEDD | TALADWY MEWN > 5 MLYNEDD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 6,584 | 13,625 | 95,752 | 115,961 |
| Cost cyllid | 2,881 | 10,543 | 35,104 | 48,528 |
| | **9,465** | **24,168** | **130,856** | **164,489** |

Cyn trosi'r Datganiadau Ariannol i adlewyrchu FRS102, roedd y Brifysgol wedi cytuno ar y prydlesi canlynol na chafodd eu cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol gynt. Mae'r prydlesi hyn wedi cael eu cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth. Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y trefniadau hyn.

**PRESWYLFEYDD GWALIA**
Cam 1 Gwalia – Cytunwyd ar brydles 30 o flynyddoedd yn 2004 i adeiladu tri bloc newydd o lety a fyddai'n cynnwys 272 o unedau. Y warant feddiannaeth yw 100%. Cam 2 Gwalia – Cytunwyd ar brydles 30 o flynyddoedd yn 2010 a fyddai'n cynnwys 351 o unedau, gan gadw'r lloriau isaf ar gyfer gweithgareddau'r Brifysgol. Y warant feddiannaeth yw 100%.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1A**
Ym mis Medi 2015, dechreuodd y Brifysgol ar gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1A llety'r myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 899 o ystafelloedd ar gyfer 923 o fyfyrwyr. Ym mis Chwefror 2018, daeth y trydydd parti, gyda chydsyniad y Brifysgol, i gytundeb i drosglwyddo'r contract i drydydd parti arall. Yn ôl telerau'r cytundeb newydd, estynnwyd y brydles i 2062. Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau blynyddol gwerth £1,485k a gofnodir o dan Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol yr unig hawl dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn y tymor sy'n dechrau ym mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol yr hawl i enwebu unedau meddiannaeth dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1B**
Ym mis Ionawr 2016, dechreuodd y Brifysgol gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1B llety'r myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 545 o ystafelloedd sengl. Ym mis Chwefror 2018, trosglwyddwyd y contract i drydydd parti arall ac estynnwyd y brydles i 2062.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau blynyddol gwerth £823k a gofnodir o dan Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol yr unig hawl dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn y tymor sy'n dechrau ym mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol yr hawl i enwebu unedau meddiannaeth dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1C**
Ar 15 Rhagfyr 2015, cytunodd y Brifysgol ar gontract 45 o flynyddoedd â darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Cam 1C llety'r myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 538 o ystafelloedd sengl. Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau blynyddol gwerth £1,056k a gofnodir dan Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol yr unig hawl dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn y tymor sy'n dechrau ym mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol yr hawl i enwebu unedau meddiannaeth llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract 45 o flynyddoedd, bydd gan y Brifysgol yr opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi enwol o £1.00.

**ADEILAD ACADEMAIDD Y COLEG**
Ar 8 Medi 2017, cytunodd y Brifysgol ar gontract 20 o flynyddoedd â darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw adeilad academaidd.

Mae'r Brifysgol wedi gwarantu 35% o'r adeilad sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau blynyddol gros gwerth £357k. Mae gan y Brifysgol yr unig hawliau dros y 35% o'r adeilad a ddyrannwyd ac yn rheoli'r defnydd yn yr ardal hon.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **14. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL** | | | | |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | **125** | **–** | 48 | 48 |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | **–** | **700** | – | 1,929 |
| Buddsoddiadau eraill | **594** | **–** | 238 | – |
| | **719** | **700** | 286 | 1,977 |

**BUDDSODDIADAU MEWN CWMNÏAU CYSYLLTIOL**

Mae gan y sefydliad fuddsoddiadau gwerth 50% yn Swan Global Education LLP (2022: 50%) a Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (2022: 50%). Cyfrifir y buddsoddiadau fel cost namyn amhariad yn natganiadau ariannol y sefydliad a thrwy ddefnyddio dull ecwiti yn y datganiadau ariannol cyfunol.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2022 | **48** | **48** | 1,780 | 1,780 |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | – | – |
| Gwarediadau | **–** | **–** | – | – |
| Cyfran o'r colledion/(elw) a ddelir gan y cwmni cysylltiol | **77** | **(48)** | (1,732) | (1,732) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | **125** | **–** | 48 | 48 |

| **BUDDSODDIADAU MEWN IS-GWMNÏAU** | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2022 | **–** | **1,929** | – | 1,929 |
| Ychwanegiadau | **–** | **35** | – | 772 |
| Gwarediadau | **–** | **–** | – | – |
| Amhariad | **–** | **(1,264)** | – | (772) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | **–** | **700** | – | 1,929 |

Mae'r buddsoddiad gwerth £35k yn ymwneud â SU Pathway College Ltd, is-gwmni y mae'r Brifysgol yn berchen ar 100% ohono.

| **BUDDSODDIADAU ERAILL** | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2022 | **238** | **–** | 288 | – |
| Ychwanegiadau | **–** | **–** | – | – |
| Gwarediadau | **–** | **–** | – | – |
| Amhariad/Gwrthdroadau | **54** | **–** | 8 | – |
| Ailbrisiadau | **302** | **–** | (58) | – |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | **594** | **–** | 238 | – |

| **MAE BUDDSODDIADAU ERAILL YN CYNNWYS:** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ar sail gwerth teg: | | | | |
| Gwarannau gwerthadwy | **207** | **–** | 123 | – |
| Ar sail cost namyn amhariad: | | | | |
| Buddsoddiadau grŵp mewn cwmnïau deillio | **387** | **–** | 115 | – |
| | **594** | **–** | 238 | – |



Mae manylion y buddsoddiadau lle mae'r grŵp cyfunol a'r Brifysgol yn dal 20% neu fwy o werth enwol unrhyw ddosbarthiad o gyfranddaliadau fel a ganlyn:

| CWMNI | SWYDDFA GOFRESTREDIG | PRIF WEITHGARWCH | DALIANT | STATWS |
|---|---|---|---|---|
| Gower Innovations Ltd | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Gweithgarwch gweithgynhyrchu arall nad yw wedi'i ddosbarthu'n rhywle arall | Cyfranddaliadau cyffredinol | 20% |
| Refiex Ltd | Azets, SA7 9FS | Segur | Cyfranddaliadau cyffredinol | 20% |
| Trameto Ltd | Villa House, 7 Teras Herbert, Penarth CF64 2AH | Gweithgynhyrchu cydrannau electronig | Cyfranddaliadau cyffredinol | 23% |
| Haemomoetrics Ltd | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredinol | 20% |
| ProGnomics Ltd | Azets, SA7 9FS | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredinol | 20% |
| Semitechnologies Ltd | Azets, SA7 9FS | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredinol | 20% |
| Bay Campus Developments LLP | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Segur | Partner | 50% |
| WNPS | Pwll Cenedlaethol Cymru, SA2 8QG | Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | Gwarant | 50% |
| Swan Global Education | The Lambourn, Wyndyke Furlong, Abingdon, Swydd Rydychen OX14 1UJ | Addysgol | Partner | 50% |
| Swansea Materials Research and Testing | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredinol | 100% |
| Swansea Innovations | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Gweithgareddau ymgynghori ym maes rheoli ac eithrio rheolaeth ariannol | Cyfranddaliadau cyffredinol | 100% |
| SU Developments | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Segur | Cyfranddaliadau cyffredinol | 100% |
| SU Pathway College Ltd | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Gweithgareddau cymorth cyfleusterau cyfun | Cyfranddaliadau cyffredinol | 100% |

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau eu mesur yn ôl pris trafodiadau (gan gynnwys costau trafodiadau) a'u hystyried yn flynyddol o ran amhariad.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **15. STOC** | | | | |
| Defnyddiau traul cyffredinol | **37** | **16** | 58 | 38 |
| Gwaith ar y gweill | **92** | **–** | 47 | – |
| | **129** | **16** | 105 | 38 |

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **16. BUDDSODDIADAU CYFREDOL** | | | | |
| Buddsoddiadau tymor byr mewn cyfranddaliadau | **1,822** | **1,822** | 1,889 | 1,889 |
| Bondiau tymor byr | **2,659** | **2,659** | 2,429 | 2,429 |
| Buddsoddiadau tymor byr eraill | **223** | **223** | 511 | 511 |
| Adneuon tymor byr | **50,237** | **50,237** | 200 | 200 |
| | **54,941** | **54,941** | 5,029 | 5,029 |

Y cynnydd mewn gwerth teg adneuon tymor byr yn y flwyddyn oedd £49,912k (2022: cynnydd gwerth £240k). Mae'r cynnydd hwn yn deillio o ddau adnau mawr newydd a ddelir gan Lloyds (£25,000k) a Barclays (£25,000k).

Delir adneuon gan fanciau a chymdeithasau adeiladu a drwyddedir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a fydd yn aeddfedu fwy na thris ar ôl dyddiad y fantolen. Mae'r llog ar yr adneuon hyn yn sefydlog am gyfnod yr adneuon adeg eu gosod.

Ar 31 Gorffennaf 2023, cyfradd llog gyfartalog gymhwysol yr adneuon sefydlog hyn (ac eithrio'r ddau adnau newydd gwerth £25,000k) oedd 1.5% (2022: 1.6%). Cyfradd llog gyfartalog y ddau adnau newydd gwerth £25,000k oedd 4.65% (2022: dim). Nid oedd gwerth teg yr adneuon hyn yn sylweddol wahanol i'w gwerth llyfr.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL AILDDATGANEDIG 2022 £000 | Y BRIFYSGOL AILDDATGANEDIG 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **17. MASNACH A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL** | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | | | |
| Dyledwyr masnach net | **9,795** | **9,766** | 12,196 | 12,126 |
| Hawliadau grantiau ymchwil derbyniadwy | **7,666** | **7,666** | 5,798 | 5,798 |
| Incwm cronnus – grantiau ymchwil | **19,107** | **19,107** | 21,343 | 21,343 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **17,195** | **17,362** | 15,672 | 16,022 |
| Symiau sy'n ddyledus o fentrau grŵp | **–** | **19** | – | – |
| | **53,763** | **53,920** | 55,009 | 55,289 |

Mae'r hawliadau grantiau ymchwil derbyniadwy'n cynnwys £2,828k o symiau dargadw sy'n dderbyniadwy rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024. Gweler nodyn 34 am fanylion y symiau ailddatganedig.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL AILDDATGANEDIG 2022 £000 | Y BRIFYSGOL AILDDATGANEDIG 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **18. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN** | | | | |
| Gorddrafft banc | **128** | **–** | – | – |
| Benthyciadau anwarantedig | **6,077** | **6,077** | 5,817 | 5,817 |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | **6,584** | **6,584** | 6,495 | 6,495 |
| Symiau masnach sy'n daladwy | **19,554** | **19,590** | 8,412 | 8,415 |
| Nawdd Cymdeithasol a threth arall i'w talu | **5,008** | **5,001** | 5,592 | 5,585 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **96,781** | **96,666** | 113,260 | 113,154 |
| Symiau sy'n ddyledus i fentrau grŵp | **–** | **157** | – | 157 |
| | **134,132** | **134,075** | 139,576 | 139,623 |



**CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG**

Mae croniadau ac incwm gohiriedig yn cynnwys yr eitemau canlynol sydd wedi'u gohirio:

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL AILDDATGANEDIG 2022 £000 | Y BRIFYSGOL AILDDATGANEDIG 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ymlaen llaw | **29,001** | **29,001** | 29,335 | 29,335 |
| Grantiau'r Cyngor Cyllido a dderbyniwyd ymlaen llaw | **3,121** | **3,121** | 4,198 | 4,198 |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw | **–** | **–** | 28,883 | 28,883 |
| Croniadau eraill | **64,659** | **64,544** | 50,844 | 50,738 |
| | **96,781** | **96,666** | 113,260 | 113,154 |

Gweler nodyn 34 am fanylion y symiau ailddatganedig.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **19. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN** | | | | |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | **109,377** | **109,377** | 112,537 | 112,537 |
| Incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw | **1,679** | **1,679** | 1,723 | 1,723 |
| Benthyciadau anwarantedig | **98,364** | **98,364** | 102,141 | 102,141 |
| **SYMIAU SY'N DDYLEDUS I GREDYDWYR AR ÔL MWY NA BLWYDDYN** | **209,420** | **209,420** | 216,401 | 216,401 |

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **20. DADANSODDIAD O FENTHYCIADAU ANWARANTEDIG** | | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn neu ar alwad | **6,077** | **6,077** | 5,817 | 5,817 |
| Yn ddyledus o fewn un i ddwy flynedd | **6,340** | **6,340** | 6,046 | 6,046 |
| Yn ddyledus o fewn dwy i bum mlynedd | **19,723** | **19,723** | 18,459 | 18,459 |
| Yn ddyledus o fewn pum mlynedd neu fwy | **72,301** | **72,301** | 77,636 | 77,636 |
| **CYFANSWM BENTHYCIADAU ANWARANTEDIG SY'N AD-DALADWY ERBYN 2044** | **104,441** | **104,441** | 107,958 | 107,958 |

**PARHAD**

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y benthyciadau:

| RHODDWR BENTHYCIADAU | SWM MEWN £000 | CYFRADD LLOG | CYFNOD | BENTHYCIWR |
|---|---|---|---|---|
| Banc Buddsoddi Ewrop | **8,333** | Sefydlog 2.576% | Mehefin 2033 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | **9,167** | Sefydlog 2.423% | Ionawr 2034 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | **7,367** | Sefydlog 3.843% | Awst 2034 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | **7,388** | Sefydlog 3.964% | Ionawr 2035 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | **7,891** | Sefydlog 4.132% | Awst 2035 | Y Brifysgol |
| Banc Buddsoddi Ewrop | **56,004** | Sefydlog 2.698% | Ebrill 2044 | Y Brifysgol |
| Benthyciad SURE | **5,869** | Sefydlog 0.550% | Mawrth 2031 | Y Brifysgol |
| Salix | **2,420** | Sefydlog 0% | Ebrill 2031 | Y Brifysgol |
| **CYFANSWM** | **104,441** | | | |

| | RHWYMEDIGAETH I ARIANNU DIFFYG USS £000 | DARPARIAETH CYNLLUN PENSIWN SUPS £000 | CYFANSWM DARPARIAETHAU PENSIWN £000 |
|---|---|---|---|

## 21. DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU

| | RHWYMEDIGAETH I ARIANNU DIFFYG USS £000 | DARPARIAETH CYNLLUN PENSIWN SUPS £000 | CYFANSWM DARPARIAETHAU PENSIWN £000 |
|---|---|---|---|
| **CYFUNOL A'R BRIFYSGOL** | | | |
| **AR 1 AWST 2022** | 134,264 | 36,600 | 170,864 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (7,389) | (800) | (8,189) |
| Ailbrisio pensiynau | – | – | – |
| Ychwanegiadau/(gostyngiadau) | (27,234) | (18,600) | (45,834) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | **99,641** | **17,200** | **116,841** |

Mae'r rhwymedigaeth i ariannu'r diffyg blaenorol yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) yn deillio o'r rhwymedigaeth gontractiol i dalu am y diffyg yn y cynllun pensiwn yn unol â'r cynllun adfer diffygion. Wrth gyfrifo'r ddarpariaeth hon, mae'r tîm rheoli wedi amcangyfrif lefelau staff yn y dyfodol a fydd yn rhan o gynllun USS drwy gydol y rhwymedigaeth gontractiol, a chwyddiant cyflogau. Nodir tybiaethau allweddol isod a darperir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 31.

Gweler nodyn 31 am ragor o wybodaeth am SUPS ac USS.

## 22. CRONFEYDD GWADDOL

Mae'r asedau net cyfyngedig sy'n ymwneud â gwaddolion fel a ganlyn:

| | Gwaddolion parhaol cyfyngedig £000 | Gwaddolion parhaol anghyfyngedig £000 | Gwaddolion treuliadwy £000 | Cyfanswm 2023 £000 | Cyfanswm 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **BALANSAU** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2022** | | | | | |
| Cyfalaf | 4,143 | 1,669 | 651 | **6,463** | 6,674 |
| Incwm cronedig | 730 | 62 | 52 | **844** | 831 |
| | 4,873 | 1,731 | 703 | **7,307** | 7,505 |
| Rhoddion a gwaddolion newydd | – | – | 9 | **9** | 30 |
| Trosglwyddo gwaddolion | (25) | – | 25 | **–** | – |
| Incwm o fuddsoddiadau | 98 | – | 20 | **118** | 44 |
| Gwariant | (23) | – | (16) | **(39)** | (31) |
| (Gostyngiad) yng ngwerth marchnadol buddsoddiadau | (55) | (32) | – | **(87)** | (241) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | 4,868 | 1,699 | 741 | **7,308** | 7,307 |
| Dadansoddiad o'r buddsoddiadau: | | | | | |
| Cyfalaf | 4,063 | 1,637 | 685 | **6,385** | 6,463 |
| Incwm cronedig | 805 | 62 | 56 | **923** | 844 |
| | 4,868 | 1,699 | 741 | **7,308** | 7,307 |

| **DADANSODDIAD FESUL MATH O DDIBEN:** | Cyfanswm 2023 £000 | Cyfanswm 2022 £000 |
|---|---|---|
| Darlithyddiaethau | **21** | 21 |
| Ysgoloriaethau a bwrsariaethau | **3,095** | 3,076 |
| Cymorth ymchwil | **299** | 297 |
| Cronfeydd gwobrau | **875** | 877 |
| Cyffredinol | **3,018** | 3,036 |
| | **7,308** | 7,307 |
| **DADANSODDIAD FESUL ASED** | | |
| Buddsoddiadau presennol mewn asedau | **4,941** | 5,029 |
| Balans banc y Brifysgol | **2,367** | 2,278 |
| | **7,308** | 7,307 |



Mae gan y sefydliad y gwaddolion unigol canlynol sy'n berthnasol:

Mae'r Brifysgol yn dal mwy na 177 o waddolion, gan gynnwys cronfeydd parhaol a threuliadwy. Mae cyfyngiad penodol ar bob gwaddol a rheolir gwariant gan reolwyr dynodedig y cyllidebau. Mae gan y Brifysgol un gwaddol sylweddol gwerth mwy na £1,000k, sef y gronfa waddol gyffredinol. Dyma ddaliant gwaddol parhaol sy'n dal £1,300k o gronfeydd gwaddol, sy'n werth £1,900k yn y portffolio ar hyn o bryd. Gan ei fod yn waddol cyffredinol, mae unrhyw incwm sy'n cael ei ennill yn cael ei ryddhau i'r Brifysgol at ddibenion amhenodol. Nid yw'r holl waddolion eraill yn sylweddol, ond mae dibenion perthnasol yn gysylltiedig â hwy.

## 23. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG

Y canlynol yw'r cronfeydd wrth gefn cyfyngedig:

| | Grantiau Cyfalaf nas Gwariwyd £000 | Rhoddion £000 | Cyfanswm 2023 £000 | Cyfanswm 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **CYFUNOL A'R SEFYDLIAD** | | | | |
| **BALANSAU** | | | | |
| **AR 1 AWST 2022** | – | 52 | 52 | – |
| Rhoddion cyfyngedig newydd | – | 196 | **196** | 53 |
| Incwm o fuddsoddiadau | – | – | **–** | – |
| Gwariant | – | (62) | **(62)** | (1) |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn | – | – | **–** | – |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | – | 187 | **187** | 52 |

| **DADANSODDIAD O GRONFEYDD/RODDION CYFYNGEDIG ERAILL FESUL MATH O DDIBEN:** | Cyfanswm 2023 £000 | Cyfanswm 2022 £000 |
|---|---|---|
| Ysgoloriaethau | **60** | 11 |
| Caledi | **59** | 27 |
| Cyfleusterau campws a chwaraeon | **1** | 3 |
| Cyffredinol | **67** | 11 |
| | **187** | 52 |

## 24. ARIAN PAROD A CHYFWERTH

| | Ar 1 Awst 2022 £000 | Llifoedd Arian £000 | Ar 31 Gorffennaf 2023 £000 |
|---|---|---|---|
| **CYFUNOL** | | | |
| Arian Parod a Chyfwerth | 164,695 | (41,164) | **123,531** |
| Gorddrafft banc | – | (128) | **(128)** |
| | 164,695 | (41,292) | **123,403** |

| | 2023 £000 |
|---|---|
| **25. DYLED NET GYFUN WEDI'I CHYSONI** | |
| **DYLED NET AR 1 AWST 2022** | **62,295** |
| Newidiadau o ran arian parod a chyfwerth | (41,164) |
| Newidiadau eraill heblaw am arian parod | 75,868 |
| **DYLED NET AR 31 GORFFENNAF 2023** | **96,999** |
| **NEWID MEWN DYLED NET** | **34,704** |

| DADANSODDIAD O'R DDYLED NET: | 2023 £000 | 2022 £000 |
|---|---|---|
| **ARIAN PAROD A CHYFWERTH** | **123,531** | 164,695 |
| **BENTHYCIADAU: SYMIAU SY'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN** | | |
| Benthyciadau anwarantedig | **6,077** | 5,817 |
| Gorddrafft banc | **128** | – |
| Trefniadau consesiwn gwasanaeth | **6,584** | 6,495 |
| | **12,789** | 12,312 |
| **BENTHYCIADAU: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN** | | |
| Rhwymedigaethau consesiwn gwasanaeth sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | **109,377** | 112,537 |
| Benthyciadau anwarantedig | **98,364** | 102,141 |
| | **207,741** | 214,678 |
| **DYLED NET** | **96,999** | 62,295 |

| | NODIADAU | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **26. OFFERYNNAU ARIANNOL** | | | | | |
| **ASEDAU ARIANNOL** | | | | | |
| **Asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy Ddatganiad o Incwm Cynhwysfawr** | | **207** | **–** | 123 | – |
| **Asedau ariannol sy'n offerynnau ecwiti a fesurir ar sail cost namyn amhariad** | | | | | |
| Buddsoddiadau eraill | | **387** | **–** | 115 | – |
| | 14 | **594** | **–** | 238 | – |
| **Asedau ariannol sy'n offerynnau dyled a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio** | | | | | |
| Arian parod a chyfwerth | | **123,403** | **123,187** | 164,695 | 164,046 |
| Buddsoddiadau eraill | 16 | **54,941** | **54,941** | 5,029 | 5,029 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 17 | **12,330** | **12,301** | 14,460 | 14,390 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 17 | **7,666** | **7,666** | 5,798 | 5,798 |
| | | **198,340** | **198,095** | 189,982 | 189,263 |
| **RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL** | | | | | |
| **Rhwymedigaethau ariannol a fesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio** | | | | | |
| Gorddrafftiau banc | 18 | **128** | **–** | – | – |
| Benthyciadau | 20 | **104,441** | **104,441** | 107,958 | 107,958 |
| Consesiynau gwasanaeth | 17/18 | **115,961** | **115,961** | 119,032 | 119,032 |
| Credydwyr masnach | 18 | **19,554** | **19,590** | 8,412 | 8,415 |
| | | **240,084** | **239,992** | 235,402 | 235,405 |



| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **27. CYFALAF AC YMRWYMIADAU ERAILL** | | | | |
| Ni wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol ar 31 Gorffennaf 2023: | | | | |
| Ymrwymiadau cyfalaf: | **16,985** | **16,985** | 3,641 | 3,641 |
| | **16,985** | **16,985** | 3,641 | 3,641 |

Mae'r cynnydd sylweddol o ran ymrwymiadau cyfalaf wedi deillio o'r ymrwymiad newydd i wneud gwaith sylfeini digidol a ddechreuodd yn ystod 2023 (£13,463k).

Roedd yr ymrwymiadau o ran adeiladau'n sefydlog (£3,522k) a'r unig ymrwymiad cyfalaf sylweddol o ran adeiladau oedd cyfanswm o £1,630k am waith ar Dŷ Fulton ar draws nifer o gyflenwyr.

| | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|
| **28. RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL** | | | | |
| Gwarantau | | | | |
| I Lloyds ar gyfer SMaRT Ltd | **–** | **500** | – | 500 |
| | **–** | **500** | – | 500 |

Mae'r Brifysgol yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer Swansea Materials Research and Testing Limited drwy gyfleuster gorddrafft o £500k yn unig. Cred y Brifysgol fod posibilrwydd bach yn unig o dalu'r warant am fod Swansea Materials Research & Testing Limited yn is-gwmni sy'n eiddo iddi ac y mae uwch-staff y Brifysgol yn ei reoli. Mae'r graddau y bydd angen y warant yn dibynnu ar orddrafft cyfredol yr is-gwmni. Os y'i telir, mae'n annhebygol y bydd unrhyw ad-daliad ar gyfer y rhwymedigaeth ddigwyddiadol hon.

Mae'r Brifysgol yn aelod o UMAL, cwmni cyfyngedig drwy warant, a ffurfiwyd i ddarparu cymdeithas gydfuddiannol ar gyfer risgiau yswiriant. Dan delerau ei aelodaeth, mae pob aelod yn yswiriwr ac yn yswiriedig. Os bydd diffyg gan y gymdeithas yn gyffredinol yn ystod unrhyw flwyddyn yswirio, bydd yr aelodau'n atebol am eu cyfran ar sail pro rata. Mae'r potensial ar gyfer diffyg a gwerth y diffyg mewn unrhyw flwyddyn benodol yn anhysbys. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw bosibilrwydd o ad-daliad os gelwir ar y warant hon.

Mae'r sefydliad wedi gwneud ymrwymiadau ysgrifenedig i gefnogi'r is-gwmnïau am gyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

| | 2023 Tir ac Adeiladau £000 | 2022 Tir ac Adeiladau £000 |
|---|---|---|
| **29. RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI** | | |
| Cyfanswm rhenti sy'n daladwy dan brydlesi gweithredu: | | |
| **CYFUNOL A'R SEFYDLIAD** | | |
| Taladwy yn ystod y flwyddyn | **1,282** | 1,190 |
| **Isafswm taliadau prydlesi yn y dyfodol sy'n ddyledus:** | | |
| O fewn blwyddyn fan bellaf | **920** | 1,088 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd fan bellaf | **2,629** | 2,472 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **5,195** | 4,599 |
| **UCHAFSWM TALIADAU PRYDLESI SY'N DDYLEDUS** | **8,744** | 8,159 |

Ni chafodd unrhyw brydlesi newydd eu negodi yn ystod 2023, a dim ond y brydles barcio ar Gampws y Bae sy'n cael ei negodi o'r newydd ar gyfer 2024. Cafodd dwy brydles eu terfynu yn ystod y flwyddyn, a throsglwyddwyd safleoedd y prydlesi yn ôl.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Brifysgol yn denant ar dair prydles sylweddol: Y Coleg, cwmni cyd-fentro; Maes Parcio Campws y Bae ac uned ym Mharc Ynni Baglan. Bydd y brydles â'r Coleg ar adeilad ar Gampws y Bae yn para tan 2038 a bydd y brydles ar yr uned ym Maglan yn parhau tan 2027.

**Cyfanswm rhenti derbyniadwy dan brydlesi gweithredol:**

Mae'r Brifysgol yn prydlesu ardaloedd bach ar Gampws Parc Singleton a Champws y Bae. Mae'r prydlesi'n cynnwys deintyddfa, meddygfa, unedau manwerthu ar gyfer Undeb y Myfyrwyr, man labordy i Swansea Materials Research and Testing Ltd, is-gwmni y mae'n berchen yn llwyr arno, a man labordy i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Brifysgol hefyd yn prydlesu ardaloedd bach a swyddfeydd i gwmnïau sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Brifysgol. Mae'r telerau a'r cyfnodau torri'n wahanol ar gyfer pob prydles ac mae prydlesi mannau bach yn cael eu hadnewyddu'n aml. Nid oes gan y Brifysgol unrhyw eiddo buddsoddi yn ei phortffolio gan fod yr ardaloedd sy'n cael eu rhentu'n rhai bach mewn adeiladau mwy.

| CYFUNOL A'R SEFYDLIAD | 2023 Tir ac Adeiladau | 2022 Tir ac Adeiladau |
|---|---|---|
| **Isafswm taliadau prydlesi yn y dyfodol sy'n ddyledus:** | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn fan bellaf | **345** | 369 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd fan bellaf | **988** | 1,087 |
| Ymhen mwy na phum mlynedd | **1,196** | 1,404 |
| **UCHAFSWM TALIADAU PRYDLESI SY'N DDYLEDUS** | **2,529** | 2,860 |

Nid oedd unrhyw renti digwyddiadol derbyniadwy yn ystod 2022/23 (2021/22: £0).

## 30. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau i adrodd amdanynt ar ôl 31 Gorffennaf 2023.

## 31. CYNLLUNIAU PENSIWN

Roedd gwahanol gategorïau o staff yn gymwys i ymuno ag un o'r cynlluniau canlynol:
Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS)
Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) – a gaewyd i aelodau newydd ar 31 Rhagfyr 2011
Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST) – o 1 Ionawr 2012

Mae'r Brifysgol hefyd yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG ar gyfer nifer o'i gweithwyr.

Mae USS a SUPS yn gynlluniau â buddion wedi'u diffinio. Cedwir asedau'r ddau gynllun mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae NEST yn gynllun â buddion wedi'u diffinio ar sail cyfraniadau.

| | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 | Y BRIFYSGOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR – COST NET PENSIYNAU** | | | | |
| USS | **25,733** | **25,733** | 23,329 | 23,329 |
| Cost diffyg pensiynau USS | **(31,704)** | **(31,704)** | 93,537 | 93,537 |
| SUPS | **1,268** | **1,268** | 1,270 | 1,270 |
| Arall | **1,383** | **1,383** | 1,204 | 1,204 |
| | **(3,320)** | **(3,320)** | 119,340 | 119,340 |
| **INCWM CYNHWYSFAWR ARALL – ENILLION ACTIWARAIDD O RAN CYNLLUNIAU PENSIWN** | | | | |
| SUPS | **18,600** | **18,600** | 23,700 | 23,700 |
| | **18,600** | **18,600** | 23,700 | 23,700 |
| **DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL – RHWYMEDIGAETH O RAN CYNLLUNIAU PENSIWN (NODYN 21)** | | | | |
| USS | **99,641** | **99,641** | 134,264 | 134,264 |
| SUPS | **17,200** | **17,200** | 36,600 | 36,600 |
| | **116,841** | **116,841** | 170,864 | 170,864 |



### (I) CYNLLUN BLWYDD-DAL Y PRIFYSGOLION

Mae'r Brifysgol yn cyfranogi yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), sef y prif gynllun ar gyfer y rhan fwyaf o staff academaidd a staff sy'n gysylltiedig â'r byd academaidd. Dyma gynllun pensiwn hybrid, sy'n darparu buddion wedi'u diffinio (i'r holl aelodau), yn ogystal â buddion wedi'u diffinio ar sail cyfraniadau. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae USS yn gynllun ar gyfer cyflogwyr niferus yr ymdrinnir ag ef yn unol â'r polisïau cyfrifyddu.

Y cyfanswm cost y codir tâl amdano yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yw £25,733k (2022: £23,329k), gan gynnwys PensionChoice, ond heb ystyried effaith y newid yn y cynllun adfer diffygion, a ddangosir yn nodyn 7.

Y cyfraniadau adfer diffygion sy'n ddyledus o fewn blwyddyn i'r sefydliad yw £7,389k (2022: £2,624k).

Mae prisiad actiwaraidd cyflawn diweddaraf adran Adeiladwr Incwm Ymddeol y cynllun yn dyddio o 31 Mawrth 2020 (dyddiad y prisiad), a wnaed gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol.

Gan na all y sefydliad gadarnhau ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau Adeiladwr Incwm Ymddeol USS (buddion wedi'u diffinio), mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r rhai sy'n berthnasol i'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny'n gyffredinol.

Prisiad 2020 oedd chweched prisiad y cynllun dan y drefn gyllido sy'n benodol i gynlluniau a gyflwynwyd gan Ddeddf Pensiynau 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau feddu ar asedau digonol a phriodol i dalu eu darpariaethau technegol. Ar ddyddiad y prisiad, gwerth asedau'r cynllun oedd £66.5 biliwn, a gwerth darpariaethau technegol y cynllun oedd £80.6 biliwn, gan nodi diffyg o £14.1 biliwn a chymhareb gyllido o 83%.

Disgrifir y tybiaethau ariannol allweddol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2020 isod. Ceir rhagor o fanylion yn y Datganiad o Egwyddorion Cyllido. (uss.co.uk/about-us/valuation-and-funding/statement-of-funding-principles).

| | |
|---|---|
| Tybiaeth y Mynegai Prisiau Defnyddwyr | Cyfraddau sy'n ddibynnol ar dymor yn unol â'r gwahaniaeth rhwng y cromliniau arenillion llog sefydlog ac arenillion cysylltiedig â'r mynegai namyn:<br>1.1% y flwyddyn tan 2030, gan ostwng yn llinol 0.1% y flwyddyn i wahaniaeth o 0.1% y flwyddyn yn y tymor hir o 2040 |
| Cynnydd o ran pensiynau (yn ddarostyngedig i derfyn isaf o 0%) | Tybiaeth y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn ogystal â 0.05% |
| Cyfradd ddisgownt (darpar gyfraddau) | Cromlin arenillion giltiau llog sefydlog yn ogystal â'r canlynol:<br>Cyn ymddeol: 2.75% y flwyddyn<br>Ar ôl ymddeol 1.00% y flwyddyn |

Mae'r brif dybiaeth ddemograffig yn ymwneud â thybiaethau ynghylch marwolaeth. Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a gynhaliwyd fel rhan o brisiad actiwaraidd 2020. Mae'r tybiaethau ynghylch marwolaeth a ddefnyddir yn y ffigurau hyn fel a ganlyn:

| | **Prisiad 2020** |
|---|---|
| Tabl sylfaen marwolaeth | 101% o S2PMA "ysgafn" ar gyfer dynion a 95% o S3PFA ar gyfer menywod. |
| Cyfraddau marwolaeth gwell yn y dyfodol | CMI_2019 â pharamedr llyfnhau o 7.5, ychwanegiad cychwynnol o 0.5% y flwyddyn a chyfradd wella yn y tymor hir o 1.8% y flwyddyn ar gyfer dynion ac 1.6% y flwyddyn ar gyfer menywod. |

| **Dyma'r disgwyliad oes cyfredol wrth ymddeol yn 65 oed:** | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Dynion sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **24.0** | 23.9 |
| Menywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **25.6** | 25.5 |
| Dynion sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **26.0** | 25.9 |
| Menywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **27.4** | 27.3 |

Rhoddwyd cynllun adfer diffygion ar waith fel rhan o werthusiad 2020, sy'n ei gwneud yn ofynnol talu 6.2% o gyflogau dros y cyfnod o 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2024 pan fydd y gyfradd yn cynyddu i 6.3%. Mae rhwymedigaeth adfer diffygion 2023 yn adlewyrchu'r cynllun hwn. Lluniwyd ffigurau'r rhwymedigaeth gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | **5.49%** | 3.33% |
| Twf cyflog pensiynadwy | **5.10%** | 1.11% |

Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr fel a ganlyn:

| DYDDIAD DOD I RYM | CYFRADD |
|---|---|
| 1 Hydref 2019 tan 30 Medi 2021 | 21.10% |
| 1 Hydref 2021 tan 31 Mawrth 2022 | 21.40% |
| 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2024 | 21.60% |
| 1 Ebrill 2024 tan 30 Ebrill 2038 | 21.40% |

**DADANSODDIAD O SENSITIFRWYDD**

Fel a nodwyd yn y polisïau cyfrifyddu, rhaid gwneud rhai penderfyniadau beirniadol wrth amcangyfrif y rhwymedigaeth i ariannu diffyg USS. Nodir sensitifrwydd y prif dybiaethau a ddefnyddir i fesur darpariaeth diffyg USS isod:

| | AMCANGYFRIF O EFFAITH AR Y DDARPARIAETH |
|---|---|
| | £000 |
| Gostyngiad gwerth 0.5% y flwyddyn yn y gyfradd ddisgownt | 3,738 |
| Cynnydd gwerth 0.5% y flwyddyn o ran chwyddiant cyflogau drwy gydol y cyfnod | 3,765 |
| Cynnydd gwerth 0.5% y flwyddyn o ran chwyddiant cyflogau yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig | 470 |
| Cynnydd gwerth 0.5% o ran newidiadau staff drwy gydol y cyfnod | 3,698 |
| Cynnydd gwerth 0.5% o ran newidiadau staff yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig | 466 |

### (II) CYNLLUN PENSIWN Y GIG

Mae'r sefydliad hefyd yn cyfranogi yng Nghynllun Pensiwn y GIG sy'n cael ei gontractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth (S2P). Caiff asedau tybiannol Cynllun Pensiwn y GIG eu hasesu gan Actiwari'r Llywodraeth ac mae'r Llywodraeth yn gwarantu'r buddion.

Mae Cynllun Pensiwn y GIG yn gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu buddion wedi'u diffinio. Mae'n gweithredu ar sail talu wrth i chi fynd. Cyflwynwyd cynllun diwygiedig newydd ar 1 Ebrill 2015 sy'n cyfrifo buddion pensiwn yn seiliedig ar enillion gyrfa cyfartalog. Mae trefniadau trosiannol yn caniatáu i unigolion a oedd o fewn 10 mlynedd i'r oedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 barhau i gyfranogi yn hen drefniadau 'cyflog terfynol' Cynllun Pensiwn y GIG (adrannau 1995 a 2008).

Cynhaliwyd prisiad o'r cynllun pensiwn gan Drysorlys ei Mawrhydi gynt at ddibenion cyllido ym mis Mawrth 2012. Mae Rheoliadau'r Cynllun wedi cael eu newid i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd bennu cyfraddau cyfrannu, drwy gydsyniad Trysorlys ei Fawrhydi, a chan ystyried cyngor Actiwari'r Cynllun a chynrychiolwyr priodol cyflogeion a chyflogwyr fel y bo'n briodol. Roedd y gyfradd gyfrannu a oedd yn daladwy gan y sefydliadau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018 gyfwerth â 14.3% o'r cyfanswm pensiynadwy yn unol â chasgliad adroddiad Actiwari'r Llywodraeth am y cynllun.

### (III) CYNLLUN PENSIWN PRIFYSGOL ABERTAWE

**DATGELIAD (BUDDION YMDDEOL) AM Y CYFNOD CYFRIFYDDU A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2023**

Mae'r Brifysgol yn gweithredu cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar sail cyflog terfynol y gall gweithwyr anacademaidd gyfranogi ynddo, o'r enw Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS). Caiff y cynllun ei ariannu'n allanol ac mae wedi'i gontractio allan o ddarpariaeth pensiwn Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P).

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd teirblynyddol ffurfiol diwethaf y cynllun ar 1 Awst 2022 gan actiwari cymwysedig proffesiynol. Mae'r canlynol yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad teirblynyddol ar 1 Awst 2022 wedi'u rhagamcanu drwy ganiatáu ar gyfer cronni buddion, adenillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau a llifoedd arian, ac mae wedi'i addasu i ystyried tybiaethau FRS102, a nodir isod.

Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu, talodd y Brifysgol gyfraniadau at y cynllun pensiwn ar gyfradd o 23% o gyflogau pensiynadwy o ran cronni buddion yn y dyfodol, premiymau marw yn y swydd a threuliau.



**TYBIAETHAU**

| **Dyma'r tybiaethau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun yn unol ag FRS102:** | AR 31 GORFFENNAF 2023 | AR 1 AWST 2022 |
|---|---|---|
| Chwyddiant prisiau (Mynegai Prisiau Manwerthu) | **3.4%** | 3.3% |
| Chwyddiant prisiau (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) | **3.0%** | 2.9% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **3.3%** | 3.2% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau mewn taliadau i aelodau SUPS | **3.4%** | 3.3% |
| Cynnydd i bensiynau a ohiriwyd cyn ymddeol | **3.0%** | 2.9% |
| Cyfradd ddisgownt | **5.1%** | 3.4% |

Y dybiaeth anariannol fwyaf arwyddocaol yw lefel dybiedig hirhoedledd. Mae'r tabl isod yn dangos y tybiaethau disgwyliad oes a ddefnyddir mewn asesiadau cyfrifyddu ar sail disgwyliad oes aelodau gwrywaidd a benywaidd sy'n 65 oed ac aelodau sy'n 45 oed ar hyn o bryd.

| | AR 31 GORFFENNAF 2023 | AR 1 AWST 2022 |
|---|---|---|
| Pensiynwyr – dynion | **19.6** | 20.1 |
| Pensiynwyr – menywod | **22.0** | 22.4 |
| Dynion (45 oed ar hyn o bryd) nad ydynt yn bensiynwyr | **20.5** | 21.1 |
| Menywod (45 oed ar hyn o bryd) nad ydynt yn bensiynwyr | **23.1** | 23.5 |

**Asedau'r cynllun a chyfraddau adenillion disgwyliedig SUPS**

Cyfrifwyd yr adenillion disgwyliedig ar asedau o gyfartaledd pwysedig adenillion disgwyliedig o bob prif ddosbarth asedau (h.y. ecwitïau a bondiau). Mae adenillion disgwyliedig pob dosbarth yn adlewyrchu cyfuniad o ddadansoddi perfformiad hanesyddol, rhagolygon marchnadoedd ariannol ar gyfer y dyfodol (a awgrymir gan yr arenillion sydd ar gael) a barnau sefydliadau buddsoddi.

| | GWERTH TEG AR 31 GORFFENNAF | | |
|---|---|---|---|
| | 2023 | 2022 | 2021 |
| **YR ASEDAU YN Y CYNLLUN OEDD:** | | | |
| | £M | £M | £M |
| Ecwitïau | **37.4** | 53.9 | 54.8 |
| Bondiau corfforaethol | **7.8** | 7.9 | 8.1 |
| Eiddo | **1.5** | 2.0 | 7.5 |
| Cronfa GARS | **12.2** | 13.5 | 14.6 |
| Arall | **37.6** | 31.2 | 36.8 |
| Cyfanswm | **96.5** | 108.5 | 121.8 |

Mae'r tablau isod yn cynnwys datgeliadau Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe.

| | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2023 | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **DADANSODDIAD O'R SWM A DDENGYS YN Y FANTOLEN AR GYFER SUPS** | | |
| Asedau'r cynllun | **96,500** | 108,500 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | **(113,700)** | (145,100) |
| **DIFFYG YN Y CYNLLUN – RHWYMEDIGAETH BENSIWN NET A GOFNODWYD O DAN INCWM CYNHWYSFAWR ARALL** | **(17,200)** | (36,600) |
| Costau gwasanaeth cyfredol | **(1,600)** | (2,200) |
| Costau gwasanaeth blaenorol | **–** | – |
| **CYFANSWM Y GOST WEITHREDU:** | **(1,600)** | (2,200) |

| | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2023 | Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **DADANSODDIAD O'R SWM A GODIR AR GYFER LLOG I'W DALU/A GREDYDIR I INCWM CYLLID ARALL AR GYFER SUPS** | | |
| Cost llog | **(4,900)** | (3,100) |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | **3,700** | 2,100 |
| Llog ar ddiffyg net | – | – |
| **COST NET I INCWM CYLLID ARALL** | **(1,200)** | (1,000) |

| **DADANSODDIAD O INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AR GYFER SUPS** | | |
|---|---|---|
| (Colledion) ar asedau | **(13,900)** | (14,400) |
| Enillion ar rwymedigaethau | **32,500** | 38,100 |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR ARALL CYN DIDYNNU TRETH** | **18,600** | 23,700 |

| | Y FLWYDDYN HYD AT | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 GORFFENNAF 2023 | 31 GORFFENNAF 2022 | 31 GORFFENNAF 2021 | 30 GORFFENNAF 2020 |
| **HANES ENILLION A CHOLLEDION – SUPS** | | | | |
| **Y GWAHANIAETH RHWNG ADENILLION DISGWYLIEDIG A GWIRIONEDDOL AR ASEDAU'R CYNLLUN:** | | | | |
| Swm (£000) | **(13,900)** | (14,400) | 14,100 | 1,000 |
| % o asedau ar ddiwedd y flwyddyn | **-14.4%** | -13.3% | 11.6% | 0.9% |
| **(ENILLION)/COLLEDION AR RWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN:** | | | | |
| Swm (£000) | **(32,500)** | (38,100) | 1,500 | 11,800 |
| % o rwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn | **-28.6%** | -26.3% | 0.8% | 6.5% |



| | 31 GORFFENNAF 2023 | 31 GORFFENNAF 2022 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **COLLEDION ACTIWARAIDD CRONNOL A GYDNABYDDIR FEL INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AR GYFER SUPS** | | |
| Colledion actiwaraidd cronnol a gydnabyddir ar ddechrau'r flwyddyn | **(6,400)** | (37,400) |
| Colledion actiwaraidd cronnol a gydnabyddir ar ddiwedd y flwyddyn | **12,200** | (6,400) |

| **DADANSODDIAD O'R NEWID MEWN (DIFFYG) AR GYFER SUPS** | | |
|---|---|---|
| **DIFFYG AR DDECHRAU'R FLWYDDYN** | **(36,600)** | (61,200) |
| Cyfraniadau neu fuddion a dalwyd gan y Brifysgol | **4,500** | 4,500 |
| Costau gwasanaeth cyfredol | **(1,600)** | (2,200) |
| Costau gwasanaeth blaenorol | **–** | – |
| Costau gweinyddol | **(900)** | (400) |
| Costau cyllid arall | **(1,200)** | (1,000) |
| Enillion a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall | **18,600** | 23,700 |
| **DIFFYG AR DDIWEDD Y FLWYDDYN** | **(17,200)** | (36,600) |

| **DADANSODDIAD O NEWID O RAN GWERTH TEG SUPS** | | |
|---|---|---|
| **GWERTH PRESENNOL SUPS AR DDECHRAU'R FLWYDDYN** | **145,100** | 183,000 |
| Costau gwasanaeth cyfredol (net o gyfraniadau aelodau) | **1,600** | 2,200 |
| Costau gwasanaeth blaenorol | **–** | – |
| Cost llog | **4,900** | 3,100 |
| (Enillion) actiwaraidd | **(32,500)** | (38,100) |
| Taliadau buddion gwirioneddol | **(5,400)** | (5,100) |
| **GWERTH PRESENNOL RHWYMEDIGAETHAU SUPS AR DDIWEDD Y FLWYDDYN** | **113,700** | 145,100 |

| **DADANSODDIAD O'R NEWIDIADAU O RAN GWERTH TEG ASEDAU'R CYNLLUN** | | |
|---|---|---|
| **GWERTH TEG ASEDAU AR DDECHRAU'R FLWYDDYN** | **108,500** | 121,800 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | **3,700** | 2,100 |
| (Colledion) actiwaraidd ar asedau | **(13,900)** | (14,400) |
| Cyfraniadau gwirioneddol a dalwyd gan y Brifysgol | **4,500** | 4,500 |
| Treuliau ac eithrio buddsoddiadau | **(900)** | (400) |
| Taliadau buddion gwirioneddol | **(5,400)** | (5,100) |
| **GWERTH TEG ASEDAU'R CYNLLUN AR DDIWEDD Y FLWYDDYN** | **96,500** | 108,500 |

Nid yw asedau SUPS yn cynnwys unrhyw un o offerynnau ariannol y Brifysgol ei hun, nac unrhyw eiddo y mae'r Brifysgol yn ei ddefnyddio.

| **ADENILLION GWIRIONEDDOL AR ASEDAU'R CYNLLUN** | | |
|---|---|---|
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | **3,700** | 2,100 |
| Colledion ar asedau | **(13,900)** | (14,400) |
| | **(10,200)** | (12,300) |

Amcangyfrifir mai £1,300k fydd y cyfraniadau at SUPS yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 (2022-23: £1,200k), gan ragdybio cyfradd gyfrannu o 23.4% ynghyd â chyfraniad blynyddol sefydlog o £2,440k (2022-23: 23.2% ynghyd â £2,369 y flwyddyn).

## 32. TRAFODIADAU PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Oherwydd natur gweithrediadau'r sefydliad ac aelodaeth ei Gyngor (a dynnir o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol) a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, mae'n anochel y cynhelir trafodiadau â sefydliadau y gall fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt. Cynhelir yr holl drafodiadau hynny ar hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a gweithdrefnau caffael arferol y sefydliad. Mae'r sefydliad wedi manteisio ar yr eithriad yn Adran 33 FRS 102, 'Related Party Disclosures', ac nad yw wedi datgelu trafodiadau ag endidau grŵp eraill y mae'n berchen yn llwyr arnynt.

| | INCWM O BARTI CYSYLLTIEDIG | INCWM O BARTI CYSYLLTIEDIG | GWEDDILL DYLEDUS GAN BARTI CYSYLLTIEDIG |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe | **795** | **609** | 240 |
| Swan Global Education LLP | **1,103** | **5,238** | 1,102 |
| | **1,898** | **5,847** | 1,342 |

Drwy gydol y flwyddyn ac ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Brifysgol fuddsoddiadau gwerth 50% yng nghwmnïau cysylltiedig Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (2022: 50%) a Swan Global Education LLP (2022: 50%). Ymdrinnir â'r berthynas â'r ddau gwmni gan ddefnyddio'r dull ecwiti, i'r perwyl y cafodd 50% o asedau a rhwymedigaethau gros y cwmnïau eu hymgorffori ym mantolen gyfunol y Brifysgol a chofnodwyd 50% o'r incwm net yng nghyfrif incwm a gwariant cyfunol y Brifysgol.

Nid yw'r Brifysgol yn rheoli Undeb y Myfyrwyr nac yn berchen arno ac endid cyfreithiol ar wahân ydyw, ond mae'r Brifysgol yn darparu cyllid grant i'r undeb i gefnogi'r myfyrwyr. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Brifysgol brif grant bloc gwerth £1,124k a £95k arall i Undeb y Myfyrwyr, a oedd yn cynnwys cyfraniadau tuag at gyllid nyrsys, costau meithrinfeydd a cheisiadau am gyllid. Yn ogystal, rhoddodd y Brifysgol £78k i Undeb y Myfyrwyr am gynllun gweithredu costau byw i gynnig cyngor a chymorth i fyfyrwyr er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

**AELODAU'R CYNGOR**

Mae aelodau Cyngor y Brifysgol yn ymddiriedolwyr at ddibenion cyfraith elusennau. Oherwydd natur gweithrediadau'r Brifysgol ac aelodaeth y Cyngor, y tynnir llawer ohonynt o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat lleol, mae'n anochel y cynhelir trafodiadau â sefydliadau y gall fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt. Cynhelir yr holl drafodiadau sy'n ymwneud â sefydliadau y gall fod gan aelod o'r Cyngor fuddiant ynddynt, gan gynnwys y rhai isod, ar hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a gweithdrefnau caffael arferol y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol Bolisi Datgan Buddiannau Allanol ac mae'n ofynnol i bob aelod o'r Cyngor ddatgan pob buddiant yn agored, a chaiff y rhain eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol.

Y canlynol yw'r trafodiadau trydydd parti y nodwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 fod ymddiriedolwyr wedi datgan buddiant ynddynt: Clwb Rygbi Rhanbarthol y Scarlets – £31,700 am hysbysebu/gynadleddau a bu ymddiriedolwr yn Gyfarwyddwr y Bwrdd gynt; Cyfoeth Naturiol Cymru – £1,476 am wasanaethau proffesiynol, a bu ymddiriedolwr yn gyflogai gynt; Compass Group – £1,521,565 am wasanaethau arlwyo ac mae gan aelod teulu/gyswllt agos ymddiriedolwr gyfranddaliad yn Compass; Golwg Cyf. – £5,827 am hysbysebu (cyrsiau, recriwtio ac arall) ac mae ymddiriedolwr yn un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd; Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe – £1,611,861 am drafodiadau amrywiol, ac mae dau fyfyriwr sy'n aelodau o'r Cyngor ymhlith ymddiriedolwyr yr Undeb; Wales in London – £1,980 am asiantaethau staff/cyflogaeth ac mae ymddiriedolwr yn un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd; Telesgop – £6,600 am wasanaethau hysbysebu a chynhyrchu ac mae ymddiriedolwr yn un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd; Just Eat – £177 am wasanaethau arlwyo ac mae gan aelod teulu/gyswllt agos ymddiriedolwr gyfranddaliad yn Just Eat; Sainsbury's yn y DU – £5,751 am nwyddau ac mae gan aelod teulu/gyswllt agos ymddiriedolwr gyfranddaliad yn Sainsbury's; grwpiau Hilton Worldwide – £4,966 am wasanaethau llety a gwestai ac mae gan aelod teulu/gyswllt agos ymddiriedolwr gyfranddaliad yng ngrwpiau Hilton; Global Education Matters - £30,162 am weithgarwch ffioedd myfyrwyr ac mae gan aelod teulu/gyswllt agos ymddiriedolwr drefniant ymgynghori â Global Education Matters; Cymdeithas Ddysgedig Cymru – £28,910 am danysgrifiadau ac mae ymddiriedolwr yn un o Gymrodyr y Gymdeithas; Gerddi Aberglasne – £621 am arlwyo ac mae ymddiriedolwr hefyd yn ymddiriedolwr yng Ngerddi Aberglasne; JISC – £1,474,192 am hyfforddiant/feddalwedd/lyfrau a gweithgareddau amrywiol eraill, ac un o'r ymddiriedolwyr yw Cadeirydd JISC.

Nid yw unrhyw aelod o'r Cyngor wedi derbyn cydnabyddiaeth ariannol na gwrthod taliadau yn ystod y flwyddyn (2022: £0).

Yn ystod y flwyddyn, talwyd £3.2k o dreuliau i aelodau'r Cyngor (2022: £4.5k), a thalwyd £6.3k ar ran aelodau'r Cyngor (costau teithio a hyfforddiant) (2022: £1k).

## 33. RHESTR ATODOL CYFRIFOLDEB ARIANNOL ADRAN ADDYSG YR UNOL DALEITHIAU

I fodloni ei rhwymedigaethau i hwyluso mynediad myfyrwyr at gymorth ariannol ffederal yr Unol Daleithiau, mae Adran Addysg yr Unol Daleithiau'n mynnu bod y Brifysgol yn cyflwyno'r Rhestr Atodol ganlynol mewn fformat penodedig.

Mae'r symiau a gyflwynir yn y rhestr wedi:

- cael eu paratoi yn unol â chonfensiwn costau hanesyddol
- cael eu paratoi gan ddefnyddio arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol ledled y Deyrnas Unedig, yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (argraffiad 2019)
- cael eu cyflwyno ar ffurf punnoedd sterling



Mae'r rhestrau'n nodi sut mae pob swm a ddatgelir wedi cael ei dynnu o'r datganiadau ariannol. Fel a nodwyd uchod, ni fwriedir i'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir i gadarnhau'r symiau a ddatgelir gydymffurfio â'r egwyddorion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn Unol Daleithiau America, ac nid ydynt yn cydymffurfio â'r egwyddorion hynny.

| Eitem llinell/datgeliad | | CYFUNOL 2023 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb y Brif Gronfa Wrth Gefn** | | | | |
| | **Asedau net treuliadwy** | | | |
| | Asedau Net heb Gyfyngiadau gan Roddwyr | **239,520** | | 156,558 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Cronfa Incwm a Gwariant Anghyfyngedig | **–** | 198,437 | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | **–** | 41,083 | – |
| | Asedau Net â Chyfyngiadau gan Roddwyr | **7,495** | | 7,359 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Gwaddolion Wrth Gefn | **–** | 7,308 | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Cronfa Wrth Gefn Gyfyngedig | **–** | 187 | – |
| Nodyn 10, ac eithrio Trefniant Consesiwn Gwasanaeth | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar | **–** | | – |
| | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar, cyn y cyfnod gweithredu | **(287,160)** | | (300,892) |
| | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar heb ddyled o'u prynu'n wreiddiol | **(71,311)** | | (22,246) |
| | Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar – adeiladu ar waith | **(11,103)** | | (34,294) |
| Nodyn 10 – Trefniant Consesiwn Gwasanaeth | Asedau hawl i ddefnyddio prydlesi – cyn y cyfnod gweithredu | **(104,563)** | | (108,202) |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Asedau anniriaethol | **(316)** | | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Rhwymedigaethau pensiwn ac ar ôl cyflogaeth | **116,841** | | 170,864 |
| | Dyled tymor hir at ddibenion tymor hir | **–** | | – |
| Nodyn 19 ac 20 | Dyled tymor hir at ddibenion tymor hir cyn y cyfnod gweithredu | **96,151** | | 101,253 |
| Nodyn 19 ac 20 | Dyled tymor hir at ddibenion tymor hir yn ystod y cyfnod gweithredu | **8,290** | | 6,705 |
| Nodyn 13 | Rhwymedigaeth asedau sy'n rhoi'r hawl i ddefnyddio prydlesi | **–** | | – |
| | Rhwymedigaeth asedau sy'n rhoi'r hawl i ddefnyddio prydlesi cyn y cyfnod gweithredu | **115,961** | | 119,032 |
| | Rhwymedigaeth asedau sy'n rhoi'r hawl i ddefnyddio prydlesi yn ystod y cyfnod gweithredu | **–** | | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Gwaddolion dros gyfnodau o amser â chyfyngiadau gan roddwyr | **(7,308)** | | (7,307) |
| | **Cyfanswm treuliau gweithredu heb gyfyngiadau gan roddwyr** | | | |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac eithrio newid yn y cyfraniadau disgwyliedig at USS | Colledion anweithredol a chollediom net ar fuddsoddiadau | **380,395** | | 354,092 |
| | Colledion anweithredol a chollediom net ar fuddsoddiadau | **(50,304)** | | 69,837 |
| | Taliadau sy'n ymwneud â phensiynau heblaw am gostau cyfnodol | **50,304** | | (69,837) |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Newid yn y cyfraniadau disgwyliedig at USS | **–** | 31,704 | – |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | **–** | 18,600 | – |

| Eitem llinell/datgeliad | | CYFUNOL 2023 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | CYFUNOL 2022 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymhareb Ecwiti** | | | | |
| | **Asedau Net Diwygiedig** | | | |
| | Asedau net heb gyfyngiadau gan roddwyr | **239,520** | | 156,558 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Cronfa Incwm a Gwariant Anghyfyngedig | – | 198,437 | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | – | 41,083 | – |
| | Asedau Net â Chyfyngiadau gan Roddwyr | **7,495** | | 7,359 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Gwaddolion Wrth Gefn | – | 7,308 | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Cronfa Wrth Gefn Gyfyngedig | – | 187 | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Asedau anniriaethol | **316** | | – |
| | **Asedau Diwygiedig** | | | |
| | Cyfanswm Asedau | **707,408** | | 690,758 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Asedau Anghyfredol | – | 475,172 | – |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Asedau Cyfredol | – | 232,236 | – |
| Nodyn 10 – Trefniant Consesiwn Gwasanaeth | Asedau hawl i ddefnyddio prydlesi cyn y cyfnod gweithredu | **104,563** | | 108,202 |
| Nodyn 13 | Hawl i ddefnyddio prydlesi cyn y cyfnod gweithredu | **115,961** | | 119,032 |
| Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | Asedau anniriaethol | **316** | | – |
| **Cymhareb Incwm Net** | | | | |
| | **Newid o ran asedau net heb gyfyngiadau gan roddwyr** | | | |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn | **83,098** | | (55,881) |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Incwm cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn | **(136)** | | 146 |
| **Cyfanswm Refeniw ac Enillion** | | | | |
| | **Cyfanswm refeniw ac enillion heb gyfyngiadau gan roddwyr** | | | |
| | Cyfanswm refeniw gweithredu ac ychwanegiadau eraill | **412,441** | | 370,033 |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Cyfanswm incwm | – | 412,637 | – |
| Nodyn 6 – incwm cyfyngedig | Rhoddion cyfyngedig | – | (196) | – |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr | Refeniw anweithredol ac enillion eraill | **226** | | – |



## 34. ADDASIAD O'R FLWYDDYN FLAENOROL

Wrth baratoi cyfrifon 2022/23, nodwyd lle roedd gan is-brosiect ymchwil unigol falans dyledwyr neu gredydwyr fod y balansau hyn yn cael eu dangos yn anghywir fel dyledwyr neu gredydwyr unigol pan ddylent fod wedi cael eu cyfuno i'w cyfrif yn erbyn y prosiect ymchwil yn ei gyfanrwydd. Mae addasiad cyfnod blaenorol wedi cael ei gynnwys i ailddosbarthu'r dyledwyr a'r credydwyr. Mae'r addasiad yn effeithio ar y dyledwyr a'r credydwyr yn y datganiadau ariannol yn unig, gan gynnwys ar y fantolen ac yn ôl y llif arian.

Nid yw'r addasiad hwn yn effeithio ar y ffigurau net cyffredinol yn y cyfrifon. Nodir yr effaith yn y tablau isod.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 Cyfunol | | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 Y Brifysgol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Fel a nodwyd yn flaenorol | Addasiadau | Fel a ailddatganwyd | Fel a nodwyd yn flaenorol | Addasiadau | Fel a ailddatganwyd |
| **MASNACH A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm cronnus – grantiau ymchwil | **42,604** | **(21,261)** | **21,343** | 42,604 | (21,261) | 21,343 |
| | **42,604** | **(21,261)** | **21,343** | 42,604 | (21,261) | 21,343 |
| **CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Grantiau ymchwil a dderbyniwyd ymlaen llaw | **(50,596)** | **21,261** | **(29,335)** | (50,596) | 21,261 | (29,335) |
| | **(50,596)** | **21,261** | **(29,335)** | (50,596) | 21,261 | (29,335) |
| **Cyfanswm** | **(7,992)** | **–** | **(7,992)** | (7,992) | – | (7,992) |
| **EFFAITH AR Y FANTOLEN** | | | | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | **42,604** | **(21,261)** | **21,343** | 42,604 | (21,261) | 21,343 |
| Credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **(50,596)** | **21,261** | **(29,335)** | (50,596) | 21,261 | (29,335) |
| **EFFAITH AR Y LLIF ARIAN** | | | | | | |
| (Cynnydd)/gostyngiad o ran dyledwyr | **(13,932)** | **21,261** | **7,329** | | | |
| Cynnydd/(Gostyngiad) o ran credydwyr | **28,547** | **(21,261)** | **7,286** | | | |